

Gwerthusiad o'r Dull Ysgol Gyfan wedi'i Lywio gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE).

4





GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Gwerthusiad o'r Dull Ysgol Gyfan wedi'i Lywio gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE).

Awduron

Emma R Barton¹, Annemarie Newbury¹ a Dr Jo Roberts¹.

¹Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cydnabyddiaeth

Ariannwyd y gwerthusiad hwn trwy Gronfa Arloesedd Heddlu'r Swyddfa Gartref a Chomisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru (Cyfeirnod 2016-039). Hoffem ddiolch i'r holl gyfranogwyr, yn enwedig staff Ysgol Gynradd Caerau, Ysgol Gynradd Y Garth ac Ysgol Gynradd Llangynwyd a wirfoddolodd i gymryd rhan yn y gwerthusiad hwn.

Hoffem ddiolch hefyd i Janine Roderick, (Cyfarwyddwr Rhaglen Iechyd Cyhoeddus a Phlismaon mewn Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol) am ei harweinyddiaeth strategol yn ystod y gwerthusiad yn ogystal â sylwadau ar ddrafftiau cynharach; Dr Michelle McManus (Iechyd Cyhoeddus Cymru) ar gyfer sylwadau ar ddrafftiau cynharach yr adroddiad hwn, Sian Griffiths (Rheolwr Perthnasoedd y Sector Addysg, Both ACE) ar gyfer sylwadau cynharach ar ddrafftiau cynharach a Jessica Evans ar gyfer datblygu protocolau gwerthuso. Llawer o ddiolch i Christopher Davies (Iechyd Cyhoeddus Cymru) ac Anwen Philp (Iechyd Cyhoeddus Cymru) am gefnogaeth wrth gynhyrchu'r adroddiad. Yn olaf, hoffem ddiolch i Hayley o Jenney Creative am ddylunio'r adroddiad.

Acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

ACE	Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod: profiadau llawn straen sy'n digwydd yn ystod plentyndod sy'n niweidio plentyn yn uniongyrchol (e.e. camdriniaeth) neu'n effeithio arnynt trwy'r amgylchedd y maent yn byw ynddynt (e.e. tyfu i fyny gyda thrais yn y cartref).
ALN	Anghenion Dysgu Ychwanegol: Mae gan rywun anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddynt anhawster neu anabledd dysgu sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.
BCBC	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr: Corff llywodraethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n darparu gwasanaethau megis gofal cymdeithasol, tai a gwasanaethau addysg.
DSP	Uwch Berson Dynodedig: rhywun a enwir yn gweithio ym mhob ysgol sy'n gyfrifol am ddiogelu'r holl blant a phobl ifainc. Mae hyn yn cynnwys rheoli'r achosion diogelu plant a chysylltu ag asiantaethau perthnasol pan gaiff arwyddion esgeulustra a chamdriniaeth eu hadnabod
EWO	Swyddog Lles Addysg: aelod o'r Awdurdod Lleol sy'n gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod pob plentyn oedran ysgol yn derbyn addysg amser llawn addas trwy annog presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol.
FSM	Prydau Ysgol Am Ddim: Mae prydau am ddim ar gael i blant mewn ysgol amser llawn y mae eu rhieni'n byw islaw lefel incwm benodol. Darperir cyllid ychwanegol i ysgolion trwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion i wella canlyniadau Plant FSM a sy'n Derbyn Gofal.
LAC	Plant sy'n Derbyn Gofal: Plentyn sy'n derbyn gofal yr Awdurdod Lleol. Gallai hyn fod gyda rhieni maeth, gyda'u rhieni eu hunain o dan oruchwyliaeth gwasanaethau cymdeithasol, mewn cartrefi preswyl i blant neu unedau diogel.
LSA/O	Cynorthwy-ydd/Swyddog Cefnogi Dysgu: Aelod o staff ysgol a gyflogir i gefnogi athrawon a disgyblion yn y dosbarth. Mae LSA/O yn gweithio ym mhob lleoliad addysg gan gynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd sydd ag Unedau Addysg Arbennig ac Ysgolion Arbennig.
PPN	Hysbysiad Amddiffyn y Cyhoedd: Dogfen rhannu gwybodaeth y mae Heddlu De Cymru'n ei defnyddio i gofnodi pryderon ynghylch diogelu.

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	3
1. Cefndir.....	7
1.1 Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) a dysgu	7
1.2 Pwysigrwydd adeiladu gwydnwch plant	7
1.3 Rôl ysgolion	8
1.4 Arfer wedi'i lywio gan drawma cyfredol mewn ysgolion.....	9
2. Dull Ysgol Gyfan Wedi'i Lywio gan ACE	10
2.1 Braslun o'r dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE.....	10
2.2 Gwerthusiad o'r Dull Ysgol Gyfan Wedi'i Lywio gan ACE	11
3. Dull	12
3.1. Holiaduron gwerthuso ac offeryn ARTIC	12
3.2. Cyfweliadau	13
3.3. Dadansoddi Data.....	14
4. Holiadur a Deilliannau 'Agweddau Mewn Perthynas â Gofal Wedi'i Lywio gan Drawma'	15
4.1 Gofal ac arfer wedi'u llywio gan ACE/Trawma.	15
4.2 Hyder i weithredu mewn dull wedi'i lywio gan ACE.....	17
4.3 Agweddau tuag at gyflwyno'r hyfforddiant.....	18
4.4 Effaith yr hyfforddiant ar arfer	19
5. Canfyddiadau ansoddol o gyfweliadau gyda datblygwyr rhaglen, partneriaid a staff ysgol ar y dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE	20
5.1 Profiad o gefnogi plant sydd ag ACE a thrawma	20
5.2 Y dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE.....	21
5.3 Offeryn Parodrwydd ACE	25
5.4 Hyfforddiant	26
5.5 Cynllun gweithredu a phhecyn adnoddau ysgol	33
5.6 Ystyriaethau ar gyfer 'cyflwyno'r' dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE.....	34
6. Trafodaeth ac Argymhellion.....	39
Atodiad 1: Trosolwg o'r Dull Ysgol Gyfan Wedi'i Lywio gan ACE	45
Atodiad 2- Tablau data.....	48
Cyfeiriadau	53

Crynodeb gweithredol

Darparwyd tystiolaeth helaeth o'r effaith y mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn ei chael ar ddatblygiad plant a'r canlyniadau dilynol yn ddiweddarach mewn bywyd. Er hynny, gall adeiladu gwydnwch mewn plant helpu diogelu yn erbyn effeithiau trawma a lleihau'r risgiau o ganlyniadau gwael mewn oedolaeth. Mae plant yn treulio cyfran sylweddol o'u hamser yn yr ysgol, ac mae hyn yn golygu bod gweithwyr addysg proffesiynol mewn sefyllfa arbennig o dda i gefnogi plant sy'n profi trallod a helpu adeiladu'r ffactorau amddiffynnol sy'n galluogi nhw i wrthsefyll trawma. Gall datblygu arferion wedi'u llywio gan ACE a thrawma mewn ysgolion alluogi'r holl staff i gael yr wybodaeth a sgiliau priodoli adnabod ac wedyn yn ei dro, ymateb yn briodol i ACE, gan ddarparu amgylchedd dysgu diogel ar gyfer yr holl blant.

Mae'r dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE yn rhaglen a ddatblygwyd i gyflwyno a gweithredu arferion wedi'u llywio gan drawma mewn ysgolion. Mae pedair elfen i'r dull hwn: (1) offeryn parodrydd ACE a ddatblygwyd i adnabod darpariaethau sydd eisoes yn bodoli mewn ysgolion a bylchau a allai fod yn rhwystr i fabwysiadu dull wedi'i lywio gan ACE; (2) hyfforddiant staff i gynyddu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a sgiliau'r holl staff ysgolion wrth weithio gyda phlant sydd wedi'u heffeithio gan drawma; (3) cynllun gweithredu ysgolion a (4) phecyn adnoddau i ddarparu'r gefnogaeth ychwanegol y mae ei hangen i ymwreiddio a chynnal dull wedi'i lywio gan ACE. Cafodd hwn ei ddatblygu gan Gydlynwyr ACE Addysg, y Gwasanaeth Seicoleg Addysg (EPS) ac Ysgolion Iach.

Cynhaliwyd cynllun peilot y dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE mewn tair ysgol gynradd yn ardal Maesteg Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC) rhwng Medi a Rhagfyr 2017. Cynhaliwyd gwerthusiad annibynnol o'r cynllun peilot gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu dealltwriaeth o ba mor dda y mae'r dull wedi'i lywio gan ACE wedi'i fabwysiadu mewn arfer bob dydd, yr effaith ar wybodaeth a sgiliau staff i weithio mewn dull wedi'i lywio gan drawma, a datblygu pellach gofynnol er mwyn cyflwyno'r dull yn lleol ac yn genedlaethol. Bu'r gwerthusiad yn cynnwys holiaduron cyn ac ar ôl hyfforddiant a graddfa i fesur Agweddau tuag at Ofal wedi'i Lywio gan Drawma (ARTIC-35, n=95)^a, yn ogystal â chyfweliadau gyda staff ar draws yr holl ysgolion (n=24), a'r rhai sy'n ymwneud â datblygu a hwyluso'r dull (n=9).

Mae'r sylwadaeth a ganlyn yn ystyried canfyddiadau allweddol y gwerthusiad, y datblygwyd argymhellion ohono ar gyfer y dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE.

Offeryn parodrydd ACE

Ystyriwyd bod yr offeryn parodrydd ACE yn ffurf effeithiol ar hunanwerthuso a alluogodd ysgolion i fyfyrion ar ddarpariaethau presennol, ynghyd ag amlygu unrhyw fylchau yn y darpariaethau hyn er mwyn galluogi'r ysgol i fabwysiadu dull wedi'i lywio gan ACE ac felly ymdrin â lles disgyblion yn effeithiol.

Hyfforddiant ysgolion wedi'i lywio gan ACE

Mwynhaodd yr holl staff dderbyn yr hyfforddiant a gwerthfawrogwyd ei natur ryngweithiol ac yn enwedig ei gyflwyniad gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol. Canfyddiad staff oedd bod y Seicolegwyr Addysg wedi dod â'r wybodaeth a phrofiad gofynnol y mae eu hangen i hwyluso dealltwriaeth glir o drawma a'i effaith ar blant yn eglur at yr hyfforddiant.

Adroddodd cyfranogwyr mai'r agweddau pennaf yr hyfforddiant o ran mwynhad a gwybodaeth oedd gwyddor trawma a sgiliau cyfathrebu. Er hynny, teimlodd staff fod yr hyfforddiant wedi hepgor strategaethau ac offer ar sut i gefnogi plentyn ar ôl i ACE gael ei adnabod. Cafwyd safbwyntiau cymysg ar y broses PATH^b mynegodd rhai staff bryderon am ba mor ymarferol oedd cyflawni rhai o'r amcanion a bennwyd.

a Sylwer, mae sgorau dibynadwyedd mewnol ar gyfer yr offeryn ARTIC yn nodi materion dilysrwydd posibl i'w defnyddio gyda'r grwpiau carfan yn y gwerthusiad hwn. Mae gwaith pellach ar y gweill, gan geisio addasu a datblygu offeryn sy'n berthnasol i addysg a charfannau partner.

b **Planning Alternative Tomorrows with Hope (PATH- Pearpoint et al., 1991)**. Mae PATH yn ffurf ar hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar y sawl dan sylw y gellir ei ddefnyddio ar gyfer unigolyn neu fudiad i gefnogi cyflwyno amcan neu freuddwyd benodol ar gyfer y dyfodol

Gan fyfyrion ar yr elfennau cyflwyno ymarferol, ystyriwyd mai sesiynau gyda'r hwyr oedd y rhai lleiaf effeithiol o ran ennyn diddordeb staff, yn hytrach na hynny cafwyd dymuniad am gyfuno'r tair sesiwn a'i chyflwyno ar ddiwrnodau hyfforddiant mewn swydd.

Effaith ar agweddau, sgiliau, arfer ac ymddygiad staff

Cydnabuwyd bod y dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE yn ddull cyffredinol sy'n darparu'r holl wybodaeth a sgiliau y mae eu hangen ar staff i weithredu fel oedolyn yr ymddiriedir ynddo/ynddi i gefnogi'r holl blant yn well. Derbyniwyd y dull yn gadarnhaol gan yr holl ysgolion, gyda llawer yn cydnabod cyfraniad lles o ran gwella cyrhaeddiad addysgol.

Adroddodd cyfranogwyr am welliannau sylweddol o ran:

- Dealltwriaeth o effaith straen a thrawma ar yr ymennydd.
- Dealltwriaeth o achosion craidd ymddygiad gwael yn y dosbarth.
- Ymwybyddiaeth o sut i gyfathrebu â phlant yn y sefyllfa ysgol.
- Cefnogi plant sy'n profi trawma i lwyddo'n well yn yr ysgol, yn enwedig trwy ddeall y gall y plentyn adnabod unrhyw aelod o staff yr ysgol fel oedolyn yr ymddiriedir ynddynt.
- Agweddau tuag at weithio mewn dull wedi'i lywio gan drawma.

Ar ôl yr hyfforddiant teimlodd staff yn fwy hyderus i weithio mewn dull wedi'i lywio gan ACE, ac adroddwyd dealltwriaeth well o beth yw ACE a pha effaith y maent yn ei chael ar blant. Fodd bynnag, cafwyd pryderon ynghylch galluoedd staff addysgu i ddarparu'r gefnogaeth y mae ei hangen ar blant ynghyd â'r gofynion penodol am gwrdd â safonau academiaidd a meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru.

Cynladwyedd hir dymor dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE

Cydnabuwyd yn gyffredinol y dylid cyflwyno'r dull hwn a'i gyflwyno i ysgolion ar draws Cymru. Fodd bynnag, ar gyfer cynladwyedd hir dymor mae angen addasu'r hyfforddiant i'w gyflwyno i ysgolion uwchradd i sicrhau bod deunyddiau'n briodol ar gyfer yr oedran ac yn addas ar gyfer timau staff mawr. At hynny, teimlodd staff fod angen dull mwy cydweithredol gyda gwasanaethau eraill (h.y. yr heddlu a Chymorth Cynnar). Ac roeddent yn credu'n gryf iawn yn gyffredinol na all ysgolion gyflawni'r dull hwn ar eu pennau eu hunain, gan hynny mae ysgolion eisiau cefnogaeth bellach i ennyn diddordeb rhieni'n well a datblygu dull cymuned gyfan o ymdrin ag ACE. Felly mae angen dull ehangach o ymwybyddiaeth ACE gan gynnwys hyfforddiant gwydnwch yng nghymuned yr ysgol.

Casgliad

Amlygodd y gwerthusiad hwn yr ystyrir bod lles plant yn hanfodol ar gyfer llwyddiant academiaidd a bod taclo effeithiau ACE yn 'broblem i bawb ymdrin â hi'. Fodd bynnag, mae llawer o staff ysgolion yn teimlo eu bod o dan gyfyngiad wrth geisio cefnogi plant yn effeithiol o ganlyniad i'r pwysau a ofodir arnynt i bennu canlyniadau academiaidd ac ymdrin â meysydd blaenoriaeth. Daw'r dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE ar adeg pan ddisgwylir newidiadau sylweddol o fewn addysg yng Nghymru, a fydd yn rhoi pwyslais cynyddol ar les plant, a chreu ysgolion mwy cefnogol. Mae ymdrin ag ACE yn hanfodol ar gyfer galluogi plant i ymwneud yn llaw â'u haddysg a mynd yn ddysgwyr llwyddiannus, ac ar yr un pryd lleihau canlyniadau gwael yn ddiweddarach mewn bywyd.

Mae'r dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE yn annog staff ysgolion i gefnogi'r holl blant ni waeth p'un a ydynt wedi profi ACE, neu'n cael eu hystyried o dan risg, ai beidio. Mae'r hyfforddiant yn darparu'r wybodaeth a sgiliau y mae eu hangen ar yr holl staff i weithredu fel oedolion yr ymddiriedir ynddynt, gan alluogi plant i geisio cefnogaeth pan fydd ei hangen, ac i alluogi staff i adeiladu gwydnwch plant er mwyn amddiffyn yn erbyn y deilliannau negyddol sy'n gysylltiedig ag ACE.

Mae polisi'r llywodraeth eisoes wedi dechrau adlewyrchu'r angen am ymdrin ag ACE, yn enwedig yn y byd addysg. Er hynny, mae angen cynyddol am gefnogaeth ehangach wrth weithio tuag at

ymyrraeth gynnar ac atal ACE mewn cenedlaethau'r dyfodol. Er y cydnabyddir bod angen gwaith pellach i ddatblygu'r dull, nododd y gwerthusiad amrywiaeth eang o gefnogaeth ymysg cyfranogwyr fel bydd pob ysgol yng Nghymru wedi'i lywio gan ACE.

Argymhellion:

Dylai'r dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE barhau, gan anelu at gael ei gyflwyno i ysgolion eraill ar draws Cymru, a dylid ystyried yr adborth yn yr adroddiad gwerthuso i addasu a datblygu'r dull.

Offeryn parodrwydd a chynllun gweithredu ACE

- Alinio'r offeryn parodrwydd ACE â'r Fframwaith Ysgolion Iach i resymoli'r broses cywain gwybodaeth ar gyfer ysgolion. Dylai hyn gynnwys darparu'r offeryn parodrwydd ACE i ysgolion cyn y cyfarfod cwblhau er mwyn rhoi amser i staff fyfyrion llawnach ar arfer cyfredol, cywain tystiolaeth ac ystyried eu hymateb yn llawnach.
- Mae angen rhesymoli'r offeryn i osgoi ailadrodd y cwestiynau a gostwng faint o amser y mae'n ei gymryd i gwblhau'r offeryn.
- Cwmpasu ac adnabod hyfforddiant blaenorol, fframweithiau a gwasanaethau sy'n bodoli mewn ysgolion a allai ddarparu cefnogaeth bellach, sydd o dan drothwyon statudol.
- Datblygwyd yr offeryn yn unol â'r Fframwaith Estyn, fodd bynnag disgwylir y bydd angen ymgorffori newidiadau pellach i'r cwricwlwm, y disgwylir iddynt ddod i rym erbyn 2021, i'r offeryn
- Integreiddio'r cynllun gweithredu i'r cynllun gwella ysgol gydag adolygiad o newidiadau a chefnogaeth barhaus.

Hyfforddiant ysgolion wedi'i lywio gan ACE

- Sicrhau bod y 'dull ysgol gyfan' mor gynhwysol â phosib trwy ddarparu adnoddau ar gyfer ysgolion i gynnwys yr ystod ehangaf bosib o staff, fel staff cinio, gofawyr adeilad, llywodraethwyr yn yr hyfforddiant.
- Cynnwys mwy o fewn yr hyfforddiant ar gymhwyso strategaethau ac offer priodol ar sut i ymwneud â phlentyn sydd wedi'i adnabod fel agored i niwed a sut i weithio gyda'r plentyn hwnnw i wella ei sefyllfa; yn benodol dylid rhoi ystyriaeth i ddulliau dysgu gwahanol i adlewyrchu chwarae rôl fwy rhyngweithiol mewn perthynas â sefyllfaoedd ysgol a sut i roi'r sgiliau a ddysgwyd ar waith yn y dosbarth, fel rheoli ymddygiad yn well.
- Gweithio gydag ysgolion i ddatblygu sefyllfaoedd i adlewyrchu eu profiadau bob dydd a allai fod yn unigryw iddynt fel cymuned ysgol.
- Hyfforddiant i gynnwys dealltwriaeth ddyfnach o ddatblygu gwydnwch plant ac ehangu hwn i ymgorffori rhieni a'r gymuned.
- Ymgorffori dulliau ennyn diddordeb y teulu/rhieni i oresgyn rhwystrau i gymryd rhan er mwyn hwyluso a chefnogi newidiadau cadarnhaol ar gyfer y plentyn o fewn yr hyfforddiant.
- Hwyluso datblygiad syniadau/nodau tymor byr realistig, yn erbyn nodau hir dymor mwy dyheadol trwy'r broses PATH.
- Ystyried cyflwyno sesiynau hyfforddiant fel diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd, ac fel sesiwn sengl yn hytrach na thair sesiwn fyrrach. Ystyried dichonolrwydd cynnal diwrnod ysgol ACE i gynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth ACE yn y bore; trawma, gwydnwch a strategaethau yn y prynhawn gan arwain i mewn i'r broses PATH.
- Yr hyfforddiant i'w gyflwyno gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysg er mwyn defnyddio eu harbenigedd mewn trawma mewn plentyndod i sicrhau cyfranogiad, perthnasedd a chefnogaeth barhaus i ysgolion ar ôl i gyflwyniad y dull ddod i ben.

- Yr hyfforddiant i'w addasu i fod yn berthnasol i gynulleidfa ysgol uwchradd. Mae hyn er mwyn sicrhau bod deunyddiau'n briodol ar gyfer yr oedran ac yn addas ar gyfer grwpiau staff mawr ac ar yr un pryd sicrhau cynnal y dull ysgol gyfan.

Agweddau, sgiliau, arfer ac ymddygiad staff

- Ystyried cynnwys ymwybyddiaeth ACE a hyfforddiant trawma o fewn y rhaglen hyfforddiant addysg gychwynnol a sicrhau bod set sgiliau athrawon yn gynnar yn eu gyrfa a staff ysgol eraill yn alinio â'r weledigaeth y bydd pob ysgol yng Nghymru wedi'i llywio gan ACE.
- Datblygu deunyddiau ymwybyddiaeth ACE a dealltwriaeth o drawma sy'n briodol i'r oedran i staff eu defnyddio gyda disgyblion yn y dosbarth.
- Ystyried cyflwyno'r animeiddiad ACE i rieni a phlant i gynyddu ymwybyddiaeth o effaith ACE.

Cynladwyedd hir dymor a datblygiad dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE yn y dyfodol

- Dylid cynnig darpariaeth ysgol ychwanegol i staff i helpu rheoli ymddygiadau sy'n gysylltiedig â thrawma mewn perthynas â pholisi rheoli ymddygiad yr ysgol a'r timau cefnogi ymddygiad, trwy ddefnyddio gweithwyr cefnogi'r proffesiwn o fewn sefyllfa'r ysgol.
- Sefydlu hinsawdd yn yr ysgol lle mae rhieni'n teimlo'n gyfforddus i gysylltu â staff am gymorth a chefnogaeth.
- Datblygu cysylltiadau ymhellach rhwng ysgolion ac asiantaethau eraill h.y. yr heddlu, Cymorth Cynnar, Ysgolion Iach, i weithio ar y cyd wrth adnabod ac ymateb i ACE.
- Datblygu systemau i gofnodi data ar fesur deilliannau plant er mwyn deall yr effaith hir dymor bosib yn well.
- Sefydlu protocolau gwybodaeth addas i alluogi rhannu gwybodaeth berthnasol yn haws rhwng partneriaid a fyddai'n helpu sicrhau bod plant yn derbyn cefnogaeth briodol ac amserol.
- Mae angen ymgorffori mecanwaith sicrhau ansawdd i unrhyw raglen genedlaethol bosib i sicrhau y cedwir ffyddlondeb y pecyn hyfforddiant.
- Mae angen ennyn diddordeb budd-ddeiliaid ymhellach i osod yr olygfa a gosod seilwaith y buddion ac effaith y gallai dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE eu cynnig, wedi'i symbylu trwy Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus ac alinio 'r dull â'r amcanion Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus o gyflwyno ar gyflawni'r amcanion lles a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i sicrhau cynladwyedd y dull.
- At hynny, dylid ymgymryd â gwerthuso dros y tymor hwy i bennu'r canlynol:
 - o Effaith yr hyfforddiant ar staff a pha mor dda y mae'r dull wedi ymwreiddio mewn arfer bob dydd.
 - o Yr effaith ar les plant trwy ddadansoddi arolygon lles a data a gesglir fel mater o drefn ar fesurau deilliannau ysgol.
 - o Effaith y dull o ran adnoddau a'r deilliant ar gyfer teuluoedd a allai gyfeirio'r dull ymhellach wrth ystyried cynladwyedd.

1. Cefndir

1.1 Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) a dysgu

Gall profi tralod yn ystod plentyndod gael effaith negyddol hir dymor ar iechyd a lles a chynyddu risg unigolyn o fod yn agored i niwed. Mae'r tralodau hyn mewn bywyd cynnar wedi cael eu galw'n Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE). Disgrifir ACE fel digwyddiadau llawn straen y gall plant fod yn agored iddynt wrth dyfu i fyny sy'n peri niwed uniongyrchol iddynt; fel camdriniaeth gorfforol neu rywiol ac esgeulustra emosiynol, neu sy'n bresennol yn yr amgylchedd cartref y maent yn byw ynddo; gan gynnwys rhieni sy'n camddefnyddio cyffuriau, camddefnyddio alcohol, trais yn y cartref, problemau iechyd meddwl a bod yn y carchar. Mae'r digwyddiadau hyn wedi bod yn gysylltiedig ag ymddygiadau sy'n niweidio iechyd, ac mae unigolion sy'n profi ACE yn fwy tebygol o ddirodded o iechyd corfforol a meddyliol gwael, morbidrwydd gwael a marwolaeth gynnar^{1,2,3,4}. Gall bod yn agored i drawma mewn plentyndod gyfrannu at berfformiad ysgol gwael, lefelau cyflogaeth is ac ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddol hefyd^{5,6,7,8}.

Nododd arolwg ACE Cymru gyfan yn 2015 fod bron hanner poblogaeth Cymru (18-69 oed) wedi profi o leiaf un ACE a bod 14% wedi profi pedwar neu fwy⁹. O'i gymharu ag unigolion nad oeddent wedi profi ACE, roedd y rhai a brofodd bedwar neu fwy 14 gwaith yn fwy tebygol o fod yn diroddedwyr trais a 15 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cyflawni trais yn erbyn rhywun arall rhywbryd yn ystod y 12 mis cyn yr astudiaeth. At hynny, roedd unigolion yr oeddent wedi profi pedwar ACE neu fwy 20 gwaith yn fwy tebygol o gael eu carcharu rhywbryd yn eu bywyd a 16 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi defnyddio cocên crac neu heroin o'i gymharu â'r rhai nad oeddent wedi profi ACE.¹⁰

Mae effaith ACE yn ymestyn o blentyndod i oedolaeth, gan amharu ar ddatblygiad gwybyddol, cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol¹¹. Gall fod yn agored dro ar ôl tro i brofiadau trawmatig arwain at straen gwenwynig, gweithredu adweithiau straen yn y corff dros gyfnod hir a all achosi adweithiau corfforol ac ymddygiadol gormodol^{12,13}. Mae plant sydd â nifer uchel o ACE ar bigau'r drain trwy'r amser, gan roi'r ymennydd a'r corff mewn cyflwr cyson o wylidwriaeth uchel mewn adwaith o barodrwydd 'ymladd neu ffoi' a ysgogir yn aml gan fygythiadau bach ond canfyddedig. Mae ymchwil wedi dangos bod plant sydd ag ACE yn dangos gorwylidwriaeth, ymosodedd a phroblemau gyda diffyg sylw, gwneud penderfyniadau a byrbwylltra¹⁴. Mae'r plant hyn yn profi canlyniadau addysgol gwaeth, yn destun mwy o gamau disgyblu ac yn ei chael hi'n anodd datblygu perthnasoedd â chymheiriaid ac oedolion sy'n briodol i'r oedran¹⁵.

1.2 Pwysigrwydd adeiladu gwydnwch plant


Ni fydd yr holl blant sy'n profi ACE yn cael deilliannau negyddol. Trwy gryfhau gwydnwch unigolyn, y gallu i gyflawni deilliannau cadarnhaol er gwaethaf amgylchiadau anodd, gall plant oresgyn effaith trawma i'w galluogi i lwyddo yn yr ysgol ac yn ddiweddarach mewn bywyd¹⁶. Gall gwydnwch gael ei wella trwy hyrwyddo ffactorau amddiffynnol mewn plant a all liniaru effaith trawma. Gall hyn gynnwys cael perthynas ofalgar a chefnogol gydag oedolyn, gan gredu y gallwch oresgyn caledi, cael eich daearu mewn traddodiadau a meddu ar y sgiliau i reoli'ch emosiynau ac ymddygiadau er mwyn goresgyn amgylchiadau llawn straen¹⁷. Adwaenir y ffactorau amddiffynnol hyn fel blociau adeiladu gwydnwch ac maent wedi'u hamlinellu yn Ffigur 1.

Edrychodd yr arolwg mynychder ACE diweddaraf a gynhaliwyd yn 2017 ar y cysylltiadau rhwng ACE a ffynonellau gwydnwch, ac effaith y rhain ar ddeilliannau iechyd meddwl unigolion¹⁸. Dangosodd y canlyniadau fod adnoddau gwydnwch mewn plentyndod yn gysylltiedig yn gryf â lefelau salwch meddwl cyfredol a chyfraddau hunan-niweidio ac ystyried hunanladdiad is. Yn unol ag astudiaethau eraill¹⁹, nododd y canlyniadau fod cael perthynas o ymddiriedaeth gydag o leiaf un oedolyn yn ystod plentyndod yn ffactor cyffredin wrth ddatblygu gwydnwch, a'i fod yn cynnig effeithiau amddiffynnol ar gyfer unigolion a oedd wedi profi ACE. Nododd y canlyniadau fod dim ond 44% o'r rhain sydd â 4 ACE neu fwy yn adrodd y bu oedolyn yr ymddiriedir ynddo/ynddi trwy'r amser wrth dyfu i fyny, o'i gymharu ag 87% o'r rhai nad oeddent wedi profi ACE. At hynny, adroddodd 7% yn unig o unigolion

sydd â 4 ACE neu fwy y bu athro/athrawes trwy'r amser fel ffynhonnell cefnogaeth bersonol mewn plentynod o'i gymharu â 27% o'r rhai nad oeddent wedi profi ACE.¹⁸

TEr mwyn ymdrin ag effaith ACE ar blant, mae angen i wasanaethau fod wedi'u cyfeirio gan drawma. Yn aml gall ysgolion fod yn 'llinell amddiffyn gyntaf' wrth liniaru effaith ACE a hyrwyddo gwydnwch mewn lleoliad y mae plant yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser ynddo bob dydd. Mae gan staff ysgolion rôl allweddol wrth adnabod a chefnogi plant sy'n agored i niwed ac maent mewn sefyllfa unigryw i ddatblygu'r amgylchedd diogel, sefydlog a pherthynol y mae ei angen ar bob plentyn²⁰.

Ffigur 1: Blociau adeiladu gwydnwch



Ffynhonnell: National Scientific Council on the Developing Child, 2015

1.3 Rôl ysgolion

Mae nifer o bolisiau a dogfennau arweiniad yng Nghymru'n gosod dyletswydd ar weithwyr addysg proffesiynol i adnabod plant sydd mewn perygl o niwed a chymryd camau rhesymol i ddiogelu a hyrwyddo lles yr holl blant^{21,22}. EMae gan bob ysgol Uwch Berson Dynodedig (DSP) sy'n gyfrifol am reoli amddiffyn plant, cefnogi staff sydd â phryderon ynghylch diogelu a chysylltu â gwasanaethau eraill. Yn aml, cyfeirir plant yr adnabyddir eu bod yn wynebu risg at y DSP am gefnogaeth, fodd bynnag bydd plant yn ceisio cefnogaeth gan rywun y maent yn ymddiried ynddynt ac yn teimlo'n gyfforddus gyda nhw; gan hynny, mae angen i'r holl staff mewn ysgol fedru ymateb yn sensitif i bryderon plentyn²³. At hynny, mae angen cynyddol am i weithwyr proffesiynol ymdrin â lles cymdeithasol ac emosiynol plant y tu hwnt i'r dyletswyddau diogelu statudol.

Ar hyn o bryd mae darpariaethau'n bodoli i gefnogi ysgolion i wella iechyd a lles plant, gan gynnwys y ddogfen arfer da 'Meddwl yn Gadarnhaol' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010), Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2015) a nifer mawr o raglenni ymyrraeth lleol a chenedlaethol (e.e. FAST, PATHS, ELSA a SEAL).^a Mae llawer o'r rhaglenni hyn wedi dangos gwelliannau cadarnhaol mewn cymwyseddau cymdeithasol ac emosiynol a deilliannau addysgol myfyrwyr²⁴, er hynny nid yw cyflwyniad y ddarpariaeth a lefelau ennyn diddordeb ymysg ysgolion yn gyson ar draws Cymru. Darperir llawer o'r rhaglenni cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol sydd ar gael i ysgolion yn annibynnol gan wasanaethau a sefydliadau gwahanol, felly nid yw'n ofynnol i ysgolion ymgymryd â'r ymyraethau hyn. At hynny, mae gwerthusiad o'r ymyraethau sydd ar gael i ysgolion wedi dangos bod y rhaglenni hyn wedi'u targedu at grwpiau oedran gwahanol gyda lefelau amrywiol o effeithiolrwydd hir dymor²⁵.

Mae'r system addysg bresennol yng Nghymru'n profi trawsnewid sylweddol, gyda newidiadau i'r cwricwlwm cenedlaethol a darpariaethau ar gyfer plant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN). Yn Adolygiad Donaldson, 2015, adnabuwyd iechyd a lles fel un o chwe maes o brofiad dysgu plentyn y mae angen eu hymgorffori i bob agwedd ar y cwricwlwm cenedlaethol i alluogi plant i ffynnu ac ymwneud yn llwyddiannus â'u haddysg²⁶. Disgwylir y bydd y newidiadau hyn yn cefnogi lles yr holl blant yn well a'u helpu i oresgyn rhwystrau i ddysgu er mwyn iddynt gyrraedd eu potensial llawn.

Gall darparu amgylchedd dysgu diogel ar gyfer yr holl blant, gall ysgolion sy'n sensitif i drawma helpu plant i deimlo'n ddiogel a bod ar gael i ddysgu o safbwynt emosiynol²⁷.

1.4 Arfer wedi'i lywio gan drawma cyfredol mewn ysgolion

Mae rhaglenni cenedlaethol a rhyngwladol wedi eu datblygu i weithredu arferion wedi'u llywio gan drawma mewn ysgolion. Adnabyddir ysgol sy'n sensitif i drawma fel un lle mae'r holl fyfyrwyr yn teimlo'n ddiogel, wedi'u croesawu a'u cefnogi, a ble mae holl staff yr ysgol (gan gynnwys staff nad ydynt yn addysgu) yn mabwysiadu dull ysgol gyfan i ymdrin â thrawma trwy waith tîm, cydlynu a chyfrifoldeb a rennir ar gyfer yr holl fyfyrwyr²⁸. Cydnabyddir na fydd yr un ysgol sy'n sensitif i drawma o'r un fath â'r llall oherwydd gwahaniaethau mewn demograffeg y boblogaeth fyfyrwyr a chymuned ehangach pob ysgol²⁹. Er hynny, mae cydrannau craidd yr hyn sy'n ffurfio ysgol sy'n sensitif i drawma wedi'u hadnabod (gweler Blwch 1).

Blwch 1: Cydrannau ysgol sy'n sensitif i drawma:

- Mae holl staff yr ysgol yn deall sut mae trawma'n effeithio ar ddysgu ac yn ymwneud â'r dull ysgol gyfan o ymdrin â thrawma.
- Dylai holl staff yr ysgol gofleidio ymdeimlad a rennir o gyfrifoldeb ar gyfer helpu pob plentyn i lwyddo;
- Mae staff yr ysgol yn creu amgylchedd lle mae'r holl blant yn teimlo'n ddiogel - yn gorfforol, emosiynol, cymdeithasol ac yn academaidd;
- Ymdrinnir â thrawma myfyrwyr mewn ffyrdd cyfannol - nid trwy raglen unigol.
- Mae staff yr ysgol yn gweithio'n ecblyg i wneud i blant deimlo eu bod yn rhan o gymuned yr ysgol ac yn darparu cyfleoedd lluosog i blant ymarfer sgiliau cymdeithasol ac ymddygiadol sy'n datblygu o'r newydd.
- Mae gan arweinwyr yr ysgol synnwyr o beth sy'n digwydd o fewn ffiniau'r ysgol ac y tu allan iddynt a gallant ymateb yn gyflym i anghenion myfyrwyr a'r gymuned o'u cwmpas.
- Dylai ysgolion ystyried bod atal dros dro a diarddel yn opsiwn disgyblu dim ond pan fetho popeth arall.

The Trauma and Learning Policy Initiative, Massachusetts²⁸

Mae ymchwil o UDA wedi dangos cyfatebiaeth rhwng nifer yr ACE a brofir a pherfformiad academaidd plant, gyda llawer o blant sydd wedi profi ACE yn methu profion safonol a dangos diddordeb ac ymddygiad gwaeth yn yr ysgol^{30, 31}. Mae ysgolion yn Washington, Massachusetts a San Francisco wedi datblygu ysgolion sy'n sensitif i drawma y maent wedi dangos gwelliannau sylweddol mewn presenoldeb, cyrhaeddiad academaidd a defnyddio mesurau disgyblu yn yr ysgolion³². Yn fwyaf nodedig, mae gwaith Ysgol Uwchradd Lincoln yn Walla Walla (Gweriniaeth Washington) wedi derbyn cryn dipyn o sylw yn dilyn dangos *'Paper Tigers'*, ffilm a gynhyrchwyd i ddangos arferion wedi'u llywio gan drawma o fewn ysgol cyfeirio disgyblion a'r effaith y mae'r arferion hyn wedi'i chael ar lwyddiant y disgyblion³³. CYmysg y newidiadau mewn arfer oedd technegau rheoli ymddygiad cadarnhaol; arolygon ACE myfyrwyr; hyfforddiant staff ysgol gyfan ac ACE, cwnsela gwydnwch ac wedi'i lywio gan drawma; newid mewn polisiau diarddel ac atal dros dro'r ysgol; ac ymgorffori ACE a gwydnwch i ddeunyddiau cwrs³⁴. Dros y pum mlynedd ar ôl cyflwyno'r mesurau newydd hyn, roedd cyfraddau graddio wedi codi (o 44% i 78%)³⁴, a chafwyd gostyngiadau mewn achosion o atal dros dro (85%), diarddel (40%) a chyfeiriadau ysgrifenedig (bron 50%)³⁵.

Ychydig iawn sydd wedi'i gyhoeddi yn y Deyrnas Unedig ar gymhwyso arfer wedi'i lywio gan drawma o fewn sefydliadau addysg. Mae Cymdeithas Katie Cairns (KCA) yn darparu sesiynau hyfforddiant ar draws sectorau gwahanol ar hyfforddiant emosiynol, ymlyniad, datblygiad yr ymennydd a magu plant yn gadarnhaol. O fewn addysg, mae KCA wedi adrodd ar nifer o raglenni peilot a gyflwynwyd i ysgolion ar draws Cymru a Lloegr, gyda chanlyniadau cadarnhaol ar gyfer staff ysgolion a disgyblion. Fodd bynnag, yn aml mae'r rhaglenni hyn wedi'u targedu at wella canlyniadau ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed, fel Plant sy'n Derby Gofal (LAC) ac nid ydynt yn ymgorffori ymwybyddiaeth ACE o fewn yr hyfforddiant³⁶.

2. Dull Ysgol Gyfan Wedi'i Lywio gan ACE

2.1 Braslun o'r dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE

Fel rhan o'r 'Prosiect Ymyrraeth ac Atal Cynnar' (gweler Blwch 2), mae 'Dull Ysgol Gyfan Wedi'i Lywio gan ACE' wedi cael ei ddatblygu gan ymgynghorydd lles addysg (Cydlynnydd ACE Addysg) ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg ac ymarferydd Ysgolion Iach Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nod y dull hwn yw deall parodrwydd ysgolion i gael eu llywio gan ACE, adnabod a darparu unrhyw adnoddau i gynorthwyo a chefnogi staff ysgol i fabwysiadu dull wedi'i lywio gan ACE a gwella ymwybyddiaeth, gwybodaeth a sgiliau'r holl staff ysgol, addysgu a chefnogi, wrth ddelio gyda phlant sydd wedi'u heffeithio gan drawma ac ACE.

Blwch 2: 'Prosiect Ymyrraeth Gynnar a Gweithredu Cadarnhaol Prydlon: Torri'r Cylch Troseddu o Un Genhedlaeth i'r Llal'

Mae'r prosiect Ymyrraeth ac Atal Cynnar yn brosiect dwy flynedd (Ebrill 2016 - Ebrill 2018) sy'n ceisio gweithio gyda'r heddlu i ymdrin â phobl sy'n agored i niwed a risg gan ddefnyddio dull iechyd cyhoeddus wedi'i lywio gan ACE. Mae'r prosiect yn waith unigryw ar y cyd rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, Heddlu De Cymru (SWP), NSPCC, Barnardos a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Wedi'i ariannu trwy Gronfa Arloesedd Heddlu'r Swyddfa Gartref a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, dyma'r prosiect cyntaf o'i fath i ymdrin â diffyg ymyrraeth gynnar a gweithgarwch ataliol pan fydd ACE a phobl sy'n agored i niwed yn amlwg a bod teuluoedd mewn perygl o brofi deilliannau gwael (e.e. ymwneud â throseddu).

Mae pedair elfen i'r dull (gweler Ffigur 2 am fraslun ac Atodiad 1 am drosolwg manylach o elfennau unigol y dull):

- 1. Offeryn Parodrwydd ACE^c:** Yn seiliedig ar y Fframwaith Estyn, mae hwn yn cynnwys 13 cwestiwn i'w cwblhau gan y pennaeth ar y cyd gyda'r Cydlynnydd ACE Addysg. Mae'r offeryn hwn yn cofnodi'r dulliau lles ac asedau sydd eisoes yn bodoli ym mhob ysgol (h.y. polisïau, gweithdrefnau ac adnoddau sydd eisoes ar waith) ar gyfer lles disgyblion, ac unrhyw fylchau a allai amharu ar fabwysiadu dull wedi'i lywio gan ACE.
- 2. Hyfforddiant staff^d:** I'w gyflwyno i'r holl ysgolion i ddarparu gwybodaeth gyffredinol am ACE. Bydd yr hyfforddiant hefyd yn cynnwys y broses PATH^e i alluogi disgyblion i gynllunio sut y byddant yn datblygu ysgolion wedi'i llywio gan ACE. Cyflwynir yr hyfforddiant gan y Cydlynnydd ACE Addysg, ac fe'i cyd-hwylusir gan Gydlynwyr ACE yr Heddlu a Phartneriaid a'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg.


c Wedi'i ddatblygu gan y Cydlynnydd ACE Addysg ac Iechyd Cyhoeddus Cymru at ddiben y Dull Ysgol Gyfan Wedi'i Lywio gan ACE.

d Wedi'i ddatblygu a'i addasu o'r hyfforddiant wedi'i lywio gan drawma a ddatblygwyd ac a gyflwynwyd i Heddlu De Cymru gan Gydlynwyr ACE NSPCC a Barnardos ar gyfer yr Heddlu a Phartneriaid fel rhan o'r prosiect 'Ymyrraeth Gynnar a Gweithredu Cadarnhaol Prydlon: Torri'r Cylch Troseddu o Un Genhedlaeth i'r Llal'.

e Planning Alternative Tomorrows with Hope (PATH; Pearpoint, O'Brien a Forrest, 1994).

- 3. Cynllun gweithredu:** Bydd cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu ar gyfer pob ysgol, gan adnabod y gefnogaeth y mae ei hangen i weithio mewn dull wedi'i lywio gan drawma, a'r gofynion i alluogi dull parhaus. Datblygir hyn gan ddilyn cwblhau'r hyfforddiant, ymgorffori bylchau sydd wedi'u hadnabod yn yr Offeryn Parodrwydd ac amcanion a bennir gan yr ysgol trwy'r broses PATH. Bydd hyn yn amlinellu pa aelodau staff fydd yn arwain ar y gwaith, graddfeydd amser a deilliannau'r gwaith, a pha adnoddau a chefnogaeth y mae eu hangen ar yr ysgol i fabwysiadu dull wedi'i lywio gan ACE.
- 4. Adnoddau:** Pecyn adnoddau gan gynnwys cynlluniau gwersi, deunyddiau hyfforddi, yr Offeryn Parodrwydd ACE ac adnoddau o raglenni eraill wedi'u llywio gan ACE er mwyn cefnogi ysgolion i gynnal y dull ACE y tu hwnt i gyfnod y prosiect.

Ffigur 2: Dull Ysgol Gyfan Wedi'i Lywio gan ACE



2.2 Gwerthusiad o'r Dull Ysgol Gyfan Wedi'i Lywio gan ACE

Cynhaliwyd cynllun peilot y dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE fel astudiaeth dichonolrwydd mewn tair ysgol gynradd yn ardal Maesteg Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC) rhwng Medi a Rhagfyr 2017. Roedd gan y cynllun peilot, a werthuswyd yn annibynnol gan lechyd Cyhoeddus Cymru, yr amcanion sylfaenol a ganlyn:

1. Ymchwilio i effaith yr Offeryn Parodrwydd ACE a'r cynllun gweithredu ar fabwysiadu dull wedi'i lywio gan ACE yn yr ysgol;
2. Archwilio a yw cymryd rhan yn y rhaglen hyfforddiant ysgolion wedi'i lywio gan ACE yn arwain at ymwybyddiaeth gynyddol o ACE a thrawma ymysg staff yn y lleoliad ysgol;
3. Ymchwilio i sut mae bod yn ymwybodol o ACE yn dylanwadu ar sgiliau, agweddau, arfer ac ymddygiad athrawon.

Lle bo'n bosib, ceisiodd y gwerthusiad gyflawni'r amcanion eilaidd a ganlyn:

1. Adnabod a yw cynyddu ymwybyddiaeth staff o ACE yn dylanwadu ar ddeilliannau lefel ysgol pwysig, gan gynnwys mesurau cyflawniad, presenoldeb ac ymddygiad;
2. Datblygu dealltwriaeth o sut y gellir cynnal dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE dros yr hir dymor.

3. Dull

Dyluniwyd y gwerthusiad o'r Dull Ysgol Gyfan Wedi'i Lywio gan ACE gan ddefnyddio dulliau cymysg, gan gywain data trwy holiaduron a chyfweliadau cyn ac ar ôl yr hyfforddiant. Gofynnwyd am ddata ysgol i fesur yr effaith ar blant (h.y. presenoldeb, ymddygiad, canlyniadau), fodd bynnag nid oedd y data hwn ar gael ar adeg y gwerthusiad. Cafwyd cymeradwyaeth ar gyfer y gwerthusiad gan Swyddfa Ymchwil a Datblygu Iechyd Cyhoeddus Cymru (29/08/2017) ynghyd â chadarnhad nad oes angen cymeradwyaeth gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil (REC) y GIG. Cafwyd cydsyniad gwybodus gan yr holl gyfranogwyr.

3.1. Holiaduron gwerthuso ac offeryn ARTIC

Cyflwynwyd yr hyfforddiant dros dair sesiwn, ar draws tri diwrnod gwahanol, i ysgolion unigol fel naill ai diwrnod hyfforddiant mewn swydd neu yn ystod sesiynau gyda'r hwyr^f. Gadawyd y penderfyniad a oedd yr hyfforddiant yn orfodol ar gyfer yr holl staff i ddisgresiwn pob ysgol unigol, er hynny darparwyd cyllid i ysgolion i alluogi staff cefnogi addysgu i fynychu'r hyfforddiant y tu allan i'w horiau gweithio rheolaidd.

Roedd aelod o dîm ymchwil Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) yn bresennol ym mhob sesiwn hyfforddiant i sicrhau cysondeb wrth gywain data. Gwahoddwyd holl staff yr ysgol a fynychodd yr hyfforddiant i gymryd rhan yn y gwerthusiad a rhoddwyd esboniad iddynt o'r gwerthusiad o'r cychwyn cyntaf gan ymchwilydd PHW a bwysleisiodd gyfrinachedd a chan sicrhau cyfranogwyr y byddai pob ateb yn ddienw. Darparwyd taflen gwybodaeth cyfranogwyr i'r holl staff ysgol yn rhoi manylion y gwerthusiad, yn ogystal â ffurflen gydsyniad, a rhoddwyd amser iddynt ystyried p'un a oeddent am gymryd ran yn y gwerthusiad ai beidio. Cafwyd cydsyniad gwybodus gan yr holl gyfranogwyr.

At ei gilydd, cymerodd 95 o staff ran yn y gwerthusiad ar draws y tair ysgol, gan gynnwys rheolwyr ysgol, athrawon a staff cefnogi addysgu (gweler Atodiad 2, Tabl A2). Cwblhawyd holiaduron cyn ac ar ôl yr hyfforddiant a'r raddfa Agweddau mewn Perthynas â Gofal wedi'i Lywio gan Drawma (ARTIC-35)^g, gweler Adran 3.1.2 yn dilyn y sesiwn hyfforddiant gyntaf, yn ogystal â holiadur ychwanegol a graddfa ARTIC-35 ar ôl y sesiwn derfynol.

3.1.1 Holiaduron hyfforddiant

Holiadur cyn yr hyfforddiant:

Ymchwiliodd y cwestiynau i hyder cyfranogwyr yn eu gwybodaeth a sgiliau wrth weithio gyda phlant sydd ag ACE ac sydd wedi profi trawma^h, hyfforddiant blaenorol yr oeddent wedi'i dderbyn ar drawma a'r gwasanaethau cefnogi lles sydd ar gael iddynt o fewn eu rôl. Gofynnwyd cwestiynau demograffiaid hefyd (h.y. oedran, rhyw, rôl staff, faint o amser o fewn y proffesiwn).

Holiadur ar ôl yr hyfforddiant (sesiwn 1):

Ymchwiliodd y cwestiynau i ganfyddiadau staff am y sesiwn hyfforddiantⁱ, eu canfyddiadau am elfennau mwyaf gwerthfawr yr hyfforddiant a meddyliau ar sut y gellir gwella'r hyfforddiant.

Holiadur ar ôl yr hyfforddiant (sesiwn 3):

Ymchwiliodd yr holiaduron i effaith yr hyfforddiant ar gyfathrebu â phlant, a ydynt yn teimlo y gallant gymhwyso'r sgiliau a gwybodaeth a ddatblygwyd yn yr hyfforddiant i'w harfer ac effaith yr hyfforddiant ar reoli eu lles eu hunain. Ymchwiliodd hefyd i'w canfyddiadau am ddefnyddio'r broses PATH ac unrhyw rwystrau a adnabuwyd wrth ddatblygu ysgol wedi'i llywio gan ACE.

f Cynhaliwyd yr hyfforddiant ar ôl oriau ysgol (h.y. 15.45-17.45)

g Sylwer, mae sgorau dibynadwyedd mewnol ar gyfer yr offeryn ARTIC yn nodi materion dilysrwydd posibl i'w defnyddio gyda'r grwpiau carfan yn y gwerthusiad hwn. Mae gwaith pellach ar y gweill, gan geisio addasu a datblygu offeryn sy'n berthnasol i addysg a charfannau partner.

h Wedi'u mesur ym mhob un o'r tri holiadur hyfforddiant.

i Wedi'u mesur yn y dda holiadur ar ôl yr hyfforddiant.

3.1.2 Offeryn ARTIC

Mesurwyd agweddau cyfranogwyr tuag at drawma cyn ac ar ôl yr hyfforddiant gan ddefnyddio'r Raddfa Agweddau Mewn Perthynas â Gofal Sydd Wedi'i Lywio gan Drawma (ARTIC-35) ar gyfer lleoliadau addysg. Dyma brawf seicometraidd a ddylunnir i gael ei ddefnyddio mewn ysgolion cyn rhoi arfer wedi'i lywio gan drawma ar waith yn eu harfer. Gellir defnyddio'r raddfa hon i fesur parodrwydd ysgolion i roi arfer wedi'i lywio gan drawma ar waith, unrhyw rwystrau a allai fodoli a newidiadau mewn agweddau yn dilyn rhoi ymyraethau wedi'u llywio gan drawma ar waith. Mae'r raddfa hon yn mesur agweddau ffafrïol ac anffafriol ar draws pump is-raddfa (gweler Tabl 1³⁷), gyda sgorau uwch yn nodi agweddau mwy cadarnhaol tuag at weithio mewn dull wedi'i lywio gan drawma.

Tabl 1: Y Raddfa ARTIC-35

Subscale	Disgrifiad	Cwestiwn Enghreifftiol
Achosion sylfaenol ymddygiad a symptomau problemus	Mae'r cwestiynau'n gwahaniaethu agweddau tuag at ymddygiadau a symptomau fel addasiadau sy'n hydrin, neu fwriadol ac yn sefydlog	<i>Mae myfyrwyr yn gwneud y gorau y gallant gyda'r sgiliau sydd ganddynt.</i>
Ymatebion i ymddygiad a symptomau problemus	Gellir gwneud agweddau tuag at newid trwy berthnasoedd, hyblygrwydd, caredigrwydd a diogelwch, o'i gymharu â rheolau, goblygiadau ac atebolrwydd	<i>Mae angen i fyfyrwyr brofi goblygiadau mewn bywyd real er mwyn gweithredu yn y byd real.</i>
Ymddygiad yn y swydd	Yn ymchwilio i gefnogi ymddygiad staff sy'n canolbwyntio ar uniaethu yn hytrach na rheolaeth	<i>Nid yw cael eu cynhyrfu'n meddwl y bydd myfyrwyr yn niweidio pobl eraill.</i>
Hunan-effeithlonrwydd yn y gwaith	Yn ymchwilio i agweddau tuag at allu i fodloni gofynion gweithio gyda phoblogaeth sydd wedi'i thrawmateiddio	<i>Mae pob diwrnod yn y swydd hon yn datgelu straeniau unigryw.</i>
Ymatebion i waith	Cydnabod effeithiau trawma eilaidd/ trawmateiddio dirprwyol ar staff ac ymdopi trwy geisio cefnogaeth neu ei anwybyddu a chuddio'r effaith	<i>Pan deimlaf fy mod yn "mynd â fy ngwaith adref," y peth gorau yw codi hynny gyda fy nghydweithwyr a/neu oruchwylwyr.</i>

Mae'r raddfa wedi dangos cysondeb mewnol da ($\alpha=.91$), dibynadwyedd (.80) a chysondeb dros amser (.82)³⁸. Mae profion o ddilysrwydd yn dal i fynd rhagddo, er hynny dyma'r offeryn sydd wedi derbyn y lefel uchaf o ddilysrwydd ar gyfer ei ddiben.

3.2. Cyfweliadau

Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant, cynhaliwyd cyfweliadau wyneb wrth wyneb lled-strwythuredig gyda'r Cydlynwyr ACE a'r staff ehangach sy'n cymryd rhan wrth ddatblygu a gweithredu'r dull ($n=9$), a gyda sampl o staff ysgol ($n=24$, wedi'u gwahodd pedair wythnos ar ôl cwblhau'r hyfforddiant). Gwahoddwyd unigolion i gymryd rhan mewn cyfweliad tros e-bost gan yr ymchwilydd neu drwy gael ei ledaenu gan arweinwyr ysgol. Cafwyd cydsyniad ysgrifenedig gwybodus gan yr holl gyfranogwyr y cynhaliwyd cyfweliadau â hwy. Darparwyd amserlenni cyfweld lled-strwythuredig i alluogi trywyddau holi penodol.

Staff Ysgol

Ymchwiliodd y cyfweliadau i'r profiadau o dderbyn yr hyfforddiant, yr effaith ar arfer yn sgil yr wybodaeth a sgiliau a ddatblygwyd, canfyddiadau am y dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE, sut maent yn teimlo y bydd hyn yn dylanwadu ar ddisgyblion eraill ac a oeddent yn teimlo y byddai ysgolion eraill yn elwa o'r hyfforddiant petai'n cael ei gyflwyno'n helaethach.

Cydlynwyr ACE a staff sy'n ymwneud â datblygu hyfforddiant a'i roi ar waith

Ymchwiliodd y cyfweiliadau i ganfyddiadau am y dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE, profiad o ddatblygu'r hyfforddiant a'i gyflwyno i ysgolion, ennyn diddordeb ysgolion, ystyriaethau ar gyfer cynyddu graddfa'r hyfforddiant ar gyfer ysgolion uwchradd a'r potensial ar gyfer cyflwyno'r hyfforddiant mewn ardaloedd eraill.

3.3. Dadansoddi Data

Sgoriwyd ymatebion o'r raddfa ARTIC-35 gan ddefnyddio templed taenlen excel a ddarparwyd gan y Sefydliad Straen Trawmatig, a gyfrifodd gymedrig pob is-raddfa, yn ogystal â chyfanswm cyffredinol. Mae sgorau ARTIC posib yn amrywio o un (ymwybyddiaeth isel/agweddau gwael tuag at ofal wedi'i lywio gan drawma i saith (ymwybyddiaeth uchel/agweddau da tuag at ofal wedi'i lywio gan drawma). Dadansoddwyd y data hwn, ynghyd â data meintiol arall a gasglwyd yn yr holiaduron, gan ddefnyddio IBM SPSS Statistics for Windows, Fersiwn 24.0. Defnyddiodd y dadansoddiad ystadegau disgrifiadol, prawf-t chi-sgwâr o samplau annibynnol ac ANOVA unffordd.

Recordiwyd sain y cyfweiliadau ac wedyn fe'u trawsgrifiwyd a'u gwnaed yn ddiennw cyn i ddadansoddi thematig gael ei gwblhau ar feddalwedd Atlas ti Fersiwn 7.5.15.

4. Holiadur a Deilliannau 'Agweddau Mewn Perthynas â Gofal Wedi'i Lywio gan Drawma'

Cymerodd naw deg pum o staff ysgol ran yn yr hyfforddiant. Roedd hyn yn cynnwys 85 o fenywod a 10 o ddynion (89.5% a 10.5% yn ôl eu trefn). Dewisodd unigolion mewn amrywiaeth o rolau gymryd rhan yn yr ymchwil, megis staff o dîm rheoli'r ysgol, staff addysgu a chefnogwyr dysgu. Amrywiodd hyd y gwasanaeth o 2 fis i 42 mlynedd (cyfartaledd 13 mlynedd; gweler Atodiad 2 Tabl A2 am ddemograffeg fanwl y cyfranogwyr).

Hyfforddiant blaenorol a fynychwyd

Gofynnwyd i staff ysgol roi gwybod am unrhyw hyfforddiant yr oeddent wedi'i dderbyn ar gefnogi plant â thrawma. At ei gilydd, adroddodd 39% o gyfranogwyr nad oeddent wedi derbyn unrhyw hyfforddiant blaenorol ar weithio gyda thrawma. Roedd rheolwyr ysgol wedi mynychu'r nifer uchaf o gyrsiau, gydag 83% yn cymryd rhan mewn o leiaf un sesiwn hyfforddi o'i gymharu â 64% o staff cefnogi addysgu a 53% o athrawon. Yr hyfforddiant gysylltiedig â thrawma a dderbyniwyd amlaf oedd amddiffyn plant/diogelu^k (38%) aa hyfforddiant radicaleiddio (16%; gweler Atodiad 2, Tabl A3).

4.1 Gofal ac arfer wedi'u llywio gan ACE/Trawma

Cyn yr hyfforddiant

Gofynnwyd i staff gwblhau'r raddfa ARTIC cyn cychwyn ar sesiwn un (n=91). Dangosir y sgôr ARTIC gymedrig ar gyfer pob is-raddfa a'r cyfanswm sgôr gymedrig yn Nhabl 2. Mae cyfanswm sgorau ARTIC yn amrywio o 3.94 i 6.60 (amrediad posib o 1 to 7, gyda sgorau o 7 yn nodi agwedd fwy cadarnhaol tuag at ofal wedi'i lywio gan drawma).

Nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol o ran yr is-raddfeydd a'r cyfanswm sgôr ARTIC fesul rôl staff (h.y. athrawon a staff cefnogi addysgu, gweler Tabl 2). Fodd bynnag, cafwyd gwahaniaethau arwyddocaol ar draws yr holl is-raddfeydd a chyfanswm sgôr yn seiliedig ar faint o amser a dreuliodd yn eu proffesiwn, gyda staff ysgol sydd â llai na chwe blynedd o brofiad yn dangos sgorau ARTIC is. At hynny, roedd gan gyfranogwyr Ysgol C sgorau arwyddocaol o is yn is-raddfeydd ymddygiad yn y swydd a hunan-effeithlonrwydd yn y gwaith (gweler Tabl 2).

Ar ôl yr hyfforddiant

Cwblhaodd yr holl staff y raddfa ARTIC ar ôl cwblhau'r sesiwn hyfforddiant gyntaf (ar ôl 1), a'r sesiwn hyfforddiant derfynol (ar ôl 2).

Ar ôl mynychu Rhan 1 yr hyfforddiant, cynyddodd y sgorau ARTIC cymedrig yn arwyddocaol, gan ddangos agweddau gwell tuag at ofal wedi'i lywio gan drawma ar draws yr holl is-raddfeydd (gweler Ffigur 3). Er hynny, nid oedd unrhyw welliannau arwyddocaol yn y sgorau ARTIC rhwng cwblhau'r sesiwn gyntaf a'r sesiwn olaf (gweler Atodiad 2, Tabl A4). Parhaodd y gwahaniaethau yn y sgorau ARTIC yn arwyddocaol ar gyfer hyd yr amser yn y proffesiwn, gyda sgorau ARTIC is ar gyfer cyfranogwyr sydd â llai na chwe blynedd o brofiad yn y swydd. Parhaodd y gwahaniaethau rhwng ysgolion o ran is-raddfeydd ymddygiad yn y swydd a hunan-effeithlonrwydd yn y gwaith ar gyfer y ddau holiadur ar ôl yr hyfforddiant, gyda gwahaniaeth arwyddocaol rhwng ysgolion o ran y sgôr ARTIC gyffredinol.


j Tynnodd 13 allan o'r sesiwn gyntaf, ac ymunodd 4 aelod staff.

k Hyfforddiant statudol y mae disgwyl i'r holl staff ysgol ei dderbyn fel rhan o'u hyfforddiant cychwynnol ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (QTS), yn ystod eu hyfforddiant ymgynefino ysgol ac fel hyfforddiant diweddar.

Tabl 2: Sgorau ARTIC cyn yr hyfforddiant fesul ysgol, rôl swydd a hyd amser yn y proffesiwn (n=91).

	Achosion sylfaenol ymddygiad a symptomau problemus	Ymatebion i ymddygiad a symptomau problemus	Ymddygiad yn y swydd	Hunan-effeithlonrwydd yn y gwaith	Ymatebion i waith	Sgôr gyffredinol
Pob un						
Cymedrig	4.79	4.98	5.4	5.33	5.19	5.14
GS	0.58	0.67	0.68	0.68	0.63	0.5
Rhyw						
Gwrywaidd	4.61	5.04	5.14	5.25	5	5.01
Benywaidd	4.81	4.98	5.42	5.34	5.21	5.15
<i>p</i>	<i>Dd/A</i>	<i>Dd/A</i>	<i>Dd/A</i>	<i>Dd/A</i>	<i>Dd/A</i>	<i>Dd/A</i>
Ysgol						
A	4.85	4.69	6.17	5.72	5.23	5.24
B	4.98	5.2	6.16	5.38	5.36	5.30
C	4.7	4.99	5.53	5.19	5.11	5.04
<i>p</i>	<i>Dd/A</i>	<i>Dd/A</i>	<.05	<.05	<i>Dd/A</i>	<i>Dd/A</i>
Rôl						
Rheoli	4.81	5.21	5.76	5.79	5.31	5.38
Athrawon	4.90	5.18	5.42	5.30	5.29	5.22
Staff cefnogi	4.74	4.85	5.34	5.30	5.12	5.07
<i>P</i>	<i>Dd/A</i>	<i>Dd/A</i>	<i>Dd/A</i>	<i>Dd/A</i>	<i>Dd/A</i>	<i>Dd/A</i>
Hyd amser yn y proffesiwn						
0-5 mlynedd	4.42	4.75	4.98	4.89	4.87	4.78
6-11 mlynedd	4.86	4.83	5.38	5.40	5.14	5.13
12-17 mlynedd	5.04	5.38	5.70	5.68	5.48	5.46
≥18 mlynedd	4.81	5.00	5.48	5.31	5.23	5.17
<i>p</i>	<.05	<.05	<.01	<.01	<.05	<.01

Ffigur 3: Sgorau ARTIC cymedrig cyffredinol ac is-raddfeydd.



4.2 Hyder i weithredu mewn dull wedi'i lywio gan ACE

Mesurwyd hyder cyfranogwyr i adnabod a chefnogi plant sy'n profi trawma a thralod mewn plentyndod cyn yr hyfforddiant, a chan ddilyn cwblhau'r sesiynau hyfforddi cyntaf a therfynol. Gan ddefnyddio graddfa Likert gofynnwyd i gyfranogwyr nodi eu hyder ar draws amrediad o eitemau ar raddfa rhwng 1 (ddim yn hyderus o gwbl) i 10 (cwbl hyderus, gweler Tabl 3).

Cyn yr hyfforddiant yn gyffredinol, adroddodd staff sgorau hyder isel i gymedrol (sgorau cymedrig rhwng 4 a 7) ar fesurau, gan gynnwys adnabod plentyn sy'n profi trawma, eu dealltwriaeth o effaith straen a thrawma ar yr ymennydd a'u dealltwriaeth o achosion craidd ymddygiad gwael. Adroddwyd lefelau hyder cymedrol i uchel (sgorau cymedrig o 7 ac yn uwch) ymysg staff cyn yr hyfforddiant ar allu i siarad â phlentyn yn briodol ac yn sensitif a rhannu pryderon ynglŷn â phlentyn gyda chydweithiwr (gweler Tabl 3).

Cyn yr hyfforddiant roedd gwahaniaethau arwyddocaol mewn hyder ar draws rolau staff, gyda rheolwyr a staff addysgu'n adrodd am lefelau hyder uwch wrth adnabod plentyn sy'n profi trawma na staff cefnogi (5.56 [staff cefnogi]; 5.87 [staff addysgu]; 8.00 [rheolwyr]; $p < .05$), deall effaith straen a thrawma ar yr ymennydd, a deall achosion craidd ymddygiad gwael (gweler Atodiad 2, Tabl A6).

Yn dilyn yr hyfforddiant, adroddodd cyfranogwyr am hyder gwell ar draws yr holl fesurau, gyda staff yn adrodd eu bod yn teimlo'n fwy hyderus yn eu gallu i adnabod plentyn sy'n profi trawma, siarad â phlentyn yn briodol ac yn sensitif a rhannu pryderon ynglŷn â phlentyn gyda chydweithiwr. Adroddodd cyfranogwyr am welliannau arwyddocaol yn eu dealltwriaeth o effaith straen a thrawma ar yr ymennydd, ynghyd â'u dealltwriaeth o achosion craidd ymddygiad gwael yn y dosbarth (gweler Tabl 3).


Tabl 3: Sgorau hyder cymedrig ar gyfer ymateb i bobl sy'n agored i niwed

Confidence scale	Cyn-		Ar ôl-1			Ar ôl--2		
	Cymedrig	GS	Cymedrig	GS	p	Cymedrig	GS	p
Adnabod plentyn sy'n profi trawma	5.79	2.02	6.99	1.87	<.01	7.79	1.49	<.01
Eich dealltwriaeth o effaith straen a thrawma ar yr ymennydd	4.65	2.46	7.6	1.71	<.01	7.66	1.67	<.05
Eich dealltwriaeth o achosion craidd ymddygiad gwael yn y dosbarth	6.05	1.83	7.52	1.56	<.01	7.86	1.56	<.01
Eich gallu i siarad â phlentyn yn briodol ac yn sensitif.	7.55	2.09	8.64	1.21	<.01	8.54	1.3	<.05
Rhannu unrhyw bryderon ynglŷn â phlentyn gyda chydweithwyr	8.85	1.64	9.3	0.94	<.01	9.32	0.99	<.05

At hynny, cyn yr hyfforddiant adroddodd cyfranogwyr hyder isel i gymedrol yn eu gallu i weithio mewn dull wedi'i lywio gan ACE (sgorau cymedrig rhwng 1 a 5), gan gynnwys deall beth yw ACE, deall effaith ACE ar ddatblygiad plentyn ac effaith tymor hwy ACE mewn glasoed ac oedolaeth. Yn dilyn yr hyfforddiant, cynyddodd hyder cyfranogwyr i weithio mewn dull wedi'i lywio gan ACE yn arwyddocaol ar draws yr holl raddfeydd (ar ôl 1 ac ar ôl 2, gweler Ffigur 4, Atodiad 2, Tabl A5).

Cyn yr hyfforddiant nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol mewn hyder i weithio mewn dull wedi'i lywio gan ACE yn seiliedig ar ryw, ysgol neu rôl swydd. Adroddodd staff sydd wedi gweithio yn y proffesiwn rhwng 6 ac 11 mlynedd lefelau hyder arwyddocaol o is yn eu dealltwriaeth o beth yw ACE, eu dealltwriaeth o effaith ACE ar ddatblygiad a dealltwriaeth o sut i gymhwyso dull wedi'i lywio gan ACE/Drawma mewn addysg. Ar ôl derbyn yr hyfforddiant nid oedd y gwahaniaethau hyn yr adroddwyd amdanynt fesul hyd amser yn y proffesiwn yn amlwg. At hynny, ar ôl y sesiwn hyfforddiant gyntaf, adroddodd cyfranogwyr ysgol C hyder arwyddocaol o is ar draws yr holl is-raddfeydd ac adroddodd staff cefnogi addysgu hyder is yn eu dealltwriaeth o beth yw ACE a'r effaith y gallant ei chael ar ddatblygiad plentyn. Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol mewn hyder rhwng ysgolion a rolau swydd ar ôl cwblhau'r hyfforddiant terfynol (Gweler Atodiad 2, Tabl A7).

Ffigur 4: Sgôr hyder cymedrig ar gyfer deall ACE a dull wedi'i lywio gan ACE cyn ac ar ôl yr hyfforddiant



4.3 Agweddau tuag at gyflwyno'r hyfforddiant

Gofynnwyd i gyfranogwyr raddio i ba raddau y maent yn cytuno ag amrediad o ddatganiadau mewn perthynas â chyflwyno'r hyfforddiant gan ddefnyddio graddfa Likert pum pwynt yn amrywio o gytuno'n llwyr i anghytuno'n llwyr (gweler Ffigur 5). Bu i dros 90% o gyfranogwyr a fynychodd y sesiwn hyfforddiant gyntaf gytuno neu gytuno'n gryf â'r holl ddatganiadau, gan adrodd bod yr hyfforddiant wedi ennyn eu diddordeb a'i fod yn rhyngweithiol, ei fod wedi datblygu gwybodaeth a sgiliau unigol i wella'u harfer a rhoi'r hyder iddynt ddefnyddio'r wybodaeth a sgiliau. Roedd llai o gysondeb ar ôl y ddwy sesiwn hyfforddiant olaf, gyda 64% yn cytuno bod hyd yr hyfforddiant yn ddigonol, 73% yn nod iddynt deimlo bod eu gwybodaeth a sgiliau wedi'u hymestyn o ganlyniad i'r hyfforddiant, ynghyd â datblygu'r hyder i ddefnyddio'r sgiliau hyn.

Gofynnwyd i gyfranogwyr raddio tair elfen fwyaf gwerthfawr uchaf yr hyfforddiant. Yr elfennau a raddiwyd uchaf o'r sesiwn hyfforddiant gyntaf oedd yr wybodaeth ar ACE a'r effaith ar ddeilliannau bywyd (79%), y clipiau fideo a ddangoswyd (56%) a'r wybodaeth am y cyswllt rhwng ymddygiad a thrawma (51%). Ar ôl cwblhau'r ail ddwy sesiwn hyfforddiant, graddiodd cyfranogwyr y trafodaethau a gweithgareddau grŵp fel yr elfen fwyaf gwerthfawr, yn ogystal â'r wybodaeth am fynegiad emosiynol (63%) a gwybodaeth a phrofiad yr hyfforddwyr (46%).

4.4 Effaith yr hyfforddiant ar arfer


Yn dilyn yr hyfforddiant, teimlodd wyth deg naw y cant o gyfranogwyr fod ganddynt ymwybyddiaeth well o sut i gyfathrebu â phlant yn y sefyllfa ysgol a theimlodd 83% o gyfranogwyr fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i ddarparu'r gefnogaeth y mae ei hangen i alluogi plant sy'n profi trawma i lwyddo'n well yn yr ysgol.

Gofynnwyd i staff a oeddent yn teimlo y gallent gymhwyso amrediad o sgiliau a addysgwyd yn yr hyfforddiant i'w harfer (gweler Atodiad 1 am ddisgrifiad o gynnwys yr hyfforddiant). Teimlodd chwe deg naw y cant o gyfranogwyr y gallent gymhwyso sgiliau hyfforddiant emosïynol wrth gydweithio â phlant sy'n profi trawma a hefyd defnyddio PLACE¹ wrth ryngweithio â phlant (fodd bynnag, adroddodd 29% a 30% yn ôl eu trefn fod angen mwy o hyfforddiant i gymhwyso'r sgiliau hyn). At hynny, teimlodd 61% o gyfranogwyr y byddent yn gallu cymhwyso strategaethau a ddarparwyd yn yr hyfforddiant i ddod â phlant yn ôl at y ffenest goddefgarwch^m. Ar ben hynny, teimlodd 57% o gyfranogwyr y gallent adeiladu gwydnwch y plant y maent yn cydweithio â hwy ar ôl mynychu'r hyfforddiant.

Yn ystod yr hyfforddiant trafodwyd pwysigrwydd lles staff, a dysgwyd dulliau i fynycheion reoli eu lles ac adeiladu eu gwydnwch eu hunain. Yn dilyn yr hyfforddiant adroddodd 93% o staff y gallent reoli eu lles eu hunain yn well wrth gydweithio â phlant sydd ag ACE ac sy'n profi trawma.

Gofynnwyd i gyfranogwyr raddio, allan o ddeg, ba mor ddefnyddiol oedd y broses PATH wrth weithio tuag at ddatblygu ysgol wedi'i llywio gan ACE (1, ddim yn ddefnyddiol i 10, defnyddiol iawn). Y sgôr gymedrig oedd 7.57 (GS 1.86). Canfyddiad staff o ysgol C oedd bod y PATH yn llai defnyddiol (6.84) nag ysgolion A and B (8.14 and 9.24 yn ôl eu trefn). At hynny, gofynnwyd i gyfranogwyr a oeddent yn teimlo bod unrhyw rwystrau i ddatblygu ysgol wedi'i llywio gan ACE/trawma. Yn gyffredinol, nododd 35% o gyfranogwyr rwystrau i fynd yn ysgol wedi'i llywio gan ACE, fodd bynnag, roedd hyn yn arbennig o uchel yn ysgol B lle nododd 65% o staff yr ysgol rwystrau. Roedd y rhwystrau mwyaf cyffredin a nodwyd yn cynnwys amser i'w roi i ddisgyblion, parodrwyd i deuluoedd gymryd rhan a'r adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys lle o fewn yr ysgol ac argaeledd staff i ymwneud â phlant a theuluoedd.

Ffigur 5: Cyfran y cyfranogwyr sy'n cytuno/anghytuno'n gryf â datganiadau dewisedig ar gyflwyno hyfforddiant.



¹ Chwaraeus, Hoffter, Derbyn, Chwilfrydedd, Uniaethu
^m Mae'r 'ffenest goddefgarwch' yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio'r cyflwr deffroad y gall rhywun weithredu yn y ffordd fwyaf effeithiol ynddo.

5 Canfyddiadau ansoddol o gyfweiliadau gyda datblygwyr rhaglen, partneriaid a staff ysgol ar y dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE

Mae'r adran hon yn ymchwilio i'r canfyddiadau o gyfweiliadau wyneb wrth wyneb gydag ystod o bartneriaid a fu'n ymwneud yn y dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE. Ymysg y rhai y cynhaliwyd cyfweiliadau â hwy oedd datblygwyr a hwyluswyr y rhaglen a hyfforddiant (gan gynnwys y Cydlynwyr ACE) ac ystod o staff y tair ysgol beilot. Mae'r canfyddiadau'n cwmpasu ystod eang o bynciau gan gynnwys canfyddiadau a rhwystrau i ddatblygu ysgol wedi'i llywio gan ACE; effaith yr hyfforddiant ar wybodaeth ac arfer a defnyddioldeb elfennau penodol y dull (h.y. yr offeryn parodrwydd a chynllun gweithredu'r ysgol) wrth weithredu dull wedi'i lywio gan ACE. Mae'n ymchwilio hefyd i faterion mewn perthynas â chyflwyno'r hyfforddiant ac ystyriaethau'r dyfodol o ran cynnaladwyedd dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

5.1 profiad o gefnogi plant sydd ag ACE a thrawma

Yn ystod cyfweiliadau gofynnwyd i staff yr ysgol ddisgrifio eu profiadau o weithio gyda phlant sydd wedi profi ACE neu ddiodef trawma. Myfyriodd y mwyafrif o staff fod nifer uchel o ddisgyblion yn eu hysgol yn profi trallod gyda llawer o blant yn profi mwy nag un ACE. Trwy gydol yr arholiadau roedd yn amlwg bod plant sy'n profi ACE yn cyflwyno mewn amrywiaeth o ddulliau gwahanol "maent i gyd yn wahanol does byth...un rheol i un plentyn" (Cyfweiliad 26, Cefnogi Addysgu), gyda rhai plant yn dangos ymddygiadau heriol ac yn aml, ymosodol, a rhai eraill i'w gweld yn dawel ac wedi mynd i'w cragen.

"Rydym yn gweld mwyfwy o blant yn yr ysgol hon yn benodol sydd ag ACE lluosog, llawer o anawsterau wrth ddelio â'u teimladau."

Cyfweiliad 17, Cefnogi Addysgu

"mae [gan blant] naill ai ymddygiad mwy eithafol a'r angen am sylw neu gallant fynd yn dawel ac yn eithaf swil, felly gall fod y naill ben na'r llall o'r sbectrwm sbo."

Cyfweiliad 29, Athro/Athrawes

Ystyriwyd bod y mathau hyn o ymddygiad yn adlewyrchu strategaethau ymdopi'r plentyn o ran ymdrin â thralod, gyda rhai plant sydd â sgiliau ymdopi gwell na rhai eraill. Er hynny, cydnabuodd nifer o gyfranogwyr nad oes gan blant oedran ysgol gynradd y sgiliau o reidrwydd i gyfleu eu teimladau'n briodol a gofyn am gefnogaeth.

"Mae rheoli dicter yn fater mawr ar gyfer rhai o'n plant yma gan mai'r unig ffordd y maent yn gwybod i fynegi eu hunain yw mewn ffordd dreisgar. Nid oes ganddynt yr offer i fynegi eu hunain ar lafar neu hyd yn oed gwybod pam maent yn ymddwyn yn y fath ffordd."

Cyfweiliad 13, Athro/Athrawes

Myfyriodd staff ysgolion ar heriau gweithio gyda phlant sydd wedi profi ACE, yn enwedig y rhai sy'n dangos anghenion cymhleth o ganlyniad i'w trawma (e.e. iechyd meddwl gwael).

"Rhywbeth yr ydym yn ei weld yn gynyddol erbyn hyn yw plant yn dod trwodd gyda phroblemau iechyd meddwl, chi'n gwybod, diffyg ymlyniad. Byddwn yn dweud bod gennym blant sy'n profi lefelau uchel o bryder. Mewn rhai achosion byddwn i'n dweud, iselder, sy'n anodd iawn ymdopi ag ef."

Cyfweiliad 9, Rheolwr Ysgol

Ar draws y tair ysgol nodwyd lles disgyblion fel blaenoriaeth bennaf, gyda llawer o staff yn cydnabod yr angen am weithio'n hyblyg gyda phlant ac addasu eu dull i anghenion pob plentyn unigol *"gall fod yn heriol, gall bob diwrnod fod yn wahanol iawn, ac mae angen i chi ystyried pob sefyllfa fel y daw"* (Cyfweliad 21, Rheolwr Ysgol). Er y deallwyd bod lles disgyblion yn hollbwysig a bod ymdrin ag ef yn hanfodol i alluogi plant i ddysgu, cydnabuodd rhai aelodau staff y cynhaliwyd cyfweliadau â hwy nifer o heriau sy'n gysylltiedig â hyn. Gyda dosbarthiadau o dri deg o blant, a'r pwysau i gynhyrchu canlyniadau da (h.y. cwrdd â safonau academaidd ac arolygu), nid yw'r amgylchedd ysgol bresennol yn hwyluso'r lefel gefnogaeth y mae ei hangen ar blant

5.2 Y dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE

Dealltwriaeth o'r dull

Gwelwyd dealltwriaeth dda o nodau a ffocws y dull gan y rhai a gymerodd ran:

"Rwy'n credu mai ystyr ysgol wedi'i llywio gan ACE yw bod yn ymwybodol o beth yw ACE, bod yn ymwybodol o effaith straen hir dymor ar ymennydd plentyn...a sut mae hynny'n edrych...mewn amgylchedd ysgol o ddydd i ddydd."

Cyfweliad 4, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen

Disgrifiodd cyfranogwyr y dull fel *"fframwaith"* (Cyfweliad 25, Athro/Athrawes) neu *"strategaeth"* (Cyfweliad 1, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen) sy'n cynorthwyo staff ysgol i ddeall ac adnabod ACE o fewn y boblogaeth ysgol, ac felly darparu cefnogaeth briodol i ymdrin ag anghenion plant. Cafwyd consensws clir bod y dull yn darparu dealltwriaeth i ysgolion o effaith profi ACE ar blant a'u hymddygiad, fel y mae'r dyfyniadau isod yn dangos:

"Mae wedi'i lywio gan ACE yn golygu ein bod yn ymwybodol o ba ACE sydd gan blentyn [a] phan fyddant yn dod atom, y gallai [ACE] ddylanwadu ar yr ymddygiad ac...mae angen i ni ymwneud â'r plant hynny gyda dealltwriaeth well...fel ein bod mewn sefyllfa well i ddelio â nhw."

Cyfweliad 16, Cefnogi Addysgu

"Rydym i gyd yn ymwybodol o'r posibilrwydd y bydd ein plant yn dioddef o lefelau straen oherwydd y pethau sy'n digwydd adref ac y bydd eu hymddygiad yn yr ysgol...da neu ddrwg neu ddifater yn cael ei effeithio ganddynt. Felly byddwn yn gwybod y gallwn...ddelio ag achosion y problemau'n hytrach na gorfod delio â'u canlyniadau."

Cyfweliad 19, Athro/Athrawes

Cydnabuodd staff addysgu mai rhan annatod o'r dull oedd deall y gall profi ACE/trawma ddylanwadu ar allu plentyn i ddysgu, a bod lles yn rhan annatod o'u datblygiad addysgol:

"Ni allant [athrawon] wneud eu swydd os nad ydym yn diwallu anghenion emosiynol plant. Byddant yn dysgu dim byd o gwbl. Gall fod yr athrawes orau yn y byd...ond os nad yw'r plentyn hwnnw neu'r plant hynny yn y lle iawn, nid ydynt yn mynd i ddysgu unrhyw beth, felly mae wedi bod yn anhygoel iddynt ddechrau meddwl yn flaengar a meddwl, sut bydda i'n diwallu anghenion y plant yn emosiynol, er mwyn eu paratoi i ddysgu?"

Cyfweliad 17, Cefnogi Addysgu

Mae nifer o raglenni ac ymyraethau'n bodoli i ymdrin â lles plant a'u cefnogi i ddatblygu eu sgiliau emosiynol. Wrth ddatblygu'r dull hwn, rhoddwyd llawer o sylw i ganolbwyntio ar sicrhau nad ystyriwyd mai dim ond rhaglen arall i ymrwymo iddi oedd hon: *"roedd angen i ni sicrhau nad oedd ysgolion yn gweld hwn fel rhywbeth arall, gan nad oeddem eisiau i ACE gael ei gweld fel menter arall a fyddai'n mynd a dod"* (Cyfweliad 3, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen).

Teimlodd datblygwyr a hwyluswyr rhaglen y dylai cynnwys a ffocws yr hyfforddiant gyfarparu'r holl staff ysgol i weithio mewn dull wedi'i lywio gan drawma trwy gydol y diwrnod ysgol yn hytrach

nag ar amserau penodol "nid yw lles yn rhywbeth unigryw, nid yw'n rhywbeth yr ydym yn gwneud ar brynhawn dydd Llun rhwng 1:00 a 2:00" (Cyfweliad 6, Hwylusydd/ Datblygwr Rhaglen). At hynny, teimlant nad yw'r dull ysgol gyfan wedi'i ddiffinio ymlaen llaw gyda pharmedrau penodol i weithio oddi mewn iddynt, ond yn lle yn galluogi ac yn annog ysgolion i alw ar adnoddau presennol i ddatblygu eu hymdrechion i weithio mewn dull wedi'i lywio gan ACE:

"Rwy'n credu mai'r hyn sy'n wahanol amdano yw, tra bod ELSA yn...rhaglen a ddiffinnir ymlaen llaw a'i bod yn cael ei dysgu fel hynny, mae'r hyfforddiant yr ydym wedi'i ddatblygu oherwydd yr elfen PATH, yn cynnwys y staff eu hunain yn galw ar eu hadnoddau eu hunain a meddwl am, "Sut gallwn ni symud hwn ymlaen, Sut gallwn ni wneud ysgol sydd wedi'i llywio'n fwy gan ACE? Sut gellir blaenoriaethu lles pawb?"

Cyfweliad 6, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen

Gyda llawer o raglenni sydd eisoes yn bodoli, yn aml mae nifer cyfyngedig o staff yn cael eu hyfforddi i ddarparu cefnogaeth, fodd bynnag mae'r dull hwn yn ceisio darparu dull ysgol gyfan o ymdrin â lles disgyblion. Darparodd y gwerthusiad dystiolaeth o gydnabyddiaeth glir bod dull ysgol gyfan yn cynnwys cyfrifoldeb ar y cyd dros adnabod plant ag ACE sy'n profi trawma, a sicrhau bod y gefnogaeth fwyaf priodol yn cael ei darparu i bob plentyn unigol. Cydnabuodd cyfranogwyr fod dull ysgol gyfan yn cynnwys "pob aelod o gymuned yr ysgol" (Cyfweliad 9, Rheolwr Ysgol) yn cael ei lywio gan ACE/trawma "o'r gwagedd cinio i fyny at yr uwch reolwyr, pennaeth" (Cyfweliad 7, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen). Cafwyd awgrymiad i gynnwys staff y mae eu rolau'n ymwneud yn llai â gweithgareddau bob dydd yr ysgol i alluogi dull ysgol gyfan go iawn ar y cyd a allai helpu hwyluso cefnogaeth bellach dros y dull hefyd: "Gallai ein corff llywodraethu elwa o rywfaint o gefnogaeth ar hyn o beth, [er mwyn iddynt] ddeall yr hyn...rydym yn delio ag ef" (Cyfweliad 14, Cefnogi Addysgu).

Oherwydd cyfyngiadau ar amser ac adnoddau, fodd bynnag, nid oedd yn bosib cynnwys yr holl staff o fewn yr hyfforddiant, gyda staff nad ydynt yn addysgu (h.y. staff cinio, gofalwyr) wedi'u heithrio o'r hyfforddiant a gweithgareddau peilot eraill. Eiriolwyd dros wneud y dull mor gynhwysol â phosib, trwy gynnwys yr ystod ehangaf bosib o staff yr ysgol yn yr hyfforddiant, yn glir gan staff yr ysgol a'r rhai sy'n ymwneud â datblygu a chyflwyno'r dull:

"I mi, mae'n golygu bod pawb sy'n dod i gyswllt â phob plentyn yn ymwybodol ac wedi'i gyfarparu i ddelio gyda beth bynnag sy'n cael ei daflu atynt, i bob pwrpas. Mae'n ymwneud â thrugaredd... Yr unig hafan ddiogel ar gyfer y plant hyn yw'r ysgol...rwy'n meddwl bod angen hyfforddi pawb, mae hynny'n cynnwys unrhyw un sy'n dod i gyswllt â'r plant, yn enwedig y gwagedd cinio a staff y gegin."

Cyfweliad 17, Cefnogi Addysgu

At hynny, teimlodd staff yr ysgol a datblygwyr/hwyluswyr y rhaglen fod y dull cyffredinol hwn yn galluogi plant sy'n profi ACE a thrawma i dderbyn cefnogaeth, ac ar ben hynny mae'n galluogi'r holl blant i fedru ceisio cefnogaeth gan y person y maent yn ei adnabod fel oedolyn yr ymddiriedir ynddo/ynddi. Un o'r negeseuon allweddol i ddod allan o'r hyfforddiant yw y gall pob aelod o staff feddu ar sgiliau i weithredu fel oedolyn yr ymddiriedir ynddo ac y gall gwrandao ar blant a'u cefnogi gyda goddefgarwch, chwilfrydedd ac empathi: "i greu'r syniad ym mhob ysgol am yr oedolyn yr ymddiriedir ynddo a sut mae angen i ni i gyd ymwneud â gofalu dros y plant a bod yn oedolyn yr ymddiriedir ynddo ar gyfer pwy bynnag sydd angen yr ymyrraeth honno" (Cyfweliad 1, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen).

Teimlwyd y gall rhaglenni ac ymyraethau presennol sydd wedi'u mabwysiadu gan ysgolion, fel PATHS plus, weddu i'r dull wedi'i lywio gan ACE:

"mae bron fel dull meta-wybyddol neu ddull sy'n cwmpasu dulliau eraill oddi fewn iddo, felly... fel Thrive, pethau y gallent hwy fod yn eu gwneud ar hyn o bryd, ELSA, Student Assist Programme, beth bynnag y maent yn ei wneud o ran cefnogi eu pobl ifainc ar hyn o bryd, dyma ddull neu athroniaeth gyffredinol, ffordd o weithio."

Cyfweliad 7, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen

Canfyddiadau

Cafwyd cefnogaeth anhygoel ymysg y rhai y cynhaliwyd cyfweiliadau â hwy dros y dull ysgol gyfan. Canfyddiad y mwyafrif helaeth o gyfranogwyr oedd bod y dull yn fenter hynod gadarnhaol, yn enwedig mewn perthynas â diwallu anghenion plant sy'n agored i niwed.

"Rwy'n credu o'r tro cyntaf y cerddais i mewn i un o'r gweithdai hyn roeddwn...yn frwd gan i mi allu gweld yr angen am ddefnyddio hwn mewn ardal fel ein hardal ni, lle... mae cymaint yn mynd ymlaen...dyma rywbeth rydym wedi bod yn aros amdano."

Cyfweiliad 33, Rheolwr Ysgol

Cyfeiriwyd at werth dull ymyrraeth gynnar, er mwyn atal effeithiau ACE un genhedlaeth i'r llall, gan un o'r cyfranogwyr hefyd: *"Rwy'n credu gyda'r plant hyn, mae'n rhaid iddynt gael yr ymyrraeth gynnar fel na fyddant yn yr un lleoedd â brodyr a chwiorydd hŷn, neu rieni. Mae angen i ni weithredu mor gynnar â phosib o'r cychwyn cyntaf"* (Cyfweiliad 18, Cefnogi Addysgu).

Cytunodd yr holl staff yn gryf fod addysgwyr yn chwarae rôl bwysig wrth ymdrin â lles plant, ac roeddent yn hoffi sut mae'r dull hwn yn gosod cymaint o bwyslais ar ymdrin â lles disgyblion. Nododd aelodau staff bwysigrwydd cydnabod yr effaith y gall profi ACE ei chael ar allu plentyn i ddysgu, gan gytuno y dylai'r ymwybyddiaeth hon fwydo i mewn i sut y mae'r plentyn yn cael ei gefnogi yn yr ysgol:

"fel athrawon mae'n hynod bwysig ein bod yn cydnabod nhw [ACE] a faint o effaith go iawn y maent yn ei chael arnynt wrth iddynt ddysgu, achos bod rhai o'r plant yn dod i'r ysgol yn y bore ac maent wedi cael pob math o anhrefn yn mynd ymlaen adref ac maent yn dod i'r ysgol ac rydym yn disgwyl iddynt eistedd yno ac ysgrifennu stori, wel, chi'n gwybod. Mae'n... rwy'n credu y gall cael ychydig o ymwybyddiaeth efallai o beth sy'n digwydd adref neu beth sydd wedi digwydd iddynt yn flaenorol, gall newid y ffordd y maent yn dysgu wedyn. Gallwn ddeall yn well a'u helpu nhw...maethu nhw ar yr un pryd â dysgu nhw."

Cyfweiliad 23, Rheolwr Ysgol

Ymysg rheolwyr ysgol, cydnabuwyd bod ymdrin ag ACE ac edrych ar ddull wedi'i lywio gan ACE i ddysgu'n darparu *"cyfle i ni newid diwylliant ein hysgol, a mynd i'r afael â'r pwysau a roddir arnom o ran cyflwyno cwricwlwm cytbwys, a'r gofynion a roddir arnom gan Estyn Ac rwy'n meddwl mai dyna pam rydym eisiau datgelu pethau ac edrych ar les fel rhagofyniad i ddysgu effeithiol"* (Cyfweiliad 9, Rheolwr Ysgol).

Rhwystrau

Fodd bynnag, ymysg staff a rheolwyr ysgol, nodwyd amser i ddarparu lefel gefnogaeth briodol ar gyfer plant fel rhwystr: *"mae'r diwrnod mor llawn rydych yn teimlo weithiau nad oes amser i ddelio â materion"* (Holiadur 88, Athro/Athrawes).

Myfyriodd llawer o staff ar y pwysau y maent yn teimlo o fewn y rôl i greu canlyniadau academiaidd da, cwrdd â safonau penodedig a ffocysu ar feysydd â blaenoriaeth a bennir gan Lywodraeth Cymru. Teimlodd staff ar draws pob rôl yn yr ysgol ei fod yn frwydr i gydbwysu hyn gyda gofynion cystadleuol lles cymdeithasol ac emosiynol y plant:

"Ni allwch ffitio unrhyw beth arall i mewn. felly os wyf yn delio gyda phlentyn sydd wedi cael ffrwydrad yn yr iard ond rwyf i fod yn gwneud darllen ac ysgrifennu ac mae fy ngrŵp o 12 o blant yn aros amdanaf, does dim digon o amser i fod yn hyblyg. Mae pwysau o bob ochr, wrth gwrs."

Cyfweiliad 17, Cefnogi Addysgu

Pwysleisiwyd pwysigrwydd y cysylltiad rhwng lles plant a'u cyrhaeddiad addysgol. Yn benodol, cydnabuodd un cyfranogwr yr effaith hir dymor y gall defnyddio Dull Ysgol Gyfan Wedi'i Lywio gan ACE ei chael ar les plant ac felly eu sgiliau rhifedd a llythrennedd, er enghraifft:

"Er mwyn i safonau wella, yn eithaf aml mae angen i chi ddechrau gyda... cael y lles yn iawn a chael y plant i mewn ac yn canolbwyntio ac yn hapus, daw'r safonau ynghlwm wrth hynny. Ond mae pethau fel hynny'n cymryd amser. Rwy'n credu mai'r rhwystrau mwyaf yw ein bod yn byw mewn gwlad sydd eisiau...ateb i rywbeth yn syth ac...nid yw'n caniatáu ar gyfer y model hir dymor hwnnw, yn anffodus. Ond os mai'r nod tymor hir oedd eich bod yn llwyddo i sicrhau bod pob ysgol wedi'i llywio gan ACE a bod lles plant yn gwella a bod presenoldeb yn gwella, mae'n anochel y byddai safonau'n gwella, ond ni fyddai'n digwydd dros nos felly rwy'n credu y byddai hynny'n rhwystr mawr."

Cyfweliad 27, Rheolwr Ysgol

Fel y mae'r dyfyniad uchod yn nodi, agwedd bwysig ar gymhwyso'r dull yn llwyddiannus hefyd yw cydnabod y gallai gymryd peth amser i'r effaith gadarnhaol gael ei gwireddu ac y gallai dymuniad neu bwysau gan gyrrff llywodraethu i weld effeithiau uniongyrchol atal hyn.

Datgelodd cyfweliadau ganfyddiadau bod agweddau staff yn rhwystr i weithredu'r dull hefyd. Roedd agweddau tuag at y dull wedi'i lywio gan ACE yn hynod gadarnhaol ar draws pob un o'r tair ysgol, fodd bynnag teimlwyd nad yw ysgolion eraill yng Nghymru'n rhannu'r un ethos tuag at les ac na fyddant mor groesawgar tuag at y dull.

"agweddau staff weithiau, dyna fydd y prif rwystr...bydd gennych rai y byddant bob amser yn rhoi 100 y cant ac wedyn mae gennych rai...nad ydynt... felly mae'n ymwneud â'r staff...y staff sy'n gwneud yr ysgol."

Cyfweliad 33, Rheolwr Ysgol

Yn ogystal â sefydlu ymrwymiad gan staff, cododd nifer bach o gyfranogwyr bryderon am staff sy'n gadael a'r angen am gadw staff sydd â'r sgiliau perthnasol i gynnal y dull. Teimlwyd bod angen darparu hyfforddiant diweddarau i sicrhau bod gan bawb yn yr ysgol yr wybodaeth a sgiliau, ac i sicrhau dull cyson:

"Gyda'r ffordd yr ydych yn cyfathrebu â'r plant ar sail bob dydd...fe allai gwympo i lawr, os bydd gennych drosiant staff uchel. Achos bydd gennych rai sy'n gwybod sut i'w wneud, ac wedyn bydd gennych blant sy'n mynd at staff eraill yn nes ymlaen nad ydynt yn trin pethau yn yr un ffordd, a gallai hynny fod yn anfantais, byddwn i'n dweud, yn y dyfodol. Felly mae angen i mi ddychwelyd ato bob blwyddyn."

Cyfweliad 4, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen

Yn olaf, cafwyd canfyddiad bod cynnwys y gymuned ehangach (a rhieni'n benodol) yn y dull yn her arwyddocaol: "Rwy'n credu bod rhai o'r rhieni'n teimlo embaras wrth ddod i mewn. Maen nhw'n eithaf ofnus o ddod i mewn a siarad â'r athrawon os oes ganddynt unrhyw broblemau." (Cyfweliad 15, Cefnogi Addysgu). Sylwadaeth bellach gan athro:

"Gyda'r holl ewyllys yn y byd, gallwn wneud yr hyn yr ydym yn meddwl sy'n iawn ond...os na allwn gael y rhieni i ddod i mewn a dechrau deialog...Gallwn wneud yr hyn y gallwn ei wneud yn yr ysgol ond wedyn mae'n rhaid i ni anfon y plant adref... Mae angen i ni gael y rhieni fel nad ydynt yn teimlo o dan fygythiad a...[deall] bod unrhyw beth a ddywedwn [ddim] yn beirniadu nhw. Mae angen iddyn nhw deimlo ei fod yn ymdrech tîm ac nad oes neb yn pwyntio'r bys ac yn dweud, eich bai chi yw e... Mae angen iddo fod, drycha rydym wedi sylwi ar hwn, allwn ni gydweithio arno?"

Cyfweliad 13, Athro/Athrawes

Gallai sefydlu amgylchedd yn yr ysgol lle mae rhieni'n teimlo y gallant gysylltu â staff am gefnogaeth gynnyddu derbyn y dull o fewn y gymuned ehangach yn sylweddol.

5.3 Offeryn Parodrzydd ACE

Cwblhaodd pob ysgol yr offeryn parodrzydd mewn partneriaeth â'r cydlynwyr ACE addysg, y pennaeth a'r ymarferydd ysgolion iach, a chynhaliwyd cyfarfod dilyn i fyny gyda staff yr ysgol i gael persbectif ysgol gyfan ar yr hyn a gofnodwyd o fewn yr offeryn.

Wrth ddatblygu dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE, mynegodd cyfranogwyr fod yr offeryn parodrzydd yn fan cychwyn da gan ei fod yn galluogi ysgolion i adnabod a chofnodi arfer da a sefydlwyd eisoes mewn perthynas â chefnogi lles plant a'r rhai sydd mewn perygl o drawma trwy gydol yr offeryn.

"mae'n ffordd eithaf da o gychwyn arni gan y gallwch weld yr hyn rydych yn ei wneud, ac mae'n eithaf braf i weld yr holl bethau rydych yn eu gwneud hefyd. Felly mae'n rhoi trosolwg da i chi dwi'n tybio."

Cyfweliad 23, Rheolwr Ysgol

Ystyriwyd bod yr offeryn parodrzydd ACE yn ddull hunanwerthuso defnyddiol sy'n galluogi ysgolion i fyfyrto ar arfer cyfredol ac adnabod meysydd i'w datblygu *"gan adnabod beth oedd ein cryfderau, beth oedd ein gwendidau, ac roedd hynny'n ymarfer diddorol. Wrth fyfyrto arno, rydym yn gwneud llawer iawn"* (Cyfweliad 9, Rheolwr Ysgol). O dan fframwaith arolygu Estyn, cydnabuwyd bod hunanwerthuso'n arfer cyffredin ar gyfer ysgolion, fodd bynnag, disgrifiodd cyfranogwyr yr offeryn parodrzydd ACE fel profiad pwerus a oedd yn gallu amlygu arfer da ac amlygu cymaint y mae'r ysgolion yn ei wneud i gefnogi plant a'u teuluoedd.

"Roedd yn eithaf pwerus gan i chi fedru gweld faint rydym eisoes yn ei wneud yn barod fel ysgol wedi'i llywio gan ACE, felly roedd yn dda dod â'r cyfan ynghyd i ddangos, wel mewn gwirionedd rydym yn gwneud hwn yn barod."

Cyfweliad 25, Athro/Athrawes

At hynny, cafwyd canfyddiad bod yr offeryn yn gam pwysig wrth helpu cyfeirio gweithredu dull wedi'i lywio gan ACE mewn arfer bob dydd yr ysgol, gan ddarparu *"ffocws cliriach ar ble mae angen i chi fynd fel ysgol"* (Cyfweliad 27, Rheolwr Ysgol). Ystyriodd y Cydlynwyr ACE Addysg fod cwblhau'r offeryn parodrzydd mewn partneriaeth â'r pennaeth yn rhan hanfodol o greu perthnasoedd o fewn yr ysgol a dysgu pethau am yr ysgol na fyddai modd iddynt eu cywain trwy ddogfennau papur.

Er bod y rhan fwyaf yn gadarnhaol am broses yr offeryn parodrzydd ACE, teimlodd nifer o gyfranogwyr fod yr offeryn ar ei ffurf gyfredol yn rhy hirwyntog (yr amser cwblhau ar gyfartaledd oedd 2.5 awr) a'i fod hefyd yn ailadroddus mewn lleoedd. Un awgrymiad a roddwyd i addasu'r offeryn parodrzydd i'w rhesymoli'n fwy oedd datblygu proses lle gellir cywain gwybodaeth o ddogfennau polisi ac arweiniad unigol ysgolion er mwyn cyfeirio'r offeryn cyn y cyfarfod rhwng y pennaeth a'r Cydlynwyr ACE Addysg. Byddai hyn yn gweddu ac yn alinio i'r ymarfer cwmpasu a gwblheir gan Ysgolion Iach wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer yr ysgol, a allai gael eu defnyddio i gwtogi ar y cyfnod ymgynghori gyda'r penaethiaid.

"Rwy'n credu bod yr Offeryn Parodrzydd ychydig yn rhy hir, ac mae ychydig yn rhy ailadroddus fel y mae ar hyn o bryd. Felly, rwy'n credu bod cyfleoedd i leihau'r raddfa ychydig. Achos rwy'n credu...y math arall o ystyriaeth yw faint o amser y mae'n ei gymryd i'r pennaeth fynd trwy'r cwestiynau."

Cyfweliad 8, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen

Roedd y profiad o gwblhau'r offeryn i'w weld yn amrywio ar gyfer pob ysgol unigol, fodd bynnag teimlodd un ysgol y byddai wedi bod yn ddefnyddiol iddynt dderbyn yr offeryn ymlaen llaw i'w galluogi i fyfyrto ar arfer a hel eu meddyliau cyn cwrdd. Byddai hyn yn galluogi'r pennaeth i gywain adborth gan aelodau staff eraill i gael persbectif ysgol gyfan.

"Rwy'n credu weithiau, mae'n haws myfyrio dros amser yn hytrach na chael sesiynau tair awr pan na allwch gofio pethau rydych wedi gwneud rhai blynyddoedd yn ôl neu hyd yn oed ychydig fisoedd yn ôl. Ond meddyliais ei fod yn werthfawr iawn, ces i..., cawsom sgwrs hir am rai o'r meysydd yn hytrach na rhai eraill."

Cyfweliad 21, Rheolwr Ysgol

Cydnabuwyd bod llawer o elfennau'r offeryn parodrwydd yn alinio i'r dangosyddion ysgolion iach, fodd bynnag, teimlwyd bod angen gwerthuso'r offeryn yn ffurfiol er mwyn gweld p'un a ellir ei gyfuno â'r rhestr wirio ysgolion iach, sy'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Yn yr un modd, rhagwelir y caiff y fframwaith Estyn ei ddiwygio i adlewyrchu'r newidiadau yn y cwricwlwm ysgol y disgwyllir iddynt gael eu gweithredu ar draws Cymru dros y tair blynedd nesaf. Teimlir y bydd angen i'r offeryn parodrwydd ACE gael ei ddiwygio i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

"Bydd angen i'r offeryn parodrwydd adlewyrchu'r cwricwlwm yn bendant felly... rwy'n meddwl bod pethau fel profiadau dysgu a... lles, a, wel pedwar prif ddiben Donaldson i bob pwrpas sy'n ymwneud â dinasyddiaeth weithredol, moesegol... dysgwyr gwydn a hyderus felly rwy'n meddwl os yw'r offeryn parodrwydd yn seiliedig ar y pedwar prif ddiben hynny byddwn ni ddim yn rhy bell ohoni."

Cyfweliad 1, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen

5.4 Hyfforddiant

Adroddodd yr holl staff ysgol y cynhaliwyd cyfweliadau â hwy eu bod wedi mwynhau derbyn yr hyfforddiant, a siaradant yn gadarnhaol am y pecyn hyfforddi'n gyffredinol. Canfuwyd bod yr hyfforddiant yn "cynnwys yr holl wybodaeth gefndir y mae ei angen" (Cyfweliad 8, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen), a'i fod yn darparu dealltwriaeth dda o beth yw ACE, sut i adnabod plant sydd ag ACE a sut gall trawma effeithio ar les plant a'u gallu i ddysgu.

"roedd yr hyfforddiant yno i ehangu eich gorwelion a chynyddu dealltwriaeth o beth yw ACE a'u heffaith ar les plant a'u gallu i ddysgu mewn ffordd gynhyrchiol bob dydd."

Cyfweliad 9, Rheolwr Ysgol

"Roedd yn oleuol i weld y darlun cyflawn, achos rwy'n meddwl ein bod yn tueddu i edrych ar y plant o safbwynt ble maent wedi dod ohono, ble y maent, ac yn edrych tuag at ble byddant yn mynd ar ddiwedd yr ysgol gynradd ac edrych ar y pontio hwnnw i'r ysgol uwchradd, ond nid ydym byth yn edrych y tu hwnt i hynny a beth yw'r goblygiadau potensial ar gyfer gweddill bywyd y plentyn hwnnw. Rydym yn tueddu i'w roi o'r neilltu."

Cyfweliad 29, Athro/Athrawes

5.4.1 Cynnwys yr hyfforddiant

Yn benodol, siaradodd staff yn gadarnhaol iawn am y sesiwn hyfforddiant gyntaf, pecyn generig a gyflwynwyd yn gyntaf i'r heddlu ac a addaswyd i'w ddefnyddio ar draws sectorau.³⁷ Darparodd yr hyfforddiant hwn ddealltwriaeth i fynycheion o effaith trawma ar yr ymennydd a datblygiad ffisiolegol plentyn. Teimlodd llawer o staff fod hyn yn ddefnyddiol iawn o ran eu helpu i ddeall ymddygiad y plant y maent yn eu dysgu'n well, gan gydnabod nid dewis mo'r ymddygiad a ddangosir yn y dosbarth, ond yn deillio o ddatblygiad eu hymennydd. *"Rwy'n credu ei fod yn bwysig dros ben, achos rydych yn deall yn llwyr bod eu hymennydd wedi datblygu mewn ffordd wahanol ac y byddant bob amser yn gweithredu mewn ffordd wahanol oni bai y bydd rhywun yn ymyrryd"* (Cyfweliad 23, Rheolwr Ysgol).

"Trafodom ac edrychom ar yr ymennydd ac effaith yr ACE sydd ganddynt ar yr ymennydd a sut mae'n effeithio ar ymddygiad y plant, gwelais fod hynny'n ddi-ddorol iawn. Yn wir, gwelais fod hynny'n fuddiol iawn i'w wybod yn y dosbarth."

Cyfweliad 11, Athro/Athrawes

"pan fyddwch yn clywed am y pethau hyn, mae gennych enw plentyn yn eich meddwl ac rydych yn meddwl, o, dyna pam maen nhw'n gwneud hynny. Felly roedd yn wirioneddol dda i ddeall, cael dealltwriaeth well."

Cyfweliad 16, Cefnogi Addysgu

At hynny, teimlodd yr holl gyfranogwyr fod y sgiliau cyfathrebu a ddysgwyd yn ystod yr hyfforddiant yn wych o ran effaith. Wrth ddatblygu'r hyfforddiant, cydnabuwyd er bod athrawon eisiau cefnogi plant a chymryd yr amser i siarad â nhw, yn aml gall fod yn anodd gwybod beth i'w ddweud ac mae pwysau'r swydd yn eu hatal rhag gwneud hwn yn effeithiol *"mae amser yn broblem a phan fyddwch o dan straen mae'n anodd i ni wrando'n iawn ar blant"* (Cyfweliad 1, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen).

Dysgwyd yr ymatebion gwahanol tuag at blentyn i staff, a phwysigwydd defnyddio hyfforddiant emosiynol wrth iddynt ryngweithio â phlant *"i sicrhau bod yr holl emosiynau'n cael eu gwerthfawrogi, eu derbyn a'u huniaethu â nhw"* (Cyfweliad 6, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen). Disgrifir hyfforddiant emosiynol fel *"helpu plant i labelu eu hemosiynau, gan dderbyn unrhyw emosiwn, ni waeth pa mor anodd y mae a bod yn ymwybodol o'r emosiwn sydd gennych eich hun a sut y gallai hynny fod yn dylanwadu ar eich rhyngweithio â phlant"* (Cyfweliad 6, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen).

Yn ystod cyfweiliadau, teimlodd yr holl staff ysgol fod yr hyfforddiant wedi rhoi cyfle iddynt fyfyrion ar eu harfer eu hunain wrth ymwneud â phlant, gyda llawer o staff yn cydnabod y gallant yn aml fod yn ddiystyriol tuag at blant a pheidio â darparu ymatebion priodol pan fydd plant yn mynegi emosiwn iddynt *"rwy'n credu ein bod ni i gyd wedi bod yn euog o amser ac efallai diystyru ychydig, chi'n gwybod, byddwn yn delio â hynny mewn munud, neu dewch yn ôl i fy ngweld i"* (Cyfweliad 12, Athro/Athrawes). Dywedodd yr holl staff ysgol fod yr hyfforddiant wedi cynyddu eu hymwybyddiaeth o sut maent yn gwrandao ar blant, a phwysigwydd sicrhau y gwrandewir ar ac y cefnogir yr holl blant ni waeth pa mor fach y mae eu problemau i'w gweld.

"Rwy'n credu nad oes gan lawer o'r plant hyn rywun adref i wrando amynt, felly rwy'n credu pan fydd ganddynt rywun yn yr ysgol sy'n cymryd yr amser, mae'n golygu llawer iddynt. Nid pob un ohonynt ond... rwy'n credu ei fod yn braf cael rhywun yno y maent yn gwybod y bydd yn gwrandao."

Cyfweliad 24, Cefnogi Addysgu

At hynny, canfuwyd y bydd y sgiliau a ddatblygwyd yn yr hyfforddiant yn galluogi'r holl staff i weithredu fel oedolyn yr ymddiriedir ynddo ar gyfer plant, gan gydnabod nad yw plentyn bob amser eisiau siarad ag athro/athrawes. Adroddwyd y gall fod yn anodd yn aml i wybod beth i'w ddweud wrth blentyn pan fyddant yn rhannu pethau, er hynny teimlwyd y bydd yr hyfforddiant yn *"grymuso ysgolion i deimlo'n hyderus wrth ymateb i unrhyw fath o anhawster gysylltiedig ag emosiwn y maent yn dod ar ei draws"* (Cyfweliad 6, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen).

"Weithiau mae angen i ni fod yn ymwybodol na allwn wneud unrhyw beth amdano. Felly, mae'n cael y... mae'n adeiladu'r berthynas fel bod y plant yn gwybod y gallant siarad â chi."

Cyfweliad 19, Athro/Athrawes

Siaradodd yr holl gyfranogwyr am drydedd sesiwn yr hyfforddiant, y broses PATH. Anelodd hwn at alluogi ysgolion i ddatblygu gweledigaeth o sut y byddai eu hysgol wedi'i llywio gan ACE yn edrych, a rhoi cynllun ar waith i gyflawni *"cynllun tymor hwy mwy sydd â mwy o ffocws"* (Cyfweliad 5, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen). Teimlodd cyfranogwyr a fu'n ymwneud â datblygu a hwyluso'r hyfforddiant fod y PATH yn gweddu'n dda i'r gwaith ACE gan iddo alluogi ysgolion i bennu targedau dros gyfnod amser hwy, gan ymgorffori darpariaethau cefnogaeth a lles sydd eisoes yn bodoli yn yr ysgol, ac *"edrych ar bwy y byddent yn eu cofrestru, y mathau o gryfderau sydd ganddynt, a'r camau nesaf hyn i gyrraedd eu gweithredoedd"* (Cyfweliad 7, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen).

Cafwyd barn gymysg ymysg staff ysgolion am werth y broses PATH. Yn gyffredinol, cydnabuodd staff ysgolion fod y sesiynau PATH yn ddefnyddiol o ran helpu nhw i bennu gweledigaeth, fel ysgol, o ble y maent a ble maent eisiau bod trwy gamau y gellir eu cyflawni: *"Meddyliais fod y broses go iawn*

o wneud e'n dda iawn, yn enwedig weithio'n ôl o'r amcan terfynol, oherwydd fel arfer rydych yn tueddu gweithio'r ffordd arall o gwmpas" (Cyfweliad 27, Rheolwr Ysgol). Amlygwyd pwysigrwydd datblygiad parhaus o fewn yr ysgol, gan roi pwyslais ar welliant parhaus wrth gydweithio â phlant heb adael i rwystrau fynd yn y ffordd: *"dylem fod yn anelu at lawer o'r pethau sydd arno [PATH] ac ym, chi'n gwybod, ceisio peidio â gadael i bethau eich stopio chi, rydym bob amser eisiau gwella'r ysgol, rydym bob amser eisiau ei gwneud yn well, nid ydym byth yn hapus gyda beth sydd gennym"* (Cyfweliad 26, Cefnogi Addysgu).

Teimlwyd bod y PATH yn ddull effeithiol o annog ysgolion i ddatblygu amcanion, yn enwedig trwy ddull ysgol gyfan gyda'r holl staff yn ymwneud â datblygu gweledigaeth yr ysgol. Adroddodd rheolwyr ysgol fod yr ysgol yn gallu bod yn fwy creadigol yn ystod y broses PATH, a bod staff yn cyflwyno syniadau na fyddent wedi meddwl amdanynt eu hunain: *"i mi, fel arweinydd ysgol, roedd yn braf clywed beth oedd gan bobl eraill i'w ddweud. mae'n debygol na fyddai gennyf yr amser fel arfer"* (Cyfweliad 21, Rheolwr Ysgol). Er hynny, teimlodd nifer bach o gyfranogwyr nad oedd modd cyflawni llawer o'r syniadau a bod, ar adegau, y sesiwn wedi mynd ychydig yn wirion o ran yr amcanion roeddent yn eu pennu ar gyfer eu hunain *"dylem fod yn anelu'n fawr a dylem fod yn anelu'n uchel, nid anelu'n dwp achos roedd rhywfaint ohono'n, chi'n gwybod, aeth e fach yn wirion"* (Cyfweliad 26, Cefnogi Addysgu).

At hynny, adroddodd llawer o'r staff nad oeddent yn disgwyl i unrhyw newid ddod o'r broses PATH, gyda rhai'n teimlo y gallent fod wedi elwa'n well ar y sesiwn trwy ddatblygu sgiliau i'w hymwreiddio i'w harfer. Adroddodd nifer o staff eu bod wedi gwneud nifer o PATHs yn flaenorol y teimlant nad oeddent wedi cyfeirio na newid arfer o fewn yr ysgol. Teimlodd llawer o staff na ellir cyflawni'r amcanion yn realistig o fewn cyllidebau ac adnoddau cyfredol ac yn benodol gyda'r blaenoriaethau cystadleuol sy'n eu hwynebu: *"Rwy'n credu nad oes modd cyflawni'r hyn yr oeddem eisiau ei gyflawni gyda'r adnoddau sydd gennym, a byddai wedi bod yn wych gadael y sesiwn hyfforddi honno a meddwl, reit, wel, rydym yn mynd i wneud hwn, mae modd cyflawni hyn. Ond roedd hyn oll i'w weld yn freuddwyd ofer"* (Cyfweliad 29, Athro/Athrawes).

"Treuliom y sesiwn gyfan ar adeiladu'r freuddwyd, adeiladu'r freuddwyd ryfeddol hon ond dydyn ni ddim yn gwybod sut i gyrraedd y freuddwyd honno achos ei fod yn freuddwyd. Nid oeddem yn gwybod sut i roi hynny ar waith."

Cyfweliad 15, Cefnogi Addysgu

Fodd bynnag, roedd yn ymddangos y cymerwyd rhai camau eisoes i ddechrau gweithredu rhai o'r amcanion a nodwyd yn y PATH, gydag ysgolion yn adrodd am rai o'r newidiadau cadarnhaol a chynlluniau sydd wedi dechrau cael eu llunio. Er enghraifft, teimlodd un ysgol y byddai cael ieir yn braf o safbwynt lles y plant, ac ers hynny maent wedi dod o hyd i'r rhain gan riant. Roedd ysgol arall wedi bwriadu datblygu gofod lles ar gyfer staff a chegin i ddysgu plant am goginio, ac maent wedi dechrau gweithio gyda phenseiri i adeiladu cynlluniau, ac yn gweithio tuag at sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer hyn.

"roedd yr holl syniadau breuddwyd ofer hyn... wel bydda i byth yn eu cyflawni gan nad oes gennym yr arian, nid oes gennym hyn, nid oes gennym y llall. Ond ar ôl myfyrio arno am gwpl o fisoedd fy hun a thros y Nadolig, meddyliais, wel mae 'na ffordd o'i gwmpas. Mi allen ni wneud e."

Cyfweliad 5, Rheolwr Ysgol

5.4.2 Cyflwyno'r hyfforddiant

Rhododd cyfranogwyr gefnogaeth bendant i natur ryngweithiol yr hyfforddiant; cydnabod bod cymryd rhan yn ymarferol wedi cynorthwyo cofio a dysgu *"Roeddwn yn hoffi'r pethau ymarferol. Felly, pryd bynnag y cymeron ni ran. Rwy'n meddwl eich bod yn cofio pethau'n fwy"* (Cyfweliad 16, Cefnogi Athrawon).

"Meddyliais yr oedd yn eithaf da i gael yr enghreifftiau bywyd go iawn a'r chwarae rôl

a phethau fel hynny i gael pobl i feddwl ac yna sylweddoli pa mor anodd yr oedd."

Cyfweliad 27, Uwch Reolwr

Gyda hyn mewn cof, nododd nifer o gyfranogwyr y bydden wedi hoffi cynnwys mwy o elfennau chwarae rôl ac ymarferol yn yr hyfforddiant mewn perthynas â 'dad-bacio' sefyllfaoedd penodol.

"Byddai wedi bod yn well cael ychydig yn fwy o sesiynau wedi'u modelu i ni, ynglŷn â'r math o ddull ACE i ddelio â sefyllfaoedd gwahanol. Ac wedyn cael y cyfle i roi hynny ar waith."

Cyfweliad 29, Athro/Athrawes

Ymatebodd cyfranogwyr yn gadarnhaol iawn i'r fideos ac animeiddiadau yn yr hyfforddiant. Ystyriwyd yn benodol bod gan y fideo ACE gryn dipyn o ergyd. Yn benodol, siaradwyd yn gadarnhaol iawn am³⁹: *"y peth mwyaf diddorol oedd y fideo. Mae'r fideo yn gwneud i chi feddwl ac yn bersonol, rwy'n credu y dylai hynny fod ar y teledu. Rwy'n credu y dylid ei gyflwyno er mwyn i bawb fod yn ymwybodol. Felly meddyliais fod hynny'n ddefnyddiol iawn"* (Cyfweliad 10, Athro/Athrawes).

"mae cylch yr ydym i gyd yn ymdrechu'n ddiwyd i'w dorri. Mae llawer iawn o blant sy'n troi i fyny sydd yn union fel eu tadau neu eu mamau, ac sy'n dangos yn union yr un fath o ymddygiad. Felly, jest meddwl, o aros eiliad, mae hyn mor wir."

Cyfweliad 19, Athro/Athrawes

Aeth nifer o gyfranogwyr mor bell ag i awgrymu y dylid estyn dangos y fideo i rieni a phlant i'w helpu hysbysu nhw ynghylch effaith ACE.

"Rwy'n credu y gallai hynny fod yn rhywbeth y gallai ein plant uniaethu ag ef oherwydd bod llawer ohonynt yn gweld beth sy'n digwydd oherwydd diffyg cyfrifoldeb eu rhieni drostynt, maen nhw'n beio eu plant, felly maen nhw'n gweld beth sy'n mynd ymlaen yn eu hamgylchedd fel eu bai nhw"

Cyfweliad 14, Cefnogi Addysgu

Hyfforddwyr/Hwyluswyr:

Ar y cyfan croesawyd cyflwyniad yr hyfforddiant yn dda ar draws yr holl ysgolion. Cydnabuodd cyfranogwyr trwy gydol y tair sesiwn fod yr arbenigedd a gwybodaeth a ddarparwyd gan yr hyfforddwyr ochr yn ochr â'r cymysgedd o brofiad eang ar draws meysydd gwahanol fel seicoleg addysg, gwaith cymdeithasol a chefnidiroedd addysgu wedi cyfoethogi'r cyflwyniad a'i fod yn rhan annatod o'i lwyddiant.

"Rwy'n credu ei fod yn bwysig deall, chi'n gwybod, bod yr hyn yr ydym yn ei ddarparu ar gyfer plant fel unigolion, yn eu datblygiad cyffredinol, yn dod o ystod o ffynonellau gwahanol, ac roedd yn ddiddorol gweld agweddau pobl ar bethau, sydd ychydig bach yn wahanol i'w gilydd. Mae'n braf defnyddio'r arbenigedd unigol hefyd, gan nad oes neb sy'n arbenigwr mewn popeth... fe wnaeth y cyfan yn ffres."

Cyfweliad 9, Rheolwr Ysgol

"Roedd yn braf cael strwythur eang o farn a phrofiad, a gwybod bod y bobl a oedd yn ei gyflwyno wedi bod yno mewn gwirionedd ac wedi profi llawer o'r hyn a oedd yn cael ei gyflwyno."

Cyfweliad 14, Cefnogi Addysgu

Amgylchedd/hyd y sesiwn:

Cyflwynwyd yr hyfforddiant dros hanner diwrnod o hyfforddiant mewn swydd a dwy sesiwn gyda'r hwyr, gydag un ysgol yn derbyn eu hyfforddiant i gyd mewn sesiynau gyda'r hwyr. Ystyriwyd mai'r sesiynau gyda'r hwyr oedd yr amser lleiaf effeithiol i ennyn diddordeb staff; cydnabuwyd hyn yn gyffredinol, o staff ysgol trwodd i ddatblygwyr/hwyluswyr y rhaglen. Mynegodd nifer o gyfranogwyr iddynt deimlo'n rhy flinedig i ymwneud yn llawn â'r deunyddiau ar ôl diwrnod o addysgu *"i ni,*

wedi'i dagio ymlaen ar ddiwedd y dydd, dydw i ddim yn meddwl bod pobl yn fwyaf parod i wrando" (Cyfweliad 13, Athro/Athrawes), gan nodi bod yr hyfforddiant yn ddwys iawn ac yn anodd canolbwyntio arno pan oeddent yn flinedig, adroddodd eraill fod eu sylw wedi'i dynnu gan bethau personol (e.e. gofal plant).

"Mae awydd bwyd arnoch, rydych yn flinedig, efallai eich bod wedi cael diwrnod gwael a dyna'r lle olaf rydych eisiau bod bryd hynny."

Cyfweliad 18, Cefnogi Addysgu

"Teimlais fod y sesiynau gyda'r hwyr yn...roeddent yn rhy hir ac mae'r gwaith yn rhy bwysig i gael ei gyflwyno pan fydd staff eisoes yn flinedig ac wedi cael diwrnod hir yn addysgu."

Cyfweliad 8, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen

At hynny, canfyddiad staff ysgolion a hwyluswyr yr hyfforddiant oedd bod yr hyfforddiant yn cael ei ruthro yn ystod y sesiynau gyda'r hwyr, ac na roddwyd digon o amser i ymdrin â'r deunyddiau'n briodol.

"Tuag awr olaf y sesiynau, roeddem yn rhuthro i ryw raddau. A dyna'r peth olaf rydych ei eisiau pan fyddwch yn ceisio cyflwyno'r negeseuon allweddol hyn ac efallai mewn rhai achosion, cyflwyno gwybodaeth newydd y mae angen ei chymathu a'i deall."

Cyfweliad 8, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen

"Mae'n debyg y gallech ei wneud dros gwpl o ddiwrnodau, i'w hymwreiddio gyda staff achos ei bod yn daith frysiog, nid yw bob amser yn rhoi amser i chi ymhelaethu ar bethau a thrafod pethau ychydig ymhellach."

Cyfweliad 27, Rheolwr Ysgol

Teimlodd y mwyafrif o gyfranogwyr fod y sesiwn hyfforddiant gyntaf sy'n ymdrin ag 'ymwybyddiaeth ACE' yn gweithio'n dda fel sesiwn unigol, gyda digon o amser yn cael ei dreulio ar y pwnc. Er hynny, teimlwyd y gellir crynhoi sesiynau dau a thri ychydig, gyda chefnogaeth bendant gan staff ysgolion a datblygwyr a hwyluswyr y rhaglen i gynnal yr hyfforddiant ar draws o leiaf un diwrnod hyfforddiant mewn swydd.

"Cawsom dair sesiwn hyfforddiant mewn swydd ond meddyliais y gallai'r ail sesiwn a'r drydedd sesiwn fod wedi'u crynhoi mewn un."

Cyfweliad 15, Cefnogi Addysgu

"Byddwn i'n dweud y byddent yn well yn y dyfodol...mae ysgolion yn cael diwrnod ACE, diwrnod cau hyfforddiant mewn swydd ar gyfer staff yr ysgol gyfan, lle i bob pwrpas y bore yw'r sesiwn ymwybyddiaeth ACE ac efallai rydych yn cael diwrnod hwy, felly rydych yn gorffen efallai... hanner awr wedi pedwar, pump o'r gloch yn hytrach na hanner awr wedi tri, ac rydych yn ffitio trawma a gwydnwch i mewn yn y prynhawn ac wedyn arwain i mewn i PATHS fel y caiff i gyd ei wneud mewn un diwrnod."

Cyfweliad 4, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen

5.4.3 Effaith yr hyfforddiant ar wybodaeth ac arfer

Gofynnwyd i gyfranogwyr sut maent yn teimlo bod yr hyfforddiant wedi dylanwadu ar eu gwybodaeth ac i ddisgrifio ymhellach sut mae'r hyfforddiant wedi effeithio a dylanwadu ar eu harfer o fewn eu lleoliad ysgol.

Effaith ar wybodaeth:

Nododd llawer o staff fod yr hyfforddiant wedi annog nhw i feddwl yn wahanol am yr ymddygiad a ddangoswyd gan blentyn tra yn yr ysgol. Anogodd nhw i feddwl yn fanylach am y rhesymau dros yr ymddygiad, i fod yn 'llai adweithiol' ac ystyried y darlun ehangach a'r goblygiadau y gallai fod ar gyfer y plentyn oherwydd eu profiadau bywyd y tu allan i'r ysgol.

"Mae wedi fy ngwneud yn fwy ymwybodol o, chi'n gwybod, y nifer o ACE gwahanol y gall fod yno. Mae wedi fy ngwneud yn ymwybodol ohono, i chwilio'n fwy amdano."

Cyfweliad 10, Athro/Athrawes

"Rwy'n credu ei fod wedi agor llygaid pawb ynglŷn â'r pethau sy'n digwydd y tu allan i'r ysgol ar gyfer y plant hyn. Yn bendant."

Cyfweliad 11, Athro/Athrawes

Mewn rhai achosion, cydnabuwyd er bod y deunydd dan sylw ynglŷn â gweithio gyda phlant sydd wedi profi trawma *"ddim o reidrwydd yn rhywbeth sy'n newydd sbon iddynt"* (Cyfweliad 23, Uwch Reolwr), adnabuwyd bod yr hyfforddiant wedi helpu ymwreiddio a *"dyfnhau gwybodaeth ynglŷn â'r mathau hyn o faterion"* (Cyfweliad 23, Uwch Reolwr).

"Rwy'n credu y bu fy nealltwriaeth ohono cyn i mi fynd ar y cwrs yn dda iawn... cyn i ni dderbyn unrhyw hyfforddiant ACE ond rwy'n meddwl bod ym, cael yr hyfforddiant ACE wedi helpu achos ei fod wedi rhoi ychydig yn fwy o strwythur i weld ym, faint neu faint o bethau gwahanol a all ddylanwadu."

Cyfweliad 25, Athro/Athrawes

Mae gwybodaeth a gafwyd trwy'r hyfforddiant eisoes wedi dechrau helpu staff i ddarllen sefyllfaoedd yn wahanol ac mae'n adnabod risgiau potensial ar gyfer disgyblion. Un enghraifft a ddarparwyd gan un aelod staff oedd plentyn *"wrth ddarllen ei hwyliau, gallwn farnu...Cwpl o wythnosau'n ôl, fe aeth yn dawel iawn ac roedd pethau o chwith gartref. Felly fe wnaethom godi hynny"* (Cyfweliad 18, Cefnogi Addysgu). O ganlyniad i nodi'r newid hwn mewn ymddygiad rhoddwyd amser i'r plentyn siarad â'r athro/athrawes a adnabuwyd ganddo fel oedolyn yr ymddiriedir ynddo/ynddi, a arweiniodd at ddatgeliad a thrafodion amddiffyn plant dilynol.

Effaith ar arfer:

Yn y cyfnod byr ers yr hyfforddiant, cydnabuodd mwyafrif staff yr ysgol fod y dysgu y maent wedi'i gaffael eisoes yn dechrau dylanwadu'n gadarnhaol ar eu harfer. Nododd llawer o gyfranogwyr eu bod wedi dechrau addasu'r ffordd y maent yn rhyngweithio â'r plant y maent yn cydweithio â hwy o ran sut maent yn ymdrin ag ymddygiad anodd a'u bod yn fwy ymwybodol o sut y gallai eu gweithredoedd gael eu hystyried gan blentyn wrth iddynt ddod yn nes neu gyflwyno eu hunain.

"Rwyf bellach yn fwy ymwybodol o fy iaith gorff pam wyf yn brasgamu ar draws yr iard."

Cyfweliad 14, Cefnogi Addysgu

"Rwy'n gwybod fy mod bellach yn llawer mwy ymwybodol...os bydd plentyn yn cynhyrfu [...] rydym ar fin gwneud rhywbeth, dydw i ddim yn ei roi o'r neilltu bellach, dydw i ddim yn rhoi'r ateb yr oeddwn i'n arfer ei roi, fel 'na, dere 'mlaen ffwrdd â ni i'r gwasanaeth... mae'n golygu peidio ag anwybyddu rhywbeth sydd yn amlwg yn bwysig i'r plentyn".

Cyfweliad 28, Cefnogi Addysgu

Mewn nifer o achosion mae hyfforddiant wedi helpu i siapio a dylanwadu ar weithdrefnau ysgol presennol a rhai newydd, gan anelu at gofnodi 'mân bethau' a drafodir yn aml â phlant ymysg staff yn anffurfiol. Mewn un ysgol, mae cofnod pryderon wedi'i ddatblygu i gofnodi unrhyw broblemau sy'n cael eu hadnabod gyda phlant, y mae gan yr holl staff fynediad iddo ar gyfer dealltwriaeth a rennir o'r disgyblion ar draws yr ysgol.

"Er mwyn mynnu rheolaeth ar ein gweithdrefnau yn yr ysgol, crëwyd y cofnod pryderon sy'n rhestru pob plentyn yn yr ysgol bellach ac rydym yn cofnodi unrhyw nodiadau neu sgysiau y mae staff yn eu cael mewn perthynas â'r plentyn hwnnw fel y gallwn adeiladu darlun ehangach y gallwn wedyn eu 'hypergylltu' â PPN ac adroddiadau heddlu a dogfennau amddiffyn plant os oes gennym y rheiny neu unrhyw fath arall o gynlluniau dysgu neu nodiadau sy'n gysylltiedig â'r plentyn...mae bellach yn cario

'mlaen gyda'r plentyn hwnnw trwy gydol yr ysgol. Felly os bydd athrolathrawes newydd yn eu codi bydd ganddynt y darnau gwybodaeth hynny a'r 'darlun ehangach'."

Cyfweliad 23, Rheolwr Ysgol

Rhannodd un ysgol fod y 'dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE' wedi cefnogi'r ysgol i ystyried opsiynau heblaw cosbau wrth ddelio ag ymddygiad annerbyniol ymysg disgyblion: *"dydyn ni ddim yn siarad am ddiarddel bellach neu'r cyfryw beth, rydym yn siarad...efallai colli'r egwyl i dreulio amser gydag oedolion i drafod eu hymddygiad...mae'n rhoi cyfle i ni siarad â'r plant am eu hymddygiad a rhoi ein safbwynt arno...fel staff rydym bellach yn ymwrthod llawer mwy rhag gwrthdaro â phlant"* (Cyfweliad 9, Rheolwr Ysgol).

Rhannodd rhai aelodau staff eu bod yn teimlo'n *"llawer mwy hyderus wrth ymdrin â beth bynnag yw'r sefyllfa mewn gwirionedd gyda phlentyn"* (Cyfweliad 17, Cefnogi Addysgu) ers yr hyfforddiant gan fod ganddynt ddealltwriaeth llawer gwell o'r materion o gwmpas ACE erbyn hyn. Mae effaith yr hyfforddiant ar arfer wedi'i adnabod gan reolwr ysgol o ran *"newid mewn agweddau athrawon tuag at blant penodol"* (Cyfweliad 23, Rheolwr Ysgol).

At hynny, mae nifer o staff wedi adnabod yr effaith sydd gan yr hyfforddiant ar les staff, gyda staff yn gofalu am eu hunain yn well yn ogystal â gofalu am ei gilydd. Rhannodd staff iddynt deimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n fwy gan gydweithwyr; *"Rwy'n teimlo o dan lai o bwysau mewn gwirionedd erbyn hyn, a'r rheswm yw achos bod pawb yn ymwneud â hyn yn yr ysgol erbyn hyn...roedd pawb yn arfer dod ataf am y peth lleiaf [...] nid ydynt erbyn hyn, sy'n braf iawn....mae ganddynt strategaethau eu hunain o'r hyfforddiant hwn [i ddelio â phlentyn]"* (Cyfweliad 33, Athro/Athrawes).

"Mae'n rhaid i mi ddangos dull wedi'i lywio gan ACE tuag at fy staff; mae angen cefnogaeth emosynol arny'n nhw hefyd... Mae wedi gwella fy ngallu i hidlo'r hyn sydd yn fy mhen ac wedyn mae'n dod allan o fy ngheg ychydig yn well."

Cyfweliad 9, Rheolwr Ysgol

5.4.4 Datblygu hyfforddiant a gwelliannau

Nododd cyfranogwyr gwpl o feysydd unigryw y teimlant y gellir datblygu a gwella'r hyfforddiant ynddynt. Yn ystod y cyfweliadau mynegodd nifer o athrawon a staff cefnogi addysgu nerfusrwydd ynghylch gweithio gyda phlentyn yr adnabyddir bod ganddo ACE, a'r risgiau cysylltiedig. Teimlodd nifer aruthrol o staff ysgolion, er eu bod yn gadarnhaol o ran elfen ymwybyddiaeth ACE yr hyfforddiant a'r wybodaeth gynyddol y darparodd iddynt ynglŷn â'r pwnc, nad oedd yn mynd yn ddigon pell o ran hysbysu nhw am beth i'w wneud ar ôl i ACE gael eu hadnabod, a sut i helpu'r plentyn hwnnw:

"aethoch chi â ni at ymyl y dibyn ac wedyn ein gadael ni yno. Ac roedd disgwyl wedyn i ni fwrw 'mlaen ag ef, chi'n gwybod?"

Cyfweliad 14, Cefnogi Addysgu

Nododd llawer o gyfranogwyr y byddent wedi hoffi cael mwy o arweiniad ar sut i reoli ymddygiadau yn y dosbarth gan ddefnyddio dull wedi'i lywio gan drawma. Adlewyrchwyd hyn yn y cyfweliadau gyda datblygwyr a hwyluswyr y rhaglen, sy'n bwydo'n ôl y byddent wedi hoffi treulio mwy o amser yn cyflwyno ar y 'ffenest goddefgarwch' ac *"annog staff i feddwl am blentyn sydd yn aml wedi'i ddysreoleiddio ac yn symud rhwng lefel gynnwrf uchel yn hytrach ne lefel gynnwrf is a meddwl am ddulliau o ddod â nhw'n ôl at eu ffenest goddefgarwch a datblygu peth bach proffil un dudalen o'r hyn y gallwch ei wneud i gefnogi'r plentyn hwnnw pan fyddant yn y cyflwr hwn"* (Cyfweliad 6, Datblygwr/Hwylusydd Rhaglen).

"...dod i fyny gyda'r sefyllfa, fel y bore 'ma er enghraifft, roedd y plentyn hwnnw'n ymladd, cicio, bwrw, cnoi. Aethom ag ef i ffwrdd o'r sefyllfa honno, mynd ag ef allan o'r dosbarth, fe redodd i lawr y coridor a chuddiodd mewn ystafell ddosbarth arall. Wedyn gallen ni wneud rhywbeth fel, sut allwch chi drin y sefyllfa honno gan wybod yr ACE y gallai fod gan y plentyn hwnnw? Wedyn mi allen ni wneud fath o beth cwestiwn ac ateb, wedyn gallwch

fynd yn ôl ychydig i agwedd chwarae rôl yr hyn y gallai'r plentyn fod wedi'i wneud."

Cyfweliad 15, Cefnogi Addysgu

Mae'r adborth gan y mwyafrif o staff yr ysgolion yn awgrymu y byddai'r hyfforddiant wedi elwa o ddefnyddio enghreifftiau ysgol go iawn i ddarparu enghreifftiau ymarferol; felly, mae angen i gynnwys ganolbwyntio'n fwy ar gymhwyso strategaethau ac offer ar sut i ymwneud â phlentyn sydd wedi'i adnabod fel agored i niwed a sut i weithio gyda'r plentyn hwnnw i wella neu newid ei sefyllfa mewn ffordd sy'n benodol i'r lleoliad addysg.

"Roeddwn i'n gobeithio y byddai'r ail a'r drydedd wythnosau efallai wedi rhoi dulliau i ni ddelio ag ACE, a syniadau a strategaethau. Ond rwy'n teimlo fel y dywedwyd wrthym beth yw ACE ac rwy'n llawer mwy ymwybodol, [...] ond dydw i ddim yn gwybod o hyd beth i'w wneud gyda hynny"

Cyfweliad 12, Athro/Athrawes

Awgrymwyd dull hyfforddiant gwydnwch ehangach, gan y dylai hyn gwmpasu strategaethau ar gyfer staff ysgolion i'w galluogi i ddysgu plant ar sut i weithio trwy fod yn agored i niwed a risg, yn ogystal ag ymdrin â gwydnwch a'i ddatblygu er lles rhieni, y gymuned a staff yr ysgol.

"...gwydnwch, gallech chi dreulio prynhawn neu ddiwrnod cyfan yn gwneud dim ond gwydnwch. Gwydnwch ar gyfer staff, gwydnwch ar gyfer plant, ar gyfer teuluoedd, ar gyfer pobl yn y gymuned. Felly, doedd dim digon o amser i wneud hyn yn iawn, felly rwy'n tybio nid mater na fyddwn yn ei wneud mohono, dim ond y byddem yn ei wneud mewn ffordd fyrrach, rwy'n meddwl."

Cyfweliad 5, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen

Gan fyfyrion ar yr hyfforddiant cydnabuodd un hwylusydd y byddai treulio mwy o amser ar weithgaredd y fframwaith gwydnwch wedi bod yn fyw buddiol ar gyfer staff, a bod hyn efallai yn elfen a ddylai fod â mwy o ffocws wrth symud ymlaen.

"byddai gweithgaredd y fframwaith gwydnwch mor, mor ddefnyddiol petai gennym grŵp o dri neu grŵp o ddau gan ddewis un rhan o'r fframwaith gwydnwch, meddwl am sut mae'r ysgol yn hwyluso'r ffurf honno ar wydnwch ar hyn o bryd a'r hyn y gallai wneud mwy ohono."

Cyfweliad 6, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen

Gan bwysleisio'r dull ehangach hwn, trwy gydol y cyfweliadau cydnabuodd llawer o gyfranogwyr fod mynd yn ysgol wedi'i llywio gan ACE yn ymwneud â nid dim ond cydweithio â'r plant, ond gyda rhieni a theuluoedd hefyd. Teimlwyd y gellir gwella'r hyfforddiant ymhellach trwy ymgorffori syniadau ynglŷn â "chefnogi'r teulu ac ennyn diddordeb y teulu i oresgyn rhwystrau i ennyn diddordeb i geisio cefnogi newid" (Cyfweliad 2, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen).

5.5 Cynllun gweithredu a phecyn adnoddau ysgol

Elfennau terfynol y dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE oedd y cynllun gweithredu a'r pecyn adnoddau, a anelodd at gefnogi'r ysgol i ddatblygu a gweithredu systemau i fod yn ysgol wedi'i llywio gan ACE a chynnal y dull y tu hwnt i fywyd y prosiect. Darparwyd cynllun gweithredu ysgol ar gyfer pob ysgol o fewn y cynllun peilot ar ôl i'r drydedd sesiwn hyfforddi gael ei chwblhau, a ddefnyddiodd y broses PATH sydd eisoes wedi'i sefydlu. Yn y cyfweliadau gofynnwyd i gyfranogwyr roi sylwadau ar broses y cynllun gweithredu a sut y teimlant ei fod wedi helpu'r ysgol i symud ymlaen tuag at gael ei llywio gan ACE. Fodd bynnag, oherwydd graddfeydd amser cyflwyno'r hyfforddiant nid oedd y cynlluniau gweithredu wedi'u cyflwyno i'r pennaeth neu wedi cael amser i gael eu gweithredu ganddynt o fewn y cyfnod gwerthuso, felly cofnodwyd gwybodaeth gyfyngedig am y pwnc.

Teimlwyd y dylai'r cynllun gweithredu fod yn ddogfen ddefnyddiol i gyfeirio cynlluniau gwella ysgolion a'r gobaith yw "y bydd ymgynghorydd her yr ysgol o'r Consortiwm Addysg yn eistedd i lawr gyda'r tîm sydd wedi bod yn llunio'r cynllun gweithredu i dynnu'r pwyntiau allweddol hynny i mewn

i gynllun gwella'r ysgol. Ac eto, mae'n creu'r cyswllt â'r hyn sy'n wirioneddol bwysig i ysgolion fel eu bod yn gweld bod y gwaith hwn ar ACE a lles yn gysylltiedig yn agos iawn â sut mae'r ysgolion yn mynd ati i wella" (Cyfweliad 3, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen).

Yn gyffredinol, roedd y cyfranogwyr hynny sydd mewn swyddi rheoli ysgolion yn gadarnhaol am y broses sy'n bodoli i sefydlu cynllun gweithredu ysgol i ymdrin ag ACE, gan deimlo ei bod yn darparu llwyfan a allai fod yn ddefnyddiol i gyfeirio eu cynlluniau gwella ysgolion yn hytrach nag ychwanegu at lwythi gwaith presennol.

"Bydda i'n cwrdd â'r arweinydd ysgolion wedi'u llywio gan ACE a'r arweinydd ysgolion iach mewn cwpl o wythnosau i gytuno ar y cynllun gweithredu, i bob pwrpas. Felly rwy'n gobeithio y bydd y camau gweithredu'n rhywbeth y byddwn yn gallu ffitio i'n cynllun gwella ysgol yn hytrach na bod yn rhywbeth ategol."

Cyfweliad 21, Rheolwr Ysgol

Dylid rhoi ystyriaeth i werth dychwelyd i gynlluniau gweithredu'r ysgolion tua diwedd y flwyddyn ysgol, i werthuso i ba raddau y mae'r cynllun wedi integreiddio i welliant yr ysgol a pha effaith a gawsai ar gefnogi staff i ddatblygu eu hysgol mewn dull wedi'i llywio gan ACE.

Mae adborth gan ddatblygwyr a hwyluswyr hyfforddi'n awgrymu nad oedd elfen adnoddau'r dull wedi'i datblygu a'i bod dal yn destun ystyriaeth ar adeg gwerthuso. Yn y pen draw, ystyriwyd y gallai Ysgolion iach chwarae rôl wrth ddarparu'r adnoddau: *"...gan fod Ysgolion iach yn gyfarwydd â gwneud cynlluniau gweithredu, efallai mai nhw yw'r rhai i symbylu'r agwedd honno arno o ran dod o hyd i'r adnoddau y mae eu hangen ar yr ysgolion i lwyddo yn hynny o beth"* (Cyfweliad 1, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen). Teimlwyd nad oedd elfen adnoddau'r dull yn rhan annatod o symbylu'r dull hwn ymlaen ac, er y gellir darparu adnoddau a chynlluniau gwers generig, y gellir defnyddio adnoddau sydd eisoes yn bodoli: *"mae cymaint o sdwff sydd eisoes yn bodoli, nid ydym eisieu dweud wrth ysgolion yn y dyfodol beth y dylent fod yn ei wneud a chael gwared ar un rhaglen waith sydd wedi gweithio'n eithaf llwyddiannus er mwyn ymgymryd â rhywbeth yr ydym yn dweud bod yn rhaid iddynt wneud hyn, a hyn a'r llall"* (Cyfweliad 4, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen).

5.6 Ystyriaethau ar gyfer 'cyflwyno'r' dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE

Cafwyd cefnogaeth gref ymysg cyfranogwyr dros gyflwyno dull ysgol wedi'i lywio gan ACE y tu hwnt i ardal y cynllun peilot, i gynnwys pob lefel addysg (h.y. ysgolion meithrin, cynradd ac uwchradd) ac i ardaloedd awdurdod lleol eraill ar draws Cymru.

"Rwy'n credu y gallai fod yn rym newid cymdeithasol ac mae angen buddsoddi mewn, nid dim ond yr hyfforddiant, ond i bob ysgol ymrwymo iddo. Rwy'n credu y gallai hyn... rwy'n credu o ddifrif fod gan ACE y potensial i newid cymunedau".

Cyfweliad 9, Rheolwr Ysgol

Datblygwyd a chyflwynwyd yr hyfforddiant ar gyfer ysgolion cynradd, fodd bynnag, siaradodd llawer o gyfranogwyr am bwysigrwydd addasu'r hyfforddiant hwn i'w gyflwyno i ysgolion uwchradd, i sicrhau cefnogaeth barhaus ar ôl gadael yr ysgol gynradd: *"mae angen i'r ysgol uwchradd fod yn rhan ohono bellach gan ein bod ni'n ysgolion bwydo iddynt"* (Cyfweliad 14, Cefnogi Addysgu).

"Mae angen iddo barhau i'r ysgol uwchradd gan fod cymaint o newid o'r ysgol hon i'r ysgol uwchradd ac mae hynny [y dull wedi'i lywio gan ACE] yn rhywbeth a ddylai fod yn gyson trwy gydol pob ysgol [ar gyfer y plentyn hwnnw]."

Cyfweliad 18, Cefnogi Addysgu

Mae angen nifer o ystyriaethau i addasu'r hyfforddiant ar gyfer ysgolion uwchradd, gan gynnwys gwneud y deunyddiau'n fwy priodol ac yn addas i oedran ac amgylchedd yr ysgol uwchradd *"rwy'n credu y dylai'r sefyllfaoedd ganolbwyntio'n fwy ar yr ysgol uwchradd achos bod Ruby, plentyn y sefyllfaoedd yn blentyn ysgol gynradd i raddau helaeth"* (Cyfweliad 6, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen).

"Felly gallai'r pwyslais mewn ysgolion uwchradd ar flociau adeiladu gwydnwch disgyblion fod ychydig yn wahanol. Felly os ydym yn siarad o hyd am yr oedolyn sydd bob amser ar gael, mewn ysgolion cynradd byddech yn siarad â'r athrawon ysgol gynradd am hynny. Ond yn yr ysgolion uwchradd, gallai'r oedolyn sydd bob amser ar gael fod yn weithiwr ieuencid sydd wedi'i leoli yn yr ysgol, neu'r cwmsler ysgol, neu bennaeth blwyddyn, neu arweinydd bugeiliol".

Cyfweliad 3, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen

Mae angen rhoi sylw pellach i faint grwpiau wrth ystyried addasu'r hyfforddiant, gan fod gan ysgolion uwchradd lefelau staffio llawer uwch nag ysgolion cynradd "Dwi ddim yn siŵr y gallech ei wneud ar gyfer 150 o bobl. Rwy'n credu y byddech yn ei ddyfrio fe i lawr cymaint na fyddai'n effeithiol" (Cyfweliad 5, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen). Yn draddodiadol, datblygwyd yr hyfforddiant i gael ei ddefnyddio mewn lleoliadau grŵp bach i hwyluso sesiwn ryngweithiol a diddorol, gyda nifer delfrydol o fynychion wedi'i awgrymu: "Wrth fynd ag ef yn ôl [i'r hyn a weithiodd] yn sefyllfa'r Heddlu, byddai'n cyfyngu fe i tuag 20" (Cyfweliad 2, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen). Yn benodol, nid ystyriwyd bod y broses PATH yn briodol ar gyfer grwpiau mwy, gyda'r ysgol sydd â'r nifer mwyaf o staff (n=52) yn adrodd bod yr hyfforddiant yn llai effeithiol na'r ddwy ysgol arall.

Er yr awgrymwyd y gellir cyflwyno'r hyfforddiant i arweinwyr i'w ledaenu ar draws yr ysgol wrth gyflwyno i ysgolion uwchradd, sef y drefn arferol gyda hyfforddiant, amlygwyd adborth cadarnhaol gan lawer o staff ysgolion o ran gwerth hyfforddi'r holl staff ar yr un pryd a 'chlywed yr un negeseuon' ar draws y cyfweliadau. Awgrymodd rhai y gellir cyflwyno'r hyfforddiant fesul cam, neu y gellir rhannu'r ysgol i grwpiau staff i dderbyn yr hyfforddiant.

*"rwy'n credu y bydd angen i chi feddwl am bwy yw'r grwpiau allweddol?
ydych chi'n cael grŵp sampl o rolau gwahanol [...], neu ydych chi'n gwneud
peth uwch reolwyr ac maent yn ei raeadru mewn rhyw ffordd."*

Cyfweliad 5, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen

Cydnabuwyd yn bendant na all ysgolion 'ei wneud ar eu pennau eu hunain' er eu bod mewn sefyllfa unigryw o fewn cymunedau i ymdrin ag ACE. Cafwyd cydnabyddiaeth ymysg staff ysgolion "fod angen cefnogaeth y gymuned arnom hefyd" i ymdrin yn llwyddiannus ag ACE (Cyfweliad 9, Rheolwr Ysgol), ni all ysgol wedi'i llywio gan ACE fodoli ar ei phen ei hun. Awgrymodd nifer o gyfranogwyr mai'r 'cam nesaf' tuag at fod yn ysgol wedi'i llywio gan ACE fyddai ennyn diddordeb rhieni gyda'r "nod hir dymor...o gael [ACE] fel iaith neu ddull cyffredinol" (Cyfweliad 27, Rheolwr Ysgol) ar draws cymuned yr ysgol.

*"Felly gyda mwy o ddull wedi'i lywio gan ACE, efallai bydd rhieni'n fwy parod i ddod i siarad, efallai bydd plant yn fwy parod i siarad â staff am bethau gwahanol...felly yr amcan hir dymor
posib yw cael dull agored iawn i ACE lle nad oes gan rieni ofn ddod i weithio gyda'r ysgol."*

Cyfweliad 27, Rheolwr Ysgol

At hynny cydnabuwyd na ddylai dull ysgol wedi'i llywio gan ACE ehangach gynnwys staff yn unig ond disgyblion hefyd. Wrth symud y dull hwn ymlaen, dylid rhoi ystyriaeth felly i gynnwys datblygu deunyddiau ymwybyddiaeth ACE sy'n briodol i'r oedran er mwyn i staff ennyn diddordeb disgyblion.

*"Ac mae'n rhaid cyrraedd cam nad oeddem yn ei wneud y tro 'ma, pan fydd
gan y disgyblion ym mhob un o'r dosbarthiadau ddealltwriaeth sy'n briodol i'r
oedran o efallai, chi'n gwybod, pam mae Jack a Molly weithio'n ffrwydro ac yn
gynhyrfus iawn ac yn grac iawn a chi'n gwybod, yn ymosodol iawn."*

Cyfweliad 8, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen

5.6.1 Amseru

Cafwyd teimlad ymysg Uwch reolwyr fod amseru'n hollbwysig o ran cyflwyno. Mae rhoi digon o amser i ysgolion gynllunio hyfforddiant staff cyfan o gwmpas ACE mewn amserlenni sydd eisoes yn llawn, gan gystadlu â hyfforddiant cwricwlwm a gwelliant ysgol yn rhan annatod o sicrhau llwyddiant wrth symud ymlaen.

"Mae angen amser ar ysgolion i flaengynllunio, petawn ni'n gorfod neilltuo diwrnodau [hyfforddiant] i ACE, byddai angen iddynt fod yn y rhaglen ar gyfer y flwyddyn.....Oherwydd os oes angen i chi gefnogi staff ar ôl ysgol, mae'n rhaid i chi dalu am oriau ychwanegol y gofynnir iddynt eu gweithio....felly mae arian yn rhan ohono ond amseru hefyd."

Cyfweliad 21, Rheolwr Ysgol

5.6.2 Hyfforddiant

Adnabuwyd arbenigedd proffesiynol y rhai sy'n cyflwyno'r hyfforddiant fel cryfder ac yn allweddol i'w lwyddiant,

"Rwy'n credu mai'r seicolegwyr addysg yw'r asiantaeth allweddol, gan fod ganddynt yr arbenigedd ac mae ganddynt y cefndir, ac maent eisoes yn gweithio gydag ysgolion. Rwy'n credu mai nhw yw'r asiantaeth hyfforddi ddelfrydol am hyn o beth, wedyn gyda rhywfaint o hyfforddiant ategol gan asiantaethau fel Barnardos...wedyn mae gennych yr arbenigedd i ateb cwestiynau manwl."

Cyfweliad 8, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen

Wrth symud ymlaen cydnabuwyd bod y "seicolegwyr addysg i'w gweld mewn sefyllfa dda i gyflwyno'r hyfforddiant" (Cyfweliad 34, Datblygwyr/Hwylusydd Rhaglen). Fodd bynnag, mae angen i hyn fod mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill sy'n ymwneud â chefnogi'r ysgol i sicrhau nad yw'r neges yn cael ei dyfrio i lawr neu'n mynd yn 'rhy arbenigol'.

Hyd yn oed o fewn dull rhanbarthol teimlwyd bod angen i'r hyfforddiant ystyried gwahaniaethau ar draws awdurdodau lleol gyda "rhai addasiadau bach diwylliannol yma ac acw i adlewyrchu diwylliannau a gwahaniaeth mewn awdurdodau lleol gwahanol" (Cyfweliad 6, Datblygwyr/Hwylusydd Rhaglen). Teimlodd eraill y gallai fynd ymhellach na hyn a mynd yn becyn hyfforddiant wedi'i deilwra ar gyfer ysgolion unigol.

Awgrymwyd bod diogelu'r dull ysgol gyfan wedi' lywio gan ACE ar gyfer y dyfodol yn gofyn am flaengynllunio o ran 'hyfforddi athrawon y dyfodol' trwy ymwreiddio hyfforddiant ymwybyddiaeth ACE mewn cynlluniau hyfforddi athrawon.

"Mae'n bwysig bod myfyrwyr [athrawon dan hyfforddiant] yn ymwybodol o'r ffordd yr ydym yn gweithio....dylai fod gennym lyfrau gwaith [neu] lyfr nodiadau ysgol wedi'i llywio gan ACE ... fel eu bod yn gwybod pan fyddant yn dod i'r ysgol ar leoliad gwaith yr ydym yn dweud, chi'n gwybod rydym yn ysgol wedi'i llywio gan ACE a dyma sut rydym yn delio â'n plant."

Cyfweliad 33, Uwch Reolwr

Fel a nodwyd eisoes, cydnabuodd rhai cyfranogwyr fylchau yn yr hyfforddiant presennol. Mae cyfle da i ddychwelyd at gynnwys y pecyn hyfforddiant cyn ei gyflwyno i ystyried "pecyn hyfforddiant cyfan sy'n ystyried sut mae arweinwyr bugeiliol mewn ysgolion yn siarad â theuluoedd.....ac yn medru helpu gyda datgelu ac ymyraethau" (Cyfweliad 1, Datblygwyr/Hwylusydd Rhaglen).

5.6.3 Cydweithio

Er mai ffocws y dull hwn yw ymchwilio i sut i ddatblygu dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE, cydnabuodd llawer o gyfranogwyr na ellir disgwyl i'r ysgol weithio ar ei phen ei hun er mwyn i hyn lwyddo. Er mwyn ymwreiddio'r gwaith hwn mewn ysgolion a gweithio tuag at ddull sy'n gynaliadwy, cydnabuodd un cyfranogwr ei fod yn bwysig gweithio ar y cyd gyda phartneriaid y gymuned leol sydd eisoes yn gweithio mewn dull wedi'i lywio gan ACE.

"Felly rydych yn gwybod bod gennych eich PCSO yn yr ardal sydd hefyd wedi cael eu hyfforddi...mae angen i ni fod yn cysylltu'n ôl â gwaith yr heddlu... Beth am gael nhw i mewn a gweithio gyda'n gilydd.....Y dulliau cydlynol a'r dulliau gweithio ar y cyd 'na felly, chi'n gwybod, gallai'r hyn a ddaw allan o offeryn parodrwydd gysylltu'n ôl ag efallai chi'n gwybod, PCSO yn y gymuned a'u cysylltiadau'n ôl â'r ysgol."

Cyfweliad 2, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen

Teimlodd staff yr ysgol hefyd y byddai'r dull yn elwa o gysylltu i mewn â gwasanaethau eraill, gan rannu mwy o wybodaeth:

"Rwy'n credu y dylai'r gwasanaethau cymdeithasol chwarae rhan fawr wrth helpu i ni i gyrraedd yno [ysgol gyfan wedi'i llywio gan ACE]."

Cyfweliad 15, Cefnogi Addysgu

"Byddem eisiau, gobeithio, llawer mwy o gyswllt â'r cyrff eraill, gyda'r heddlu. Mae ein Pennaeth yn derbyn gwybodaeth am achosion gan yr heddlu ond mae angen i ni wybod yn union [beth]."

Cyfweliad 19, Athro/Athrawes

Awgrymodd nifer o gyfranogwyr y byddai'n "dda cynnwys cwnsleriaid o fewn y gymuned gan eu bod nhw'n gorfod codi rhywfaint o'r broblem ar ôl ymddygiad ysgol y mae'r heddlu efallai'n ymwneud [ag ef]" (Cyfweliad 14, Cefnogi Addysgu), fel ffordd o gefnogi'r ysgol mewn dull wedi'i lywio gan ACE. Cafwyd consensws pendant ymysg y rhai y cynhaliwyd cyfweliadau â hwy bod angen cael mewnbyn gan rieni er mwyn i'r dull hwn lwyddo'n wirioneddol, o ran eu dealltwriaeth o ACE a datblygu gwydnwch gan y teimlir bod ennyn diddordeb teuluoedd yn allweddol.

"wrth gwrs, mae angen llawer mwy o ddull cydlynol â ffocws cymunedol gyda'r rhieni."

Cyfweliad 4, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen

"Rwy'n teimlo, fodd bynnag, bod angen i ni gael mewnbyn gan rieni llawer yn gynharach ac mae angen i rai o'n rhieni weld rhai o'r rhain sydd gennych [deilliannau ACE]."

Cyfweliad 14, Cefnogi Addysgu

5.6.4 Datblygiad/cynladwyedd yn y dyfodol

Er bod y 'cynllun peilot' yn dangos potensial go iawn, er mwyn sicrhau ymrwymiad a sicrhau y caiff y dull ei ymwreiddio mewn arfer ysgol bob dydd, cydnabuwyd bod sylfaen dystiolaeth gadarn yn hanfodol a bod angen gwaith ychwanegol o gwmpas mesur effaith, "fel gydag unrhyw beth rili, mae angen i chi werthuso bob blwyddyn" (Cyfweliad 1, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen).

Yng ngoleuni pa mor gyflym y mae ymwybyddiaeth o ACE yn datblygu ar draws nifer o sectorau, nodwyd bod cynnal ffyddlondeb y pecyn hyfforddiant yn hollbwysig wrth symud ymlaen, gyda'r angen am ymgorffori mecanwaith sicrhau ansawdd mewn unrhyw ddull cenedlaethol potensial ar gyfer ysgolion wedi'u llywio gan ACE.

"Wel, yr hyn y mae angen i ni ei sicrhau yw, chi'n gwybod, pan gyflwynir yr hyfforddiant, ac ar draws y wlad, nad ydym yn colli'r neges. Yr un peth yw e gydag unrhyw becyn seiliedig ar dystiolaeth. Os bydd pobl yn colli ffyddlondeb yr hyfforddiant ac yn dechrau rhoi eu darnau eu hunain i mewn, rydych yn colli'r pwyslais."

Cyfweliad 3, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen

At hynny, cydnabuwyd a derbyniwyd bod *"ysgolion gwahanol, hyd yn oed o fewn awdurdod lleol, ar gamau gwahanol o'r daith [ACE]"* (Cyfweliad 3, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen), felly cyn hyd yn oed ystyried cyflwyno, mae angen i drafodaethau lleol ddigwydd ar lefel Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (PSB) aml-asiantaeth i osod yr olygfa a gosod y cynsail.

"Mae'n hynod bwysig cychwyn y sgwrs gyda'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus gan fod hwn yn fater aml-asiantaeth. Nid dim ond mater ysgol neu awdurdod lleol mo hwn. Os ydych yn ymwreiddio'r [dull hwn] yng nghynllun y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus lleol... dyma sut rydym yn cyflawni cynladwyedd gan fod y cynlluniau hynny'n statudol."

Cyfweliad 3, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen

Derbyniwyd potensial 'enfawr dull ysgol wedi'i llywio gan ACE at ymdrin â phlant sy'n agored i niwed a risg ymysg plant ysgol yn gyffredinol ymysg cyfranogwyr ar bob lefel. Cydnabuwyd y ceir ymrwymiad cenedlaethol yng Nghymru i ymdrin â lles sydd wrth wraidd y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ac felly yn elfen graidd gwaith o fewn ysgolion. Er hynny, wrth ystyried llwyddiant a chynladwyedd y dull yn y dyfodol, teimlwyd o hyd bod *"angen ychydig yn fwy o bwyslais o ran deddfwriaeth y llywodraeth"* (Cyfweliad 29, Athro/Athrawes).

"Mae ymrwymiad ynddo [y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion] gan Ysgrifennydd y Cabinet y caiff hwn ei gyflwyno. Felly mae'n rhaid iddo weithio... Mae gwaith yn mynd yn ei flaen o gwmpas swyddogion cyswllt ysgolion, a sicrhau bod eu rôl yn gweddu i hyn, felly o ran camau nesaf, ar gyfer y gwaith hwn, mae dal tipyn i'w wneud ac yn y gofod hwn rili, felly mynd i mewn a rhoi hyfforddiant i staff - dyna dim ond cychwyn y daith rili."

Cyfweliad 34, Hwylusydd/Datblygwr Rhaglen

6 Trafodaeth ac Argymhellion

Mae ymchwil wedi dangos y gall profiadau yn ystod plentyn cael effaith niweidiol ar ddatblygiad plentyn ac arwain at ddeilliannau gwael yn ddiweddarach mewn bywyd. O ystyried y gyfran o amser y mae plant yn ei threulio mewn addysg, mae ysgolion mewn sefyllfa arbennig o dda i gefnogi plant sy'n profi ACE ac adeiladu gwydnwch i ddiogelu yn erbyn effaith trawma. Anelodd y dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE at gyfarparu ysgolion gyda'r wybodaeth, sgiliau ac adnoddau iawn i adnabod ac ymateb i blant sy'n profi ACE a thrawma, a darparu'r gefnogaeth y mae ei hangen ar blant i alluogi nhw i ymwneud â'u dysgu a chyrraedd eu potensial llawn. Cyflwynwyd y cynllun peilot mewn tair ysgol gynradd yn BCBC dros dau dymor cyntaf y flwyddyn academaidd 2017-2018. Mae'r gwerthusiad wedi darparu tystiolaeth o effaith gychwynnol cyflwyno a gweithredu'r dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE, yn ogystal â chofnodi nifer o ystyriaethau ar gyfer datblygu pellach, cyflwyno'n genedlaethol i ysgolion ar draws Cymru a chynnaladwyedd y dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE.

Canfyddiadau cyffredinol o'r dull

Derbyniwyd y dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE yn gadarnhaol gan yr holl ysgolion, ar draws y sbectwm o rolau, gyda staff yn cydnabod pa mor bwysig y mae i ysgolion fod wedi'u llywio gan ACE a thrawma. Er bod llawer o raglenni a mentrau'n bodoli i ymdrin â lles disgyblion, cydnabuodd llawer o gyfranogwyr bwysigrwydd dull ysgol gyfan i ymdrin â hyn oll, a manteision dull cyffredinol sy'n cefnogi pob plentyn, nid dim ond y rhai sy'n agored i niwed ac yn wynebu risg. Teimlodd cyfranogwyr fod y dull yn darparu hyblygrwydd i ysgolion alw ar adnoddau presennol a defnyddio arfer da cyfredol, gan alluogi nhw i ddatblygu eu hysgol wedi'i llywio gan ACE/trawma unigryw eu hunain i adlewyrchu anghenion eu cymuned leol/eu hunain. Mae hyn yn gweddu i ymchwil ryngwladol sy'n amlygu'r ffaith na fydd yr un ysgol wedi'i llywio gan drawma'n edrych yr un peth â phob un arall, a bod angen i ysgolion addasu eu dull i gefnogi'r disgyblion a'r gymuned ehangach y maent yn ei gwasanaethu'n briodol²⁹.

Roedd y frwydr i ymdrin â lles disgyblion yn amlwg tu hwnt ar draws yr holl gyfweiliadau, gyda chyfranogwyr yn cyfeirio at bwysau i fodloni gofynion Llywodraeth Cymru i gynhyrchu canlyniadau academaidd da ac ymdrin â meysydd â blaenoriaeth fel enghreifftiau o'r heriau a wynebir wrth geisio ymdrin â lles disgyblion. Teimlodd llawer o gyfranogwyr fod polisiau a deddfwriaeth bresennol yn gweithredu fel rhwystr i ymwreiddio dull wedi'i lywio gan ACE mewn arfer yn llawn, gan eu bod yn cyfyngu ar allu staff i roi'r amser y mae ei angen arnynt i ymdrin â lles. Ar ben hynny, cydnabuwyd nad yw dull ymyrraeth ac atal cynnar i ACE, oherwydd natur persbectif trywydd bywyd, yn cynhyrchu'r canlyniadau uniongyrchol y mae Llywodraeth Cymru eu heisiau, er ei fod yn hanfodol. Mae angen strategaeth cyfnod hwy i fesur effaith y cyfryw ddull ar fesurau deilliannau ysgol, fel cyrhaeddiad a phresenoldeb. Dadleuodd rheolwyr ysgol fod angen newidiadau deddfwriaethol i alluogi disgyblion i gefnogi lles disgyblion yn well, ac ymddengys fod hwn yn faes yr ymdrinnir ag ef gan fod ACE yn dechrau cael ei ymwreiddio mewn polisiau, gan gynnwys y strategaeth newydd i Gymru 'Ffyniant i Bawb'⁴⁰ ac 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl' sy'n galw am ysgolion cynhwysol a chryfion sy'n ymroddedig i les.

Cydnabuodd cyfranogwyr fod angen ymateb aml-asiantaeth ehangach ar y cyd i ymdrin ag ACE, gan fod ysgolion eisieu cefnogaeth ehangach gan asiantaethau eraill i weithio mewn dull wedi'i lywio gan ACE. Nododd staff ysgolion drefniad gweithio ar y cyd datblygol rhwng gwasanaethau o ganlyniad i gyflwyno'r hyfforddiant, a gwelwyd bod hyn yn rhywbeth cadarnhaol. Adroddodd staff am ddymuniad i barhau i ymwneud â'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg, yr heddlu, Ysgolion Iach a'r gwasanaethau cymdeithasol y tu hwnt i gyfnod y prosiect. Mae hyn yn adlewyrchu adborth gan yr heddlu mewn gwerthusiad o dull strwythuredig ymyrraeth gynnar aml-asiantaeth i blismona pobl sy'n agored i niwed, lle nodwyd dymuniad Timau Plismona Cymdogaeth (NPT) i gydweithio'n fwy uniongyrchol ag ysgolion wrth ymdrin â thrawma a throsglwyddo ACE o un genedlaeth i'r llall⁴².

Estynnodd y gydnabyddiaeth na all ysgolion weithio ar eu pennau eu hunain er mwyn iddynt fod yn effeithiol wrth liniaru'r canlyniadau a allai fod yn wael ar gyfer plant sy'n profi ACE i alw am gefnogaeth gan y gymuned ehangach. Adroddodd ysgolion am anawsterau ennyn diddordeb teuluoedd oherwydd canfyddiadau o ofn canlyniadau posib a diffyg dealltwriaeth bod ysgolion eisiau cefnogi teuluoedd nid gorfodi mesurau cosbi. Er mwyn i'r dull hwn weithio, teimlodd llawer o staff fod angen iddynt ennyn diddordeb y gymuned a chreu newid mewn diwylliant lle mae pawb yn cydweithio i atal ACE a lleihau effaith trawma ar blant yn ddiweddarach mewn bywyd.

Offeryn parodrwydd ACE

Elfen gyntaf y dull oedd yr offeryn parodrwydd ACE a ddatblygwyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru a'r Cydlynnydd ACE Addysg. Offeryn hunanwerthuso oedd hwn a gwblhawyd gan bob ysgol i gwmpasu polisi ac arfer cyfredol ac adnabod unrhyw fylchau mewn darpariaethau y mae angen ymdrin â nhw i alluogi ysgolion i fabwysiadu dull wedi'i lywio gan ACE mewn addysg. Mae ysgolion yn gyfarwydd â chwblhau hunanwerthusiadau, fodd bynnag ystyriwyd bod hyn yn brofiad gwerthfawr ac effeithiol iawn gan yr holl ysgolion a Chydlynwyr ACE Addysg. Cydnabuwyd bod yr offeryn parodrwydd ACE yn rhoi cyfle i ysgolion fyfyrion i ba raddau y maent eisoes yn ymdrin â lles disgyblion ac yn cyfeirio sut y gellir ymwreiddio'r dull hwn mewn arfer bob dydd. Er hynny, teimlwyd y gellir rhesymoli'r offeryn i leihau ailadrodd o ran yr angen am ddefnyddio'r ymarferion cwmpasu a gwblhawyd eisoes gan Ysgolion Iach i gywain data cyn y cyfarfod. Byddai rhoi amser i ysgolion ystyried cwestiynau'r offeryn cyn y cyfarfod cwblhau'n galluogi nhw i fyfyrion'n llawnach ar arfer cyfredol a chywain tystiolaeth. Datblygwyd yr offeryn yn unol â'r Fframwaith Estyn, fodd bynnag teimlodd cyfranogwyr fod angen gwneud ymgeisiau i alinio'r offeryn â'r Fframwaith Ysgolion Iach a'r rhestr wirio, ac adlewyrchu'r newidiadau i'w cwricwlwm ysgol y disgwylir y byddant yn dod i rym erbyn 2021 yn dilyn adolygiad Donaldson²⁶.

Canfyddiadau o'r hyfforddiant a'r effaith ar wybodaeth ac arfer

Cafodd y 'hyfforddiant ACE' a gyflwynwyd fel rhan o ymagwedd yr ysgol gyfan ei dderbyn yn gadarnhaol gan y staff ar draws pob ysgol, gyda staff yn adrodd ei fod yn rhoi sylfaen wybodaeth dda iddynt. Yn dilyn yr hyfforddiant, adroddodd cyfranogwyr gynnydd sylweddol yn hyderus yn eu gallu i weithio gyda nhw plant agored i niwed, yn eu gallu i siarad â phlentyn yn briodol a rhannu pryderon am blentyn gyda chydweithwyr.

Yn ystod cyfweiliadau nododd cyfranogwyr fod cynnwys yr hyfforddiant yn llawn mewnwelediad a gwybodaeth. Roedd y meysydd dysgu y nododd cyfranogwyr yr oeddent yn hynod werthfawr oedd y gwyddor y tu ôl i drawma a'i effaith ar ddatblygiad ac ymddygiad plant yn y dosbarth. At hynny, adroddodd yr holl staff fod yr elfen sgiliau cyfathrebu'n llawn mewnwelediad. Yn dilyn yr hyfforddiant, adroddodd staff eu bod yn teimlo'n fwy parod i siarad â phlant am eu problemau, a'u bod ar gael yn fwy i blant rannu pethau gyda nhw. Yn aml mewn ysgolion, pan fydd plentyn wedi'i gynhyrfu neu y ceir pryderon, bydd y Person Diogelu Dynodedig (DSP) neu swyddog lles yn darparu cefnogaeth, er hynny cydnabuodd cyfranogwyr fod yr hyfforddiant yn galluogi'r holl staff i ddatblygu sgiliau a fyddai'n eu cefnogi i weithredu yn rhinwedd oedolyn yr ymddiriedir ynddo/ynddi ar gyfer plant, er mwyn iddynt ymateb i anghenion plentyn a darparu cefnogaeth. Mewn un ysgol, adroddodd y DSP fod hyn wedi cymryd y baich oddi ar ei rôl, a'i fod eisoes wedi gostwng ceisiadau gan staff am gefnogaeth i ymdrin ag anghenion plentyn. Er bod y DSP yn parhau'n gyfrifol am yr holl bryderon diogelu, mae'n bwysig i blant fedru gofyn am gefnogaeth gan yr aelod staff y maent yn teimlo'n fwyaf cyfforddus yn siarad â nhw. Mae hyn yn darparu cyfle i'r holl blant, ni waeth p'un a ydynt yn profi ACE a thrawma ai beidio, i dderbyn cefnogaeth o fewn yr ysgol a diwallu eu hanghenion lles. Er hynny, yn ystod adborth gan staff fe nodwyd, er bod holl staff yr uwch dîm rheoli, staff addysgu a chefnogi addysgu wedi mynychu'r hyfforddiant, bod angen i'r hyfforddiant gael ei ymestyn i staff eraill er mwyn i hwn fod yn ddull ysgol gyfan go iawn, gan gynnwys staff cinio, gofalwyr a llywodraethwyr ysgol.

Adroddodd staff ysgolion allu gwell i adnabod plentyn sy'n profi ACE ar ôl derbyn yr hyfforddiant. Er hynny, awgrymodd adborth ychwanegol bod y mwyafrif o staff yr ysgol eisiau derbyn arweiniad pellach ac enghreifftiau ymarferol ar ba gamau y mae angen eu cymryd ar ôl i ACE gael ei ddatgelu a beth mae angen i'w rôl fod y tu hwnt i ddarparu cefnogaeth emosiynol. Gan hynny, wrth ystyried datblygu'r hyfforddiant ymhellach, mae angen i'r cynnwys ganolbwyntio'n fwy ar gymhwyso strategaethau ac offer i alluogi rheoli ymddygiad yn y dosbarth yn well, sut i ymwneud â phlentyn sydd wedi'i adnabod fel agored i niwed a sut i weithio gyda'r plentyn hwnnw i wella ei sefyllfa. Dylai hyn gael cynnwys manylach ar wydnwch hefyd, gan ddarparu strategaethau ar gyfer staff ysgol i'w galluogi i ddysgu plant sut i reoli a gweithio trwy fod yn agored i niwed a risg; yn ogystal â sut i ennyn diddordeb rhieni a'r gymuned leol i adeiladu ffactorau gwydnwch.

Darparodd yr hyfforddiant rai enghreifftiau o ddulliau dod â phlentyn yn ôl i'r 'fffenest goddefgarwch' (i lefel weithredol) pan fyddant yn mynd i lefel gynnwrf uchel, fodd bynnag teimlodd nifer o gyfranogwyr nad oeddent yn gallu cymhwyso'r sgiliau hyn a bod angen mwy o ymarfer arnynt. Mae angen i'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg ymwneud ymhellach ag ysgolion i ddarparu cefnogaeth ar sut i reoli ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag ACE a thrawma mewn ffordd therapiwtig, a lle mae cynlluniau trin a thrafod cadarnhaol mewn lle, sicrhau bod y rhain yn adlewyrchu dull wedi'i lywio gan drawma. At hynny, gallai timau cefnogi ymddygiad mewn awdurdodau lleol ymwneud ag ysgolion i ddarparu cefnogaeth ar gyfer plant sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Ystyriodd y mwyafrif o gyfranogwyr fod y broses PATH yn ddull defnyddiol o fapio sut i ddatblygu ysgol wedi'i llywio gan ACE, a phennu amcanion tymor byr a hir dymor i gyflawni hyn. Cafwyd rhai gwahaniaethau mewn barn fodd bynnag, rhwng ysgolion ar ddefnyddioldeb y broses. Yn ystod cyfweiliadau, myfyriodd datblygwyr a hwyluswyr yr hyfforddiant na ddyluniwyd y broses PATH i gael ei chyflwyno i grwpiau mor fawr â'r rhai a gymerodd ran yn y cynllun peilot hwn ac, felly, roedd angen addasiadau i alluogi'r holl staff i gymryd rhan yn y gweithgareddau. At hynny, teimlodd aelodau staff eraill nad oedd modd cyflawni amcanion a bennwyd a'u bod yn annhebygol o gael eu cario 'mlaen, fodd bynnag daeth yn amlwg bod rhai camau eisoes wedi'u cymryd i ddechrau gweithredu camau i alluogi cyflawni rhai o'r amcanion. Ar adeg y cyfweiliadau nid oedd yr ysgolion wedi derbyn eu cynlluniau gweithredu, fodd bynnag siaradodd yr uwch reolwyr am ba mor ddefnyddiol fyddai'r cynlluniau hyn i'w galluogi i yrru'r gweithredoedd hyn ymlaen a pharhau i weithio tuag at fod yn ysgol wedi'i llywio gan ACE. Mae angen ystyried hyn fel rhan o strategaeth cyfnod hwy sy'n cysylltu â'r cynllun gwella ysgol, cynllun y mae'n ofynnol i bob ysgol ei ddatblygu trwy hunanwerthuso sy'n amlinellu ei blaenoriaethau a chymau gwella allweddol dros gyfnod amser penodol.

Cyflwyno hyfforddiant

Adroddodd yr holl gyfranogwyr fod gwybodaeth, arbenigedd a phrofiad yr hwyluswyr hyfforddi yn hollbwysig o ran cyflwyno'r dull yn llwyddiannus a'i fod wedi galluogi trosglwyddo gwybodaeth am ddulliau sectorau gwahanol wrth weithio â phobl sy'n agored i niwed mewn ffordd ragorol. Fodd bynnag, nid oedd staff yn mwynhau derbyn y sesiynau hyfforddiant gyda'r hwyr, gan deimlo bod hyn yn tarfu'n sylweddol ar eu dysgu oherwydd eu bod yn aml yn rhy flinedig i fedru ymwneud yn llawn â'r deunyddiau a gweithgareddau. Dymuniad staff oedd i'r hyfforddiant gael ei gyflwyno yn ystod diwrnodau hyfforddiant mewn swydd, dros 1-2 ddiwrnod.

Mwynhaodd staff natur ryngweithiol yr hyfforddiant, gan adrodd ei fod yn ddiddorol ac yn helpu o ran cofio gwybodaeth. Adroddodd staff ysgol fod yr hyfforddiant wedi datblygu eu gwybodaeth a sgiliau, a theimlwyd y byddai'n gwella arfer a rhoi'r hyder iddynt ymwreiddio'r sgiliau hyn o fewn arfer bob dydd. Er hynny, gofynnodd llawer o'r gyfranogwyr i'r hyfforddiant gynnwys mwy o chwarae rôl, i alluogi iddo gael ei ymwreiddio'n llawn mewn arfer. Oherwydd y cyfyngiadau amser wrth gyflwyno'r hyfforddiant, cydnabuwyd na roddwyd amser angenrheidiol i elfennau penodol ymdrin â'r deunyddiau'n briodol, gan gynnwys yr elfen adeiladu gwydnwch.

Ystriaethau ar gyfer cyflwyno

Cytunodd pawb a gymerodd ran yn y cyfweiliadau y dylai'r dull hwn gael ei gyflwyno mewn ysgolion ar draws Cymru i sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi'n briodol wrth brofi ACE a thrawma. Codwyd pryderon ynghylch p'un a fyddai'r holl ysgolion yn fodlon mabwysiadu dull wedi'i lywio gan ACE yn eu harfer, ac y bydd agweddau staff tuag at y gwaith hwn yn pennu llwyddiant y dull ym mhob ysgol.

Nodwyd y gall cyflwyno'r hyfforddiant hwn i grwpiau mawr amharu ar ennyn diddordeb staff yn ystod y sesiwn, a lleihau effaith yr hyfforddiant ar y mynycheion. Teimlodd cyfranogwyr fod angen treulio amser yn adolygu'r hyfforddiant i sicrhau ei fod yn addas ar gyfer grwpiau mawr heb gyfaddawdu'r persbectif ysgol gyfan. Roedd hyn yn wir yn benodol gydag ysgolion uwchradd a all gael timau staff o hyd at 150. At hynny, adroddwyd nad yw'r deunyddiau hyfforddi'n briodol i oedran ysgolion uwchradd, a bod angen i'r hyfforddiant adlewyrchu sut i ryngweithio â phlant hŷn, a gwahaniaethau yn y dewis o oedolyn yr ymddiriedir ynddo/ynndi a chyflwyno ymddygiadau yn y dosbarth.

Canfuwyd bod mwy o angen am ddull gweithio ar y cyd i ymdrin ag ACE, gydag ysgolion yn teimlo na allant gefnogi plant sydd yn seilo asiantaeth arall. teimlwyd y gallai cyswllt parhaus â gwasanaethau eraill gael effaith sylweddol ar gynladwyedd y dull hwn mewn ysgolion, gan alluogi ysgolion i ddarparu'r gefnogaeth y mae ei hangen ar blant a theluoedd heb gyfaddawdu eu rôl fel addysgwyr.

At hynny, ar adeg cywain data, nid oedd y cynllun gweithredu ac adnoddau wedi cael eu rhoi arwaith o fewn y tair ysgol. Disgwylwyd y byddai'r cynllun gweithredu'n gam pwysig wrth gynllunio datblygiad pellach yr ysgol a chynladwyedd dull wedi'i lywio gan ACE. Roedd yn cael ei ystyried p'un a fyddai angen darparu pecyn adnoddau i ysgolion gyda chynlluniau gwerau a deunyddiau hyfforddi, fodd bynnag nid oedd unrhyw benderfyniadau pendant wedi'u gwneud. Bydd angen i ddatblygu'r dull ymhellach ymdrin â phwysigrwydd yr elfennau hyn a pha un a fyddant yn ffurfio rhan o'r dull yn y dyfodol ai beidio.

Casgliad

Daw'r dull hwn ar adeg pan fydd addysg yng Nghymru'n wynebu newid mawr o ran ymdrin â'r ffordd orau o gefnogi plant gyda'u haddysg, gyda phwyslais ar daclo lles disgyblion mewn ysgolion. Amlygodd adolygiad Donaldson²⁶ yr angen am greu dysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n unigolion iach a hyderus a all bywydau cyflawn, ac ni ellir cyflawni hyn heb ymdrin yn gyntaf â lles pob plentyn. Mae ymdrin ag ACE yn hanfodol ar gyfer galluogi plant i ymwneud yn llaw â'u haddysg a mynd yn ddysgwyr llwyddiannus, ac ar yr un pryd lleihau canlyniadau gwael yn ddiweddarach mewn bywyd.

Mae'r dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE yn annog staff ysgolion i gefnogi'r holl blant ni waeth p'un a ydynt wedi profi ACE, neu'n cael eu hystyried o dan risg, ai beidio. Mae'r hyfforddiant yn darparu'r wybodaeth a sgiliau y mae eu hangen ar yr holl staff i weithredu fel oedolion yr ymddiriedir ynddynt, gan alluogi plant i geisio cefnogaeth pan fydd ei hangen, ac i alluogi staff i adeiladu gwydnwch plant er mwyn amddiffyn yn erbyn y deilliannau negyddol sy'n gysylltiedig ag ACE. Fodd bynnag, mae ysgolion yn pryderu am eu gallu i addasu eu harfer i gefnogi plant yn well o ganlyniad i bwysau cynyddol a osodir arnynt gan Lywodraeth Cymru. Mae polisi'r llywodraeth eisoes wedi dechrau adlewyrchu'r angen am ymdrin ag ACE, yn enwedig yn y byd addysg. Er hynny, mae angen cynyddol am gefnogaeth ehangach wrth weithio tuag at ymyrraeth gynnar ac atal ACE mewn cenedlaethau'r dyfodol. Er y cydnabyddir bod angen datblygu'r dull ymhellach, nododd y gwerthusiad amrywiaeth eang o gefnogaeth ymysg cyfranogwyr fel bydd pob ysgol yng Nghymru wedi'i lywio gan ACE.

Mae angen ystyried effeithiau'r dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE dros gyfnod amser hwy gan gynnwys pa mor dda y mae'r dull wedi'i ymwreiddio mewn arfer bob dydd. Dylai gwerthuso pellach anelu at ymchwilio i'r effaith ar fesurau deilliannau ysgol, fel cyrhaeddiad a phresenoldeb ysgol, a dylid rhoi ystriaeth i werth dychwelyd i gynlluniau gweithredu ysgolion i werthuso pa mor dda y mae'r dull wedi'i ymwreiddio yn y cynllun gwella ysgol a pha effaith a gawsai ar gefnogi staff i ddatblygu eu hysgol mewn dull wedi'i lywio gan ACE.

Argymhellion:

Dylai'r dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE barhau, gan anelu at gael ei gyflwyno i ysgolion eraill ar draws Cymru, a dylid ystyried yr adborth yn yr adroddiad gwerthuso i addasu a datblygu'r dull.

Offeryn parodrwydd a chynllun gweithredu ACE

- Alinio'r offeryn parodrwydd ACE â'r Fframwaith Ysgolion Iach i resymoli'r broses cywain gwybodaeth ar gyfer ysgolion. Dylai hyn gynnwys darparu'r offeryn parodrwydd ACE i ysgolion cyn y cyfarfod cwblhau er mwyn rhoi amser i staff fyfyrion llawnach ar arfer cyfredol, cywain tystiolaeth ac ystyried eu hymateb yn llawnach.
- Mae angen rhesymoli'r offeryn i osgoi ailadrodd y cwestiynau a gostwng faint o amser y mae'n ei gymryd i gwblhau'r offeryn.
- Cwmpasu ac adnabod hyfforddiant blaenorol, fframweithiau a gwasanaethau sy'n bodoli mewn ysgolion a allai ddarparu cefnogaeth bellach, sydd o dan drothwyon statudol.
- Datblygwyd yr offeryn yn unol â'r Fframwaith Estyn, fodd bynnag disgwylir y bydd angen ymgorffori newidiadau pellach i'r cwricwlwm, y disgwylir iddynt ddod i rym erbyn 2021, i'r offeryn
- Integreiddio'r cynllun gweithredu i'r cynllun gwella ysgol gydag adolygiad o newidiadau a chefnogaeth barhaus.

Hyfforddiant ysgolion wedi'i lywio gan ACE

- Sicrhau bod y 'dull ysgol gyfan' mor gynhwysol â phosib trwy ddarparu adnoddau ar gyfer ysgolion i gynnwys yr ystod ehangaf bosib o staff, fel staff cinio, gofawyr adeilad, llywodraethwyr yn yr hyfforddiant.
- Cynnwys mwy o fewn yr hyfforddiant ar gymhwyso strategaethau ac offer priodol ar sut i ymwneud â phlentyn sydd wedi'i adnabod fel agored i niwed a sut i weithio gyda'r plentyn hwnnw i wella ei sefyllfa; yn benodol dylid rhoi ystyriaeth i ddulliau dysgu gwahanol i adlewyrchu chwarae rôl fwy rhyngweithiol mewn perthynas â sefyllfaoedd ysgol a sut i roi'r sgiliau a ddysgwyd ar waith yn y dosbarth, fel rheoli ymddygiad yn well.
- Gweithio gydag ysgolion i ddatblygu sefyllfaoedd i adlewyrchu eu profiadau bob dydd a allai fod yn unigryw iddynt fel cymuned ysgol.
- Hyfforddiant i gynnwys dealltwriaeth ddyfnach o ddatblygu gwydnwch plant ac ehangu hwn i ymgorffori rhieni a'r gymuned.
- Ymgorffori dulliau ennyn diddordeb y teulu/rhieni i oresgyn rhwystrau i gymryd rhan er mwyn hwyluso a chefnogi newidiadau cadarnhaol ar gyfer y plentyn o fewn yr hyfforddiant.
- Hwyluso datblygiad syniadau/nodau tymor byr realistig, yn erbyn nodau hir dymor mwy dyheadol trwy'r broses PATH.
- Ystyried cyflwyno sesiynau hyfforddiant fel diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd, ac fel sesiwn sengl yn hytrach na thair sesiwn fyrrach. Ystyried dichonolrwydd cynnal diwrnod ysgol ACE i gynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth ACE yn y bore; trawma, gwydnwch a strategaethau yn y prynhawn gan arwain i mewn i'r broses PATH.
- Yr hyfforddiant i'w gyflwyno gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysg er mwyn defnyddio eu harbenigedd mewn trawma mewn plentyndod i sicrhau cyfranogiad, perthnasedd a chefnogaeth barhaus i ysgolion ar ôl i gyflwyniad y dull ddod i ben.
- Yr hyfforddiant i'w addasu i fod yn berthnasol i gynulleidfa ysgol uwchradd. Mae hyn er mwyn sicrhau bod deunyddiau'n briodol ar gyfer yr oedran ac yn addas ar gyfer grwpiau staff mawr ac ar yr un pryd sicrhau cynnal y dull ysgol gyfan

Agweddau, sgiliau, arfer ac ymddygiad staff

- Ystyried cynnwys ymwybyddiaeth ACE a hyfforddiant trawma o fewn y rhaglen hyfforddiant addysg gychwynol a sicrhau bod set sgiliau athrawon yn gynnar yn eu gyrfa a staff ysgol eraill yn alinio â'r weledigaeth y bydd pob ysgol yng Nghymru wedi'i llywio gan ACE.
- Datblygu deunyddiau ymwybyddiaeth ACE a dealltwriaeth o drawma sy'n briodol i'r oedran i staff eu defnyddio gyda disgyblion yn y dosbarth.
- Ystyried cyflwyno'r animeiddiad ACE i rieni a phlant i gynyddu ymwybyddiaeth o effaith ACE.

Cynladwyedd hir dymor a datblygiad dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE yn y dyfodol

- Dylid cynnig darpariaeth ysgol ychwanegol i staff i helpu rheoli ymddygiadau sy'n gysylltiedig â thrawma mewn perthynas â pholisi rheoli ymddygiad yr ysgol a'r timau cefnogi ymddygiad, trwy ddefnyddio gweithwyr cefnogi'r proffesiwn o fewn sefyllfa'r ysgol.
- Sefydlu hinsawdd yn yr ysgol lle mae rhieni'n teimlo'n gyfforddus i gysylltu â staff am gymorth a chefnogaeth.
- Datblygu cysylltiadau ymhellach rhwng ysgolion ac asiantaethau eraill h.y. yr heddlu, Cymorth Cynnar, Ysgolion Iach, i weithio ar y cyd wrth adnabod ac ymateb i ACE.
- Datblygu systemau i gofnodi data ar fesur deilliannau plant er mwyn deall yr effaith hir dymor bosib yn well.
- Sefydlu protocolau gwybodaeth addas i alluogi rhannu gwybodaeth berthnasol yn haws rhwng partneriaid a fyddai'n helpu sicrhau bod plant yn derbyn cefnogaeth briodol ac amserol.
- Mae angen ymgorffori mecanwaith sicrhau ansawdd i unrhyw raglen genedlaethol bosib i sicrhau y cedwir ffyddlondeb y pecyn hyfforddiant.
- Mae angen ennyn diddordeb budd-ddeiliaid ymhellach i osod yr olygfa a gosod seilwaith y buddion ac effaith y gallai dull ysgol gyfan wedi'i lywio gan ACE eu cynnig, wedi'i symbylu trwy Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus ac alinio'r dull â'r amcanion Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus o gyflwyno ar gyflawni'r amcanion lles a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i sicrhau cynladwyedd y dull.
- At hynny, dylid ymgymryd â gwerthuso dros y tymor hwy i bennu'r canlynol:
 - Effaith yr hyfforddiant ar staff a pha mor dda y mae'r dull wedi ymwreiddio mewn arfer bob dydd.
 - Yr effaith ar les plant trwy ddadansoddi arolygon lles a data a gesglir fel mater o drefn ar fesurau deilliannau ysgol.
 - Effaith y dull o ran adnoddau a'r deilliant ar gyfer teuluoedd a allai gyfeirio'r dull ymhellach wrth ystyried cynladwyedd.

Atodiad 1: Trosolwg o'r Dull Ysgol Gyfan Wedi'i Lywio gan ACE

Offeryn parodrwydd ACE

Mae'r offeryn parodrwydd ACE yn offeryn hunanwerthuso a ddatblygwyd a alinio â'r meysydd adolygu sydd wedi'u hadnabod yn Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn^{n 43}. TMae'r offeryn yn cynnwys proffil o bob ysgol sy'n rhoi manylion y data a ddelir gan y Set Data Craidd Cymru Gyfan (e.e. cyllidebau, canran y plant sy'n cyrraedd lefelau disgwylidiedig ar gyfer y categori gwelliant pynciau craidd)⁴⁴. Mae hyn yn cynnwys tri ar ddeg o gwestiynau, pob un gydag ysgogiadau ac enghreifftiau o dystiolaeth i annog cyfnewid gwybodaeth (gweler Tabl A1). Mae hwn yn cael ei gwblhau gyda'r pennaeth i adnabod adnoddau ychwanegol y mae eu hangen neu newidiadau mewn prosesau i alluogi ysgol i fabwysiadu dull wedi'i lywio gan ACE.

Tabl A1: Disgrifiad byr o'r meysydd asesu yr ymchwiliwyd iddynt yn yr offeryn asesu

Disgrifiad o'r maes asesu	Enghreifftiau o arfer
Strategaethau a threfniadau lles y mae'r ysgol yn eu defnyddio i ddiwallu anghenion disgyblion sydd wedi'u heffeithio gan drawma	Adnabod plant sy'n agored i niwed, dadansoddi data cyrhaeddiad ac arolygon lles, ymyraethau ysgol (e.e. PATHS, ELSA), rhannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill, datblygu proffiliau disgyblion.
Trefniadau ar gyfer codi safonau plant sydd ag ACE	Systemau tracio, defnyddio'r rôl LSA/LSO; cefnogaeth a dargedir h.t. grwpiau darllen.
Strategaethau i wella presenoldeb	Defnyddio'r EWO, gwaith a dargedir gydag disgyblion a theuluoedd, systemau gwobrwyo, cyfarfodydd adolygu rheolaidd, cwrrd a chyfarch wrth glwyd yr ysgol.
Amrywiadau rhwng grwpiau penodol o ddisgyblion	Er enghraifft, newidiadau mewn ymddygiad a chyrraeddiad yn seiliedig ar ryw, FSM, LAC. Cefnogaeth a dargedir a defnydd o'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg.
Dull yr ysgol o ymdrin ag atal dros dro a diarddel; rheoli ymddygiad a dulliau gwobr a chosb.	Cosbau ysgol, monitro ymddygiad, system teilyngdod a gwobrau cydnabyddiaeth, defnyddio technegau PATHS+, gwirio gyda disgyblion bob dydd, ymwybyddiaeth ofalgar.
Dysgu gwydnwch mewn ysgolion i ymdrin ag ACE	Grwpiau llais disgyblion, offer lles, hyfforddi cymheiriaid, PATHS+
Ystod ac ansawdd dulliau addysgu a'r cwricwlwm presennol, ac addysg fugeiliol.	Defnyddio arolygon myfyrwyr, rhaglenni lles, defnyddio Ysgolion Iach, gwerthuso cynnydd disgyblion.
Gweithio'n briodol i gefnogi plant sydd ag ALN	Defnyddio amser cylch i annog cyfathrebu, adolygu cynlluniau ar gyfer plant sydd ag ALN.
Gofal, cefnogaeth ac arweiniad a ddarperir gan yr ysgol i hyrwyddo ACE, galluogi datgeliadau ac ymdrin yn briodol â thrawma	Gwaith partneriaeth gyda asiantaethau statudol a'r trydydd sector, ymgorffori a hyrwyddo UNICEF, hyfforddiant arbenigol.
Priodoldeb trefniadau diogelu cyfredol.	Adolygu'r polisi diogelu'n flynyddol, cofnodion o faterion diogelu, hyfforddiant amddiffyn plant rheolaidd.
Defnyddio gwasanaethau arbenigol ar gyfer cefnogi ymddygiad.	Gwasanaeth Seicoleg Addysg, therapyddion iaith a llefydd, cwsleriaid profedigaeth.
Rolau arweinyddiaeth o fewn yr ysgol y gellir eu defnyddio i gyrru'r ysgol wedi'i llywio gan ACE a gwaith partneriaeth ymlaen.	Strwythur arweinyddiaeth clir, targedau perfformiad, adolygiad rheolaidd gyda llywodraethwyr, arweinwyr lles.

ⁿ Fframwaith yr arolygir ansawdd a safonau pob darparwr addysg yng Nghymru yn ei erbyn ar draws pum maes: safonau a chynnydd; lles ac agweddau tuag at ddysgu; profiadau dysgu ac addysgu; gofal, cefnogaeth ac arweiniad; ac arweinyddiaeth a rheolaeth.

Hyfforddiant

Cyflwynwyd yr hyfforddiant yn neuadd yr ysgol, gan ymgorffori cyflwyniadau PowerPoint, gweithgareddau grŵp a chwarae rôl i ddarparu amgylchedd hyfforddi rhyngweithiol. Dangoswyd clipiau fideo, gan gynnwys yr animeiddiad ACE³⁹, gwyddor datblygu'r ymennydd, a sut i ddiogelu plant yn erbyn effaith trawma mewn plentyndod. Cyflwynwyd yr hyfforddiant mewn tair rhan ar draws diwrnodau hyfforddiant mewn swydd, a darparwyd taflenni i fynycheion er mwyn dychwelyd i'r deunyddiau hyfforddi petai angen.

Rhan 1

Addaswyd y sesiwn hyfforddiant gyntaf o'r Hyfforddiant Plismona Pobl sy'n Agored i Niwed Wedi'i Lywio gan ACE (AIAPV)³⁷ ac fe'i cyflwynwyd gan Gydlynwyr ACR yr Heddlu a Phartneriaid, wrth ochr y Cydlynnydd ACE Addysg a Swyddog Cyswllt ag Ysgolion lleol yr Heddlu. Nod y sesiwn oedd datblygu ymwybyddiaeth o ACE ac effaith trawma, a galluogi staff ysgolion i deimlo'n hyderus wrth adnabod ACE. Ymdriniodd hyn â:

Blwch A1: Yr astudiaeth achos

Disgrifiodd hon brofiadau bywyd merch o 3 blwydd oed i oedolaeth, a 4 blynedd gyntaf bywyd ei mab. Mae'r astudiaeth hon yn dangos trosglwyddo ACE ar draws cenedlaethau.

Mewn grwpiau, gofynnwyd i staff drafod sut y gallai trawma'r plentyn effeithio ar ei ymddygiad yn yr ysgol, a pha gefnogaeth y gallai gweithwyr addysg proffesiynol ei darparu iddo.

- Throsolwg o sut mae'r agenda ACE yn alinio â'r dirwedd polisi mewn addysg;
- Y mathau gwahanol o straen y mae pobl yn eu profi (h.y. cadarnhaol, goddefadwy a gwenwynig) ac effaith straen cronig ar ymennydd a datblygiad plentyn;
- Beth yw ACE a chanfyddiadau ymchwil yng Nghymru, gan gynnwys amllder a deilliannau;
- Effaith trawma ar ymddygiad yn y dosbarth a sut i ddefnyddio dull wedi'i lywio gan drawma; ac,
- Astudiaeth achos o berson ifanc (gweler Blwch A1)

Rhan 2

Datblygwyd a chyflwynwyd yr hyfforddiant hwn gan y gwasanaeth Seicoleg Addysg. Anelodd y sesiwn at ddatblygu a gwella sgiliau cyfathrebu staff ysgolion a galluogi nhw i adeiladu gwydnwch mewn plant. Ymdriniodd hyn â:

- Mynegiad emosiynol ac effaith ymatebion staff ar blant;
- Sut i ymateb i blant yn briodol gan ddefnyddio athroniaeth meta-emosiynol;
- Defnyddio hyfforddiant emosiynol trwy PLACE (Chwaraeus, Hoffter, Derbyn, Chwilfrydedd, Uniaethu)⁴⁵;
- Deall y ffenest goddefgarwch wrth weithio gyda phlant a defnyddio hyfforddiant emosiynol ar gyfer dad-ddwysau;
- Pwysigrwydd lles staff wrth weithio gyda thrawma a hunanofal;
- Sut i adeiladu gwydnwch yn y plant;
- Sut mae ysgol wedi'i lywio gan ACE yn edrych.

Rhan 3

Anelodd y sesiwn at gefnogi'r ysgol i gynllunio datblygiad ysgol wedi'i llywio gan ACE trwy'r broses PATH⁴⁶ (gweler Blwch A2). Yn ystod yr ail sesiwn hyfforddiant gofynnwyd i'r athro/athrawes ystyried a gwneud nodyn o'i syniadau o sut y byddai ysgol wedi'i llywio gan ACE yn edrych ar eu cyfer nhw, a ddefnyddiwyd i helpu datblygu eu hysgol ddelfrydol.

Blwch A2: Planning Alternative Tomorrows with Hope (PATH- Pearpoint et al., 1991)

Mae PATH yn ffurf ar hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar y sawl dan sylw y gellir ei ddefnyddio ar gyfer unigolyn neu fudiad i gefnogi cyflwyno amcan neu freuddwyd benodol ar gyfer y dyfodol. Cyflawnir hyn gyda dau hwylusydd a grŵp o bobl sy'n ymroddedig i wneud newid. Cofnodir yr holl syniadau trwy ddylunio graffig ar boster mawr. Yn ystod yr hyfforddiant ysgol, cyflwynwyd hyn oll mewn saith cam:

Cam 1: Gofynnwyd i'r holl staff ddatblygu eu gweledigaeth o 'ysgol wedi'i llywio gan ACE' a chofnodi sut y byddai'r staff yn edrych ar gyfer staff a disgyblion. Gofynnwyd iddynt ddileu rhwystrau o'r broses feddwl hon (h.y. arian, amser).

Cam 2: Gofynnwyd i'r grŵp edrych blwyddyn ymlaen ac ystyried beth mae'r ysgol wedi'i gyflawni tuag at yr amcan hwn a sut y cafodd ei gyflawni.

Cam 3: Nesaf, roedd angen i staff gofnodi sut mae 'nawr' yn edrych i ddangos y tensiwn rhwng sut mae'r ysgol yn edrych nawr a'u hysgol ddelfrydol. Y canfyddiad yw mai'r tensiwn hwn yw'r hyn sy'n symbylu ac yn cymell grŵp neu unigolyn i weithredu'r nodau sydd wedi'u adnabod yn y broses.

Cam 4: Gofynnwyd i'r staff feddwl am ba bobl y gallent eu cofrestru i'w cefnogi i gyflawni eu nod delfrydol (h.y. awdurdod lleol, rhieni).

Cam 5: Gofynnwyd i'r staff ystyried cryfderau'r ysgol a sut i adeiladu a chynnal y cryfder hwn.

Cam 6: Nododd cyfranogwyr eu cam cyntaf tuag at ddatblygu eu hysgol ddelfrydol, gan bennu nodau tymor byr i weithio tuag atynt.

Cam 7: Gofynnwyd i staff gytuno ar yr hyn y maent yn anelu at ei gyflwyno yn y deufis nesaf.

Atodiad 2- Tablau data

Tabl A2: Demograffeg y cyfranogwyr

	n	%
Ysgol		
A	20	21
B	23	24
C	52	55
Rôl swyddⁱ		
Rheolwyr ysgol	7	6
Athrawon	30	32
Cefnogwyr addysgu	56	58
Hyd amser yn y proffesiwnⁱ		
0-5 mlynedd	19	20
6-11 mlynedd	25	26
12-17 mlynedd	19	20
18+ mlynedd	27	28
Rhyw		
Gwrywaidd	10	10.5
Benywaidd	85	89.5
Ageⁱ		
18-25 mlynedd	7	7
26-35 mlynedd	22	23
36-45 mlynedd	24	25
46-55 mlynedd	25	26
55+ mlynedd	10	11

ⁱMae data ar goll ar gyfer cyfranogwyr

Tabl A3: Hyfforddiant blaenorol a dderbyniwyd gan staff ysgol ar drawma (n=91)

	n	%
Nifer y cyrsiau a fynychwyd		
0	35	39%
1-3	32	35%
4-6	24	26%
Cwrs a fynychwyd		
Amddiffyn Plant/Diogelu	36	38%
Radicalleiddio	15	16%
Cam-drin yn y Cartref	13	14%
Addysgu mewn Tîm	13	14%
ELSA	12	13%
Brave heart	10	11%
Hyfforddiant ychwanegol	10	11%
PATHs	8	8%
Ymlyniad	7	7%
SAP	5	5%
Ysgol		
A	9	53%
B	17	77%
C	30	58%
Rôl staff		
Rheolwyr ysgol	5	83%
Athrawon	16	53%
Cefnogwyr addysgu	35	64%

Tabl A4: Sgorau ARTIC Cyn ac Ar ôl hyfforddiant fesul rhyw, ysgol, rôl a hyd yn y proffesiwn.

	Achosion sylfaenol ymddygiad a symptomau problemus		Ymatebion i ymddygiad a symptomau problemus		Ymddygiad yn y swydd		Hunan-effeithlonrwydd yn y gwaith		Ymatebion i waith		Cyfanswm	
	Cyn	Ar ôl	Ar ôl 2	Cyn	Ar ôl	Ar ôl 2	Cyn	Ar ôl	Ar ôl 2	Cyn	Ar ôl 1	Ar ôl 2
Pawb												
Cymedrig	4.79	5.43	5.41	4.98	5.65	5.65	5.4	5.8	5.81	5.19	5.62	5.64
GS	0.58	0.81	0.81	0.67	0.9	0.9	0.68	0.77	0.78	0.63	0.78	0.7
Rhyw												
Gwrywaidd	4.61	5.1	5.02	5.04	5.76	5.24	5.14	5.43	5.63	5	5.33	5.4
Benywaidd	4.81	5.46	5.46	4.98	5.64	5.65	5.42	5.83	5.83	5.21	5.63	5.67
p	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A
Ysgol												
A	4.85	5.65	5.23	4.69	5.75	5.26	6.17	6.17	5.66	5.23	5.81	5.51
B	4.98	5.91	5.88	5.2	5.99	5.91	6.16	6.16	6.28	5.36	5.88	6.01
C	4.7	5.17	5.34	4.99	5.47	5.6	5.53	5.53	5.70	5.11	5.42	5.56
p	Dd/A	<0.05	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	<0.01	<0.01	<0.05	Dd/A	<0.05	<0.05
Rôl												
Rheoli	4.81	6.12	5.88	5.21	6.43	6.28	5.76	6.31	6.43	5.31	6.12	6.24
Athrawon	4.90	5.26	5.51	5.18	5.71	5.73	5.42	5.79	5.90	5.29	5.62	5.67
Cefnogwyr addysgu	4.74	5.46	5.33	4.85	5.52	5.49	5.34	5.74	5.69	5.12	5.53	5.56
p	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A
Hyd amser yn y proffesiwn												
0-5 mlynedd	4.42	4.95	5.01	4.75	5.23	5.33	4.98	5.16	5.54	4.87	5.12	5.30
6-11 mlynedd	4.86	5.49	5.18	4.83	5.53	5.22	5.38	5.85	5.48	5.14	5.54	5.36
12-17 mlynedd	5.04	5.73	5.60	5.38	6.10	5.93	5.70	6.25	6.09	5.48	6.05	5.92
≥18	4.81	5.46	5.76	5.00	5.67	5.88	5.48	5.88	6.03	5.23	5.64	5.87
p	<0.05	<0.05	<0.05	<0.05	<0.05	<0.05	<0.05	<0.01	<0.05	<0.05	<0.05	<0.05

Tabl A5: Sgorau hyder ar gyfer gweithio gyda thrawma a deall ACE a dull wedi'i lywio gan ACE.

Graddfa hyder	Cyn-		Ar ôl 1			Ar ôl 2		
	Cymedrig	GS	Cymedrig	GS	p	Cymedrig	GS	p
Adnabod plentyn sy'n profi trawma	5.79	2.02	6.99	1.87	<.01	7.79	7.79	<.01
Eich dealltwriaeth o effaith straen a thrawma ar yr ymennydd	4.65	2.46	7.6	1.71	<.01	7.66	7.66	<.05
Eich dealltwriaeth o achosion craidd ymddygiad gwael yn y dosbarth	6.05	1.83	7.52	1.56	<.01	7.86	7.86	<.01
Eich gallu i siarad â phlentyn yn briodol ac yn sensitif	7.55	2.09	8.64	1.21	<.01	8.54	8.54	<.05
Rhannu unrhyw bryderon ynglŷn â phlentyn gyda chydweithwyr	8.85	1.64	9.3	0.94	<.01	9.32	9.32	<.05
Eich dealltwriaeth o beth yw profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE)	4.33	2.23	8.05	1.93	<.01	8.84	1.11	<.01
Eich dealltwriaeth o'r effaith y gall ACE ei chael ar ddatblygiad plentyn	4.45	2.41	8.07	1.84	<.01	8.71	1.21	<.01
Eich dealltwriaeth o effeithiau tymor hwy ACE mewn glasoed ac oedolaeth	4.29	2.37	7.98	1.94	<.01	8.68	1.15	<.01
Eich gallu i gefnogi plentyn yr adnabyddir bod ganddo/ganddi ACE yn briodol	5.08	2.4	7.54	1.69	<.01	7.9	2.02	<.01
Eich dealltwriaeth o sut i gymhwyso dull wedi'i lywio gan ACE/trawma mewn addysg	3.35	2.16	6.84	2.19	<.01	7.67	2.06	<.01

Tabl A6: Sgôr hyder cyn ac ar ôl hyfforddiant ar gyfer gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed fesul rhyw, ysgol, rôl swydd a hyd amser yn y rôl.

	Adnabod plentyn sy'n profi trawma		Eich dealltwriaeth o effaith straen a thrawma ar yr ymennydd		Eich dealltwriaeth o achosion craidd ymddygiad gwael yn y dosbarth		Eich gallu i siarad â phlentyn yn briodol ac yn sensitif		Rhannu unrhyw bryderon ynglŷn â phlentyn gyda chydweithwyr			
	Cyn	Ar ôl 1	Ar ôl 2	Cyn	Ar ôl 1	Ar ôl 2	Cyn	Ar ôl 1	Ar ôl 2	Cyn	Ar ôl 1	Ar ôl 2
Pawb												
Cymedrig	5.82	6.99	7.80	4.63	7.62	7.69	6.05	7.52	7.86	7.59	8.64	8.54
GS	1.98	1.87	1.45	2.41	1.71	1.66	1.81	1.56	1.53	2.04	1.21	1.27
Rhyw												
Gwrywaidd	6.13	7.43	7.90	5.00	8.00	7.40	6.00	7.43	7.90	7.00	8.00	8.60
Benywaidd	5.80	6.95	7.78	4.60	7.58	7.73	6.06	7.53	7.85	7.65	8.69	8.53
p	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A
Ysgol												
A	6.18	7.81	7.60	4.53	8.19	7.80	6.65	8.50	7.80	8.29	9.13	8.80
B	6.09	7.48	8.41	4.19	7.86	8.29	6.50	8.00	8.65	7.95	9.00	8.88
C	5.60	6.49	7.65	4.85	7.33	7.46	5.67	7.00	7.62	7.21	8.31	8.35
p	Dd/A	<.05	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	<.05	Dd/A	Dd/A	<.05	Dd/A
Rôl												
Rheoli	8.00	8.83	9.00	7.83	9.67	9.40	8.00	9.17	9.60	8.83	9.67	9.60
Athrawon	5.87	7.14	7.70	4.52	7.76	7.56	6.20	7.66	7.78	7.77	8.64	8.11
Cefnogwyr addysgu	5.56	6.67	7.71	4.35	7.29	7.54	5.76	7.25	7.73	7.36	8.51	8.67
p	<.05	<.05	Dd/A	<.05	<.05	Dd/A	<.05	<.05	<.05	Dd/A	Dd/A	<.05
Hyd amser yn y proffesiwn												
0-5 mlynedd	5.53	6.37	7.67	4.79	7.21	7.44	5.42	7.05	7.50	6.89	8.00	8.33
6-11 mlynedd	5.52	6.62	7.35	3.56	7.13	7.00	5.80	7.13	7.35	7.48	8.96	8.40
12-17 mlynedd	6.42	7.29	8.28	5.53	8.12	8.22	6.95	7.76	8.44	8.21	9.12	8.89
≥18	5.93	7.50	7.83	4.88	8.00	8.00	6.15	8.04	8.04	7.78	8.42	8.57
p	Dd/A	Dd/A	Dd/A	<.05	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	<.05	Dd/A

Tabl A7: Sgôr hyder cyn ac ar ôl hyfforddiant ar gyfer deall ACE a dull wedi'i lywio gan ACE fesul rhyw, ysgol, rôl swydd a hyd amser yn y rôl

	Dealltwriaeth o beth yw ACE		Dealltwriaeth o'r effaith y gall ACE ei chael ar ddatblygiad plant		Dealltwriaeth o effeithiau tymor hwy ACE mewn glasoed ac oedolaeth		Eich gallu i gefnogi plentyn yr adnabyddir bod ganddo/ganddi ACE yn briodol		Dealltwriaeth o sut i gymhwyso dull wedi'i lywio gan ACE/trawma mewn addysg						
	Cyn	Ar ôl 1	Ar ôl 2	Cyn	Ar ôl 1	Ar ôl 2	Cyn	Ar ôl 1	Ar ôl 2	Cyn	Ar ôl 1	Ar ôl 2			
Pawb															
Cymedrig	4.35	8.05	8.86	4.46	8.07	8.74	4.31	8.00	8.69	5.12	7.54	7.90	3.40	6.84	7.63
GS	2.25	1.93	1.10	2.43	1.84	1.20	2.39	1.94	1.14	2.35	1.69	1.99	2.15	2.19	2.16
Rhyw															
Gwrywaidd	5.00	8.14	8.90	4.63	8.14	9.20	4.00	8.43	8.90	4.75	7.29	8.40	3.50	7.14	8.30
Benywaidd	4.29	8.04	8.85	4.45	8.06	8.68	4.34	7.96	8.66	5.16	7.56	7.84	3.39	6.81	7.53
<i>p</i>	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A
Ysgol															
A	4.41	9.19	8.87	4.88	9.25	8.73	4.75	9.31	8.93	5.24	8.25	8.40	2.65	7.69	7.86
B	3.59	8.76	9.12	3.77	8.67	9.24	3.64	8.62	8.94	4.86	8.14	8.41	3.18	7.48	8.53
C	4.65	7.37	8.77	4.62	7.43	8.58	4.46	7.31	8.54	5.19	7.02	7.60	3.73	6.27	7.27
<i>p</i>	Dd/A	<.001	Dd/A	Dd/A	<.001	Dd/A	Dd/A	<.001	Dd/A	Dd/A	<.05	Dd/A	Dd/A	<.05	Dd/A
Rôl															
Rheoli	5.67	9.83	9.80	5.83	9.67	9.80	5.33	9.83	9.80	6.00	8.67	9.00	4.83	8.67	9.20
Athrawon	4.50	8.17	8.81	4.43	8.24	8.59	4.23	7.93	8.59	5.20	7.22	7.30	3.33	6.79	7.15
Cefnogwyr addysgu	4.13	7.76	8.75	4.33	7.78	8.67	4.24	7.82	8.60	4.98	7.57	8.13	3.27	6.65	7.81
<i>p</i>	Dd/A	<.05	Dd/A	Dd/A	<.05	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A
Hyd amser yn y proffesiwn															
0-5 mlynedd	4.74	7.47	8.61	4.84	7.26	8.50	4.47	7.32	8.22	4.89	7.06	7.78	3.84	6.33	7.39
6-11 mlynedd	3.20	8.13	8.45	3.28	8.22	8.25	3.24	7.91	8.40	4.44	7.48	7.15	2.48	6.65	6.95
12-17 mlynedd	5.42	8.18	9.22	5.26	8.41	9.22	5.11	8.47	9.22	6.05	7.82	8.44	4.21	6.94	8.28
≥18	4.30	8.23	9.00	4.63	8.23	8.83	4.58	8.19	8.78	5.26	7.72	8.22	3.33	7.23	7.96
<i>p</i>	<.05	Dd/A	Dd/A	<.05	Dd/A	Dd/A	Dd/A	Dd/A	<.05	Dd/A	Dd/A	Dd/A	<.05	Dd/A	Dd/A


Cyfeiriadau

1. Ashton, K., Bellis, M.A., Hardcastle, K., Hughes, K., Mably, S. and Evans, M., 2016. *Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod a'u cysylltiad â lles meddyliol ym mhoblogaeth oedolion Cymru*. Caerdydd: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
2. Bellis, M.A., Hughes, K., Hardcastle, K., Ashton, K., Ford, K., Quigg, Z. a Davies, A., 2017. The impact of adverse childhood experiences on health service use across the life course using a retrospective cohort study. *Journal of Health Services Research & Policy*, 22 (3), 168-177.
3. Bellis, M.A., Hughes, K., Leckenby, N., Hardcastle, K.A., Perkins, C. a Lowey, H., 2015. Measuring mortality and the burden of adult disease associated with adverse childhood experiences in England: a national survey. *Journal of Public Health*, 37 (3), 445-454.
4. Chartier, M.J., Walker, J.R. a Naimark, B., 2010. Separate and cumulative effects of adverse childhood experiences in predicting adult health and health care utilization. *Child Abuse & Neglect*, 34 (6), 454-464.
5. Canolfan y Plentyn Datblygol Prifysgol Harvard, 2007. A science-based framework for early childhood policy: Using evidence to improve outcomes in learning, behavior, and health for vulnerable children. Ar gael yn: http://developingchild.harvard.edu/wp-content/uploads/2015/05/Policy_Framework.pdf
6. Bellis, M.A., Ashton, K., Hughes, K., Ford, K., Bishop, J. a Paranjothy, S., 2016. *Adverse Childhood Experiences and their impact on health-harming behaviours in the Welsh adult population*. Caerdydd: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
7. Hughes, K., Bellis, M.A., Hardcastle, K.A., Sethi, D., Butchart, A., Mikton, C., Jones, L. a Dunne, M.P., 2017. The effect of multiple adverse childhood experiences on health: a systematic review and meta-analysis. *The Lancet Public Health*, 2 (8), 356-366.
8. Reavis, J.A., Looman, J., Franco, K.A. a Rojas, B., 2013. Adverse childhood experiences and adult criminality: how long must we live before we possess our own lives? *The Permanente Journal*, 17 (2), 44-48.
9. Bellis, M.A., Lowey, H., Leckenby, N., Hughes, K. a Harrison, D., 2014. Adverse childhood experiences: retrospective study to determine their impact on adult health behaviours and health outcomes in a UK population. *Journal of Public Health*, 36 (1), 81-91.
10. Ashton, K., Bellis, M.A., Davies, A.R., Hardcastle, K. a Hughes, K., 2016. *Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod a'u cysylltiad â chlefyd cronig a defnydd o'r gwasanaeth iechyd ym mhoblogaeth oedolion Cymru*. Caerdydd: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
11. Crosby, S.D., 2015. An ecological perspective on emerging trauma-informed teaching practices. *Children & Schools*, 37 (4), 223-230
12. Cole, S.F., O'Brien, J.G., Gadd, M.G., Ristuccia, J., Wallace, D.L. a Gregory, M., 2005. *Helping Traumatized Children Learn: Supportive school environments for children traumatized by family violence*. Boston, Massachusetts Advocates for Children.
13. Anda, R.F., Felitti, V.J., Bremner, J.D., Walker, J.D., Whitfield, C.H., Perry, B.D., Dube, S.R. a Giles, W.H., 2006. The enduring effects of abuse and related adverse experiences in childhood. A convergence of evidence from neurobiology and epidemiology. *European Archives of Psychiatry and Clinical Neuroscience*, 256 (3), 174-186.
14. Brunzell, T., Waters, L., a Stokes, H. 2015. Teaching With Strengths in Trauma-Affected Students: A New Approach to Healing and Growth in the Classroom. [Amrywiol]. *American Journal of Orthopsychiatry*, 85, (1) 3-9.
15. Wolpow, R., Johnson, M.M., Hertel, R. a Kincaid, S.O., 2009. *The heart of learning and teaching: Compassion, resiliency, and academic success*. Olympia: Washington State Office of Superintendent of Public Instruction, Compassionate Schools.
16. Longhi, D. a Barila, T., 2015. A strategy Paper on Improving School Performance – Increasing Resilience to 'Trump ACEs': Lessons Learned and Policy Implications from a Review of Traditional and innovative Practices. Ar gael yn: <https://resiliencetrumpsaces.org/wp-content/uploads/2017/11/A-short-strategy-paper-with-end-notes-April-28.pdf>
17. National Scientific Council on the Developing Child, 2015. *Supportive Relationships and Active Skill-Building Strengthen the Foundations of Resilience: Working Paper 13*. Ar gael yn: <https://developingchild.harvard.edu/> [Hygyrchwyd 30 Mai 2017]
18. Hughes, K., Ford, K., Davies, A.R., Homolova, L. a Bellis, M., 2018. *Ffynonellau gwydnwch a'u cysylltiadau lliniarol â niweidiau o brofiadau niweidiol yn ystod plentynod*. Wrecsam: Iechyd Cyhoeddus Cymru.
19. Bellis, M.A., Hardcastle, K., Ford, K., Hughes, K., Ashton, K., Quigg, Z. a Butler, N., 2017. Does continuous trusted adult support in childhood impart life-course resilience against adverse childhood experienc-

- es- a retrospective study on adult health-harming behaviours and mental wellbeing. *BMC Psychiatry*, 17 (1), 110-121.
20. Larkin, H., Felitti, V.J., Anda, R.F. 2014. Social Work and Adverse Childhood Experiences Research: Implications for Practice and Health Policy, *Social Work in Public Health*, 29:1, 1-16, DOI: 10.1080/19371918.2011.619433
 21. Deddf Addysg 2002. C.50. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/32/contents>
 22. Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006. Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o Dan Ddeddf Plant 2004. Ar gael yn: <http://gov.wales/pubs/circulars/2007/nafwc1207en.pdf?lang=cy>
 23. Llywodraeth Cymru 2015. Cadw Dysgwyr yn Ddiogel: Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Plant 2002. Ar gael yn: <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150114-keeping-learners-safe-cy.pdf>
 24. Clarke, A.M., Hussein, Y., Morreale, S., Field, C.A. a Barry, M.M., 2015. What works in enhancing social and emotional skills development during childhood and adolescence? A review of the evidence on the effectiveness of school-based and out-of-school programmes in the UK.
 25. T4CYP 2017. Canllaw Arfer Gorau Ymyraethau yng Nghymru i wella iechyd a lles meddyliol plant a phobl ifainc: Crynodeb o Raglenni a'r Dystiolaeth o'u Heffeithiolrwydd. Ar gael yn: <http://www.goodpractice.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=185&mid=326&fileid=750>
 26. Donaldson, D., 2015. *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf>
 27. Jimenez, M.E., Wade, R., Lin, Y., Morrow, L.M., a Reichman, N.E. 2016. Adverse experiences in early childhood and kindergarten outcomes. *Pediatrics*, 137, (2) 1-9
 28. Cole, S.F., Eisner, A., Gregory, M, a Ristuccia, J., 2013. *Helping Traumatized Children Learn: Creating and Advocating for Trauma-Sensitive Schools, safe, supportive learning environments that benefit all children* Boston, Massachusetts Advocates for Children.
 29. Childrens Law Centre 2015, *Addressing Childhood trauma in DC schools*. The Childrens Law Centre: Washington. Ar gael yn: <https://traumasensitiveschools.org/wp-content/uploads/2015/11/CLC-Addressing-Childhood-Trauma-DC-Schools-June-2015.pdf> [Hygyrchwyd 13 Ebrill 2018].
 30. Jimenez, M.E., Wade, R., Lin, Y., Morrow, L.M. a Reichman, N.E., 2016. Adverse experiences in early childhood and kindergarten outcomes. *Pediatrics*, 137 (2), 1-9
 31. Bethell, C.D., Newacheck, P., Hawes, E., a Halfon, N. 2014. Adverse childhood experiences: assessing the impact on health and school engagement and the mitigating role of resilience. *Health Affairs*, 33, (12) 2106-2115
 32. Verbitsky-Savitz, N., Hargreaves, M. B., Penoyer, S., Morales, N., Coffee-Borden, B. and Whitesell, E., 2016, *Preventing and Mitigating the Effects of ACEs by Building Community Capacity and Resilience: APPI Cross-Site Evaluation Findings*, Mathematica Policy Research.
 33. *Paper Tigers: Our high Schools unlikely success story*. 2016. [DVD] Washington: KPRJ Films
 34. Longhi, D., Motulsky, W. a Friel, H., 2015. Higher Resilience and School Performance Among Students with Disproportionately High Adverse Childhood Experiences (ACEs) at Lincoln High, in Walla Walla, Washington, 2009 to 2013.
 35. Walkley, M & L. Cox, T. 2013. Building Trauma-Informed Schools and Communities. *Children & Schools*, 35 (2), 123-126.
 36. Katie Cairns Association 2017. *Knowledge that Changes Lives: Case Studies*. Ar gael yn: https://www.kca.training/?page=case_studies Hygyrchwyd 24 Hydref 2017].
 37. Ford, K., Newbury, A., Meredith, Z., Evans, J. a Roderick, J., 2017. *Gwerthusiad o gynllun peilot y Dull Hyfforddiant Plismona Pobl sy'n Agored i Niwed (AIAPVT) wedi'i Lywio gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentynod (ACE)*. Caerdydd: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
 38. Baker, C.N., Brown, S.M., Wilcox, P.D., Overstreet, S. a Arora, P., 2015. Development and psychometric evaluation of the attitudes related to trauma-informed care (ARTIC) scale. *School Mental Health*, 8 (1), 61.
 39. Bennett, A., Molyneuz, I., Bellis, M.A. a Lowey, H. (2017). Animeiddiad Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod: Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Awdurdod Lleol Blackburn and Darwin [ar-lein] *Aces.me.uk*. Ar gael yn: <http://www.aces.me.uk/in-wales/> [Hygyrchwyd 3 Ion. 2018].
 40. Llywodraeth Cymru 2017. Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol. Ar gael yn <http://gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf> [Hygyrchwyd 19 Mawrth 2018.]
 41. Llywodraeth Cymru 2017. Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/170926-education-in-wales-cy.pdf> [Hygyrchwyd 19 Mawrth 2018.]
 42. Barton, E.R., Meredith, Z., Newbury, A. a Roberts, J., 2018. *Gwerthusiad o ddull strwythuredig ymyrraeth*

gynnar aml-asiantaeth i bobl sy'n agored i niwed â thimau plismona cymdogaeth. Caerdydd: Ymddiriedolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru

43. Estyn 2017. TY Fframwaith Arolygu Cyffredin. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/arolygu/esbomio-arolygu/fframwaith-arolygu-cyffredin> [Hygyrchwyd 3 Ion. 2018].
44. Llywodraeth Cymru 2017. Set Data Craidd Cymru Gyfan. Fy Ysgol Leol: Rhannu Gwybodaeth am Ysgolion Lleol. Ar gael yn: <http://mylocalschool.wales.gov.uk/?lang=cy> [Hygyrchwyd 3 Ion. 2018].
45. PLACE. Ar gael yn: <https://ddpnetwork.org/about-ddp/meant-pace/> [Hygyrchwyd 19 Maw 2018.]
46. PATH. Ar gael yn: <http://helensandersonassociates.co.uk/person-centred-practice/paths/> [Hygyrchwyd 19 Maw 2018].



ISBN 978-1-910768-94-5

© 2018 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gall deunydd a gynhwysir yn y ddogfen gael ei atgynhyrchu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid datgan cydnabyddiaeth i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r hawlfraint yn y trefniant teipograffyddol, dyluniad a gosodiad yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Rhif 2 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BQ
Ffôn: 02920 227744